

# Dogfen ir Cyhoedd



**CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL**

**GŴYS A RHAGLEN**

**SUMMONS AND AGENDA**

ar gyfer

for a

**CYFARFOD O GYNGOR  
SIR YNYS MÔN**

**MEETING OF THE ISLE OF  
ANGLESEY COUNTY COUNCIL**

ar

on

**DYDD MAWRTH, 3 RHAGFYR 2024**

**TUESDAY, 3 DECEMBER 2024**

**→ am 2:00 o'r gloch yp ←**

**→ at 2:00 pm ←**

**Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdurdod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod.**

## **R H A G L E N**

### **1. COFNODION**

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft y cyfarfodydd canlynol o'r Cyngor Sir:-

- 26 Medi 2024
- 6 Tachwedd 2024 (Arbennig)

### **2. DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem of fusnes.

### **3. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR**

### **4. RHYBUDD O GYNNIG YN UNOL Â RHEOL 4.1.13 .1 Y CYFANSODDIAD**

- **Derbyn y Rhybuddion o Gynnig isod gan y Cynghorydd Kenneth P Hughes:**

- *“Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i fabwysiadu polisi hollgynhwysfawr o wrthwynebiad i ddatblygiad ffermydd solar yng nghefn gwlad Ynys Môn.”*
- *“Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn, o ganlyniad i'r ansicrwydd o fewn y diwydiant amaethyddol, i gadarnhau ei ymrwymiad i amaeth ar Ynys Môn drwy sicrhau bod yr holl waith trwsio angenrheidiol i adeiladau amaethyddol yn Stad Môn-ddaliadau y Cyngor Sir yn cael ei gwblhau fel mater o frys. Yn ogystal, bod adolygiad o'r fformiwla cyllido ar gyfer y Stâd Môn-ddaliadau yn cael ei chychwyn.”*

- **Derbyn y Rhybudd o Gynnig isod gan y Cynghorydd Derek Owen: -**

*“Rydym yn galw ar Gyngor Sir Ynys Môn i geisio cyfarfod brys â'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiogelwch Ynni a Sero Net, Ed Miliband, er mwyn ei alluogi i gadarnhau dyddiad dechrau ar gyfer prosiect Wylfa Newydd ar safle Wylfa yng Nghemaes.*

*Safle Wylfa yw'r gorau yn Ewrop ar gyfer lletya gorsafoedd pŵer niwclear neu orsafoedd.*

*Mae hyn yn dilyn y llythyr a anfonwyd gan Gyngor Cymuned Llanbadrig yn ceisio atebion.”*

### **5. CYFLWYNO DEISEBAU**

Derbyn unrhyw ddeiseb yn unol a Pharagraff 4.1.11 o'r Cyfansoddiad.

**6. ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2023/24**

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 22 Hydref 2024.

**7. DATGANIAD O'R CYFRIFON 2023/2024 A'R ADRODDIAD ISA 260**

Cyflwyno'r canlynol, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Tachwedd, 2024: -

- Adroddiad gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 – Datganiad o'r Cyfrifon 2023/24.
- Adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid – Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/2024.
- Adroddiad Archwilio Allanol ynghylch yr archwiliad o'r datganiadau ariannol. (Adroddiad ISA 260).

**8. CYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL PWYLLGORAU**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Democratiaeth.

**9. DATGANIAD POLISI GAMBLO 2025-2028**

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

This page is intentionally left blank

## CYNGOR SIR YNYS MÔN

### Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 26 Medi 2024

- PRESENNOL:** Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)  
Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)
- Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff Evans, Neville Evans, Douglas M Fowlie, Trefor LI Hughes MBE, Aled Morris Jones, Carwyn Jones, Dyfed W Jones, Gwilym O Jones, John Ifan Jones, Robert LI Jones, Pip O'Neill, Llio A Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Ken Taylor, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams, Arfon Wyn.
- WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,  
Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,  
Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,  
Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,  
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,  
Pennaeth Prifffyrdd, Eiddo a Gwastraff,  
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,  
Pennaeth Gwasanaethau Tai,  
Pennaeth Democratiaeth,  
Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol (MY),  
Swyddog Cyfathrebu (GJ),  
Swyddog Pwyllgorau (MEH)  
Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau - Gweddarlledu (FT).
- HEFYD YN BRESENNOL:** Mr. Dilwyn Evans – Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio (ar gyfer eitem 11).  
Mr Trefor Owen – Cadeirydd y Pwyllgor Safonau (ar gyfer eitem 12).
- YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Jackie Lewis, Euryrn Morris, Derek Owen, Nicola Roberts, Liz Wood.
- Dirprwy Brif Weithredwr

#### 1. CYFLWYNIAD GAN YMGEISYDD I GEFNOGI EU HENWEBIAD I FOD YN ARWEINYDD Y CYNGOR

Yn unol â Pharagraff 2.7.3.2 o'r Cyfansoddiad, ac ar ôl cyflwyno cyflwyniad ysgrifenedig (maniffesto) i'r Prif Weithredwr, 5 diwrnod gwaith cyn y Cyngor llawn (wedi'i gefnogi yn ysgrifenedig gan ddau Gyngorydd arall), rhoddodd y Cynghorydd Gary Pritchard gyflwyniad llafar ar ei weledigaeth a'i werthoedd.

#### 2. PENODI ARWEINYDD Y CYNGOR

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i ethol y Cynghorydd Gary Pritchard yn Arweinydd Cyngor Sir Ynys Môn yn unol ag Erthygl 7 ac yn benodol y rheolau gweithdrefn ym Mharagraff 2.7.3 o Gyfansoddiad y Cyngor**

Fe wnaeth y Cynghorydd Dylan Rees, Cadeirydd y Grŵp Plaid Cymru longyfarch y Cynghorydd Gary Pritchard ar gael ei ethol yn Arweinydd y Cyngor. Talodd deyrnged i'r cyn Arweinydd, Llinos Medi am yr hyn a gyflawnodd yn ystod ei chyfnod fel Arweinydd a'i llongyfarch ar gael ei hethol yn Aelod Seneddol dros Ynys Môn.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones ei fod yn gobeithio y bydd yr Arweinydd newydd yn sicrhau bod y prosiect Wylfa yn codi momentwm ac y bydd safle niwclear yn cael ei adeiladu ar safle Wylfa. Dywedodd yr Arweinydd y bydd yn pwysu am safle niwclear newydd ar safle Wylfa.

Dywedodd y Cynghorydd Robert Llewelyn Jones ei fod yn gobeithio y bydd yr Arweinydd newydd yn ymdrechu i sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei dargedau sero net erbyn 2030. Dywedodd yr Arweinydd bod y Cyngor wedi ymrwymo i fod yn gyngor sero net erbyn 2023 ac y bydd yn rhaid iddo weithio â phob gwasanaeth a sefydliadau partner i gyflawni hyn.

### **3. DIRPRWY ARWEINYDD / ARWEINYDDION Y CYNGOR**

**Cadarnhaodd Arweinydd y Cyngor ei fod wedi penodi'r Cynghorydd Robin Williams i wasanaethu fel Dirprwy Arweinydd.**

### **4. AELODAETH O'R PWYLLGOR GWAITH**

**Cadarnhaodd yr Arweinydd enwau'r Cynghorwyr y mae wedi eu dewis i wasanaethu ar y Pwyllgor Gwaith, ynghyd â'u cyfrifoldebau Portffolio:-**

**Cynghorydd Gary Pritchard (Arweinydd)** â chyfrifoldeb dros y portffolio Datblygu Economaidd;

**Cynghorydd Robin Williams (Dirprwy Arweinydd)** â chyfrifoldeb dros y portffolio Cyllid a Thai;

**Cynghorydd Neville Evans** â chyfrifoldeb dros y portffolio Hamdden, Twristiaeth a Morwrol;

**Cynghorydd Carwyn Jones** â chyfrifoldeb dros y portffolio Busnes Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer;

**Cynghorydd Dyfed Wyn Jones** â chyfrifoldeb dros y portffolio Plant (Gwasanaethau Cymdeithasol), Pobl Ifanc a Theuluoedd;

**Cynghorydd Alun Roberts** â chyfrifoldeb dros y portffolio Gwasanaethau Oedolion (Gwasanaethau Cymdeithasol) a Diogelwch Cymunedol;

**Cynghorydd Dafydd Roberts** â chyfrifoldeb dros y portffolio Addysg a'r Gymraeg;

**Cynghorydd Nicola Roberts** â chyfrifoldeb dros y portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd;

**Cynghorydd Dafydd Rhys Thomas** â chyfrifoldeb dros y portffolio Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo.

## 5. COFNODION

Cadarnhawyd fod cofnodion y cyfarfodydd canlynol o Gyngor Sir Ynys Môn yn gywir:-

- 21 Mai, 2024 (Cyfarfod Cyffredinol) a.m.
- 21 Mai, 2024 (Cyfarfod Blynyddol) p.m.

## 6. DATGAN BUDDIANT

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o fuddiant.

## 7. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Gwnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

- Llongyfarchiadau i drefnwyr Sioe Môn ar sioe arall llwyddiannus eleni;
- Llongyfarchiadau i'r holl gystadleuwyr o'r Ynys a fu'n llwyddiannus yn y Sioe Genedlaethol a'r Eisteddfodau.
- Llongyfarchiadau mawr i blant a phobl ifanc yr Ynys ar eu llwyddiant gyda chanlyniadau TGAU, Lefel A, a chymwysterau lefel 2 a 3 eraill dros yr haf. Dymuniadau gorau i'r bobl ifanc hynny fydd yn gadael eu cartrefi am brifysgolion a cholegau ar hyd a lled Cymru a thu hwnt.
- Mae'r Cyngor yn Rhiant Corfforaethol a manteisiodd y Cadeirydd ar y cyfle i longyfarch y Plant sy'n Derbyn Gofal ar eu llwyddiannau yn eu TGAU a chyraeddiadau eraill yn ddiweddar, mae'r rhan fwyaf wedi sicrhau lleoliadau coleg, profiadau gwaith neu gyfleoedd prentisiaeth ac mae gennym un dyn ifanc sydd newydd ddechrau ym Mhrifysgol Bolton - da iawn i chi gyd! Roedd y Cadeirydd yn dymuno diolch i'r holl staff, athrawon, rhieni a rhieni maeth sydd wedi cefnogi'r bobl ifanc.
- Llongyfarchiadau arbennig i Isaak Floyd-Eve oedd yn ddisgybl blwyddyn 13 yn Ysgol Uwchradd Caergybi ar ennill Gwobr Goronwy Jones am yr ymgeisydd Safon Uwch gorau mewn Ffiseg drwy Gymru. Da iawn Isaak.
- Llongyfarchiadau i Mabli Blackshaw o Gaergybi ar gynrychioli tîm pêl-droed dan 16 Cymru a hithau yn ddim ond 12 oed. Chwaraeodd Mabli i Gymru yn erbyn Iwerddon yn Nulyn yn ddiweddar.
- Llongyfarchiadau i Jenna Seddon o Rosneigr – enillydd y ras merched Firelighter a oedd yn rhan o wyl redeg y Ring O'Fire ym mis Awst.
- Llongyfarchiadau i Gethyn Evans, Bryngwran – y dyn cyntaf yn ras 5 milltir y Morglawdd a gynhaliwyd ym mis Awst.
- Llongyfarchiadau i Gareth Cadwaladr, rheolwr gwasanaethau digidol yn y Cyngor, sydd wedi seiclo dros 700 milltir o Sweden i'r Iseldiroedd gyda chriw o ffrindiau i godi arian at elusen Blood Cancer UK. Maent wedi llwyddo i hel dros £2,600 at yr elusen hyd yma.
- Talodd y Cadeirydd deyrnged i Mr Elfed Roberts o'r Adran Gyllid sydd wedi cyrraedd carreg filltir nodedig o weithio i'r Cyngor am 50 mlynedd.

- Dywedodd y Cadeirydd bod yr Awdurdod wedi llwyddo i uwchraddio ei aelodaeth Hyderus o ran Anabledd, a bod y Cyngor yn cael ei adnabod fel Cyflogwr Hyderus o ran Anabledd. Diolchodd i'r staff sydd wedi bod yn rhan o'r datblygiad pwysig hwn.
- Llongyfarchiadau i'r Cynghorydd Jeff Evans ar ei lwyddiant diweddar ym mhencampwriaethau'r 'Town Crier'.
- Dymunodd y Cadeirydd yn dda i gyn-arweinydd y Cyngor, Llinos Medi ar gychwyn ei gwaith fel aelod seneddol dros Ynys Môn.

\* \* \* \*

Cydymdeimlodd â theuluoedd a ffrindiau Humphrey Pickering, Stephen a Katherine Burch a fu farw mewn damwain car ym Miwmares ddiwedd mis Awst. Er tristwch y digwyddiad, roedd ymateb y trigolion lleol yn arwydd o gryfder y gymuned.

Cydymdeimlodd hefyd a theuluoedd yr aelodau staff a fu farw yn ddiweddar :-

- Tony Jones a fu'n gwasanaethu'r Cyngor am flynyddoedd ac a oedd yn weithgar yn y gymuned drwy ei waith gyda MônFM
- Einir Williams, pennaeth Sbaeneg, dirprwy bennaeth 6ed ac Athrawes BAC uchel ei pharch yn Ysgol David Hughes,
- Hilda Owen, a oedd yn aelod profiadol a gweithgar o'r tîm gofal arbennig yng Nghanolfan Addysg y Bont.

Cydymdeimlodd ag unrhyw aelod etholedig, neu aelod o staff arall sydd wedi cael profedigaeth yn ddiweddar.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o barch.

## **8. CYFLWYNO DEISEBAU**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddeisebau.

## **9. ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2023/24**

Cyflwynwyd Adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Medi 2024, i'w dderbyn gan y Cyngor.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer ei bod yn bleser cyflwyno adroddiad mor gadarnhaol sy'n nodi bod y Cyngor wedi cwblhau 93% o'r gwaith a gynlluniwyd, fel y nodir yn y ddogfen gyflawni flynyddol. Mae'r unig gam gweithredu allweddol sydd heb ei gwblhau yn ymwneud â phorth tenantiaid digidol newydd y Cyngor er mwyn gwella'r dulliau cyswllt i'n tenantiaid. Am resymau technegol bydd bellach yn cael ei lansio yn ystod hanner cyntaf y flwyddyn nesaf. Amlygodd y Cynghorydd Carwyn Jones rai o'r gwelliannau unigol o dan bob amcan strategol a dywedodd mai'r her nawr fydd cynnal y perfformiad rhagorol hwn.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Aled Morris Jones at y defnydd a wneir o Breimiwm y Dreth Cyngor i adfer eiddo gwag. Roedd o'r farn bod hyn yn annheg a bod trigolion lleol yn



wynebu gorfod talu dwywaith cymaint o Dreth Gyngor gan eu bod yn y broses o werthu eiddo y maent wedi'i etifeddu a phobl ifanc sy'n cymryd mwy o amser i atgyweirio eu heiddo.

Mewn ymateb, dywedodd yr Arweinydd ei fod o'r farn bod y Premiwm yn gweithio'n dda, a bod y premiwm ychwanegol wedi darparu adnoddau i ychwanegu at Stoc Dai'r Cyngor a helpu prynwyr tro cyntaf i brynu eu cartref cyntaf drwy ddarparu benthyciadau rhannu ecwiti. Er ei fod yn derbyn bod rhai pobl yn etifeddu eiddo a methu ei werthu o fewn yr amserlen a bod pobl methu â chwblhau gwaith adnewyddu mewn pryd, mae'r Adran Gyllid yn ystyried y math yma o enghreifftiau pan fydd eiddo yn wag.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i fabwysiadu'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2023/2024.**

**10. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CYFARWYDDWR AR EFFEITHIOLRWYDD Y GWASANAETHAU CYMDEITHASOL 2023/24**

Cyflwynwyd – adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol bod yr Adroddiad Blynyddol yn adroddiad statudol sy'n amlygu llwyddiannau'r Adran Gwasanaethau Cymdeithasol. Dywedodd bod heriau ariannol, yn enwedig yn y Gwasanaethau Plant, sy'n gorwario ar hyn o bryd, a bod cynlluniau ar y gweill i agor Cartref Clyd arall ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Aeth ymlaen i ddweud bod prosiectau trydydd sector ar gael i gadw pobl yn eu cymuned leol i'w hatal rhag dod yn ddibynnol ar wasanaethau statudol y Gwasanaethau Plant ac Oedolion sy'n gostus. Roedd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol yn dymuno diolch i staff y Gwasanaethau Plant ac Oedolion am eu gwaith.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i DDERBYN Adroddiad Blynyddol y Cyfarwyddwr ar Effeithlonrwydd y Gwasanaethau Cymdeithasol 2023/2024.**

**11. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR LLYWODRAETHU AC ARCHWILIO 2023/24 - ADRODDIAD Y CADEIRYDD**

Cyflwynwyd adroddiad Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 27 Mehefin 2024, i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Dywedodd Mr Dilwyn Evans, Cadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio bod yr adroddiad yn cwrdd â Chylch Gorchwyl y Pwyllgor Llywodraethu, sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r Pwyllgor adrodd i'r cyngor llawn yn flynyddol ar ei ganfyddiadau, casgliadau ac argymhellion ynghylch digonolrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu, rheoli risg a fframweithiau rheolaeth fewnol y Cyngor, trefniadau adrodd ariannol, ymdrin â chwynion a swyddogaethau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r adroddiad yn nodi gweithgareddau'r Pwyllgor yn ystod 2023/2024. Roedd yn dymuno diolch i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac i'r staff sy'n cefnogi'r Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar gyfer 2023/24.**

**12. ADRODDIAD BLYNYDDOL Y PWYLLGOR SAFONAU 2023/24**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Cyflwynwyd Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau gan Mr Trefor Owen, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau.

Dywedodd Mr Owen ei fod wedi cael ei benodi'n Gadeirydd y Pwyllgor Safonau'n ddiweddar a diolchodd i'r cyn-gadeirydd, Mr Rhys Davies, am ei waith. Eglurodd Mr Owen mai dyma drydydd adroddiad blynyddol y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Sir yn unol â gofynion Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021. Dywedodd Mr Owen bod yr adroddiad yn amlinellu dyletswyddau'r Pwyllgor Safonau, a'r gwaith a ymgymerwyd ganddo ag Aelodau'r Cyngor Sir, Arweinyddion Grŵp a Chynghorau Tref a Chymuned i gyflawni ei ddyletswyddau. Aeth Mr Owen ymlaen i ddweud bod yr adroddiad yn amlinellu gwaith y Pwyllgor yn unol â'i gyfrifoldebau yn ystod 2023/2024 a chyflwynwyd Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer 2024/2025 i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

- Gymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau;
- Cymeradwyo Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau ar gyfer 2024/25, gan dderbyn y gallai materion ychwanegol gael eu cynnwys, yn unol â'r galw.

### **13. NEWID Y CYFANSODDIAD - CYNLLUN DIRPRWYO I SWYDDOGION**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Gorffennaf 2024, i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Adroddodd yr Arweinydd bod yr adroddiad yn cynnwys cais am Gynllun Dirprwyo mewn perthynas â chyflawni swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig ag unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP). Drwy ei Raglen Ynys Ynni, mae'r Cyngor, yn ymgysylltu ag amrywiaeth o ddatblygwyr sydd â diddordeb mewn adeiladu a gweithredu ar ddatblygiadau carbon isel ar yr Ynys, a oedd wedi'u hamlygu yn yr adroddiad. Gan mai'r Arolygiaeth sy'n pennu'r amserlen archwilio, nid yw'n bosibl cysoni'r terfynau amser fel bod y Cyngor yn cyflwyno sylwadau a thystiolaeth gyda chylch pwyllgorau'r Cynghorau. Felly, gofynnir i'r Cyngor gefnogi cynllun dirprwyo i alluogi'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor yn gysylltiedig â phrosiectau NSIP. Nid yw'r amserlen archwilio a ddarperir gan yr Arolygiaeth Gynllunio yn caniatáu digon o amser i gyfieithu cyflwyniadau'r Cyngor erbyn y dyddiad cyflwyno. Gofynnir felly am ganiatâd i wyro oddi wrth ofynion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor i ganiatáu cyflwyno cyfieithiad Cymraeg o gyflwyniadau'r Cyngor i'r broses archwilio ar ôl y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno. Ni fydd y mesur hwn yn effeithio ar allu'r Cyngor i gydymffurfio â'r safonau darparu gwasanaeth statudol, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol gohebu'n Gymraeg/dwyieithog â'r cyhoedd a phersonau eraill yng Nghymru. Bydd fersiwn Gymraeg o ddogfennau'r Cyngor ar gael bob amser ac ni chaiff unrhyw ddogfennau eu cyhoeddi na'u cyhoeddi'n gyhoeddus hyd nes y bydd cyfieithiad Cymraeg ar gael.

**PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

- Ddirprwyo'r hawl i'r Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, mewn ymgynghoriad a'r Arweinydd (neu Aelod Portffolio a enwebwyd gan yr Arweinydd), i gyflawni holl swyddogaethau statudol y Cyngor 4 mewn cysylltiad ag unrhyw ddatblygiad sydd yn Brosiect Seilwaith o Arwyddocâd Cenedlaethol (NSIP) ac sy'n gofyn am Orchymyn Caniatâd Datblygu (DCO) fel y'i diffinnir o dan Ddeddf Cynllunio 2008 fel y diwygiwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol;

- **Caniatáu i'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro, mewn ymgynghoriad â'r Pennaeth Gwasanaeth (Rheoleiddio a Datblygu Economaidd), i ddiweddarau adran 3.5.3.10 o'r Cyfansoddiad i adlewyrchu'r dirprwyaethau a roddwyd gan y penderfyniad.**
- **Rhoi caniatâd i wyro oddi wrth ofynion Polisi Iaith Gymraeg y Cyngor er mwyn galluogi i gyfieithiad Cymraeg o sylwadau'r Cyngor gael ei anfon at yr Arolygaeth Cynllunio yn dilyn eu cyflwyno yn y Saesneg. (Mae'r eithriad yma'n angenrheidiol gan nad yw amserlen yr archwiliad NSIP yn caniatáu amser digonol i sylwadau'r Cyngor gael eu cyfieithu erbyn y dyddiad cyflwyno).**

#### **14. NEWID Y CYFANSODDIAD – POLISI PRYDERON A CHWYNION A RHEOLAU GWEITHDREFN CONTRACTAU**

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 24 Medi 2024, i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Eglurodd yr Aelodau Portffolio Corfforaethol a Phrofiad y Cwsmer bod y Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau wedi'u cynnwys yng Nghyfansoddiad y Cyngor ar hyn o bryd ac felly mae'n rhaid i unrhyw newidiadau gael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn. Nid oes unrhyw ofyniad cyfreithiol i gynnwys y PPCh/RhGCau yn y Cyfansoddiad, ac nid yw hynny'n ddisgwyliedig gan reoleiddwyr y Cyngor chwaith.

Mae'n rhaid i'r Cyngor gyhoeddi Polisi Pryderon a Chwynion (PPCh) sy'n cyd-fynd â'r polisi enghreifftiol a ddarparwyd gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) ac sy'n dilyn safonau a chanllawiau arfer da Awdurdod Safonau Cwynion yr Ombwdsmon.

Mae newidiadau deddfwriaethol yn gysylltiedig â materion caffael ar y gweill a bydd rhaid diwygio RhGCau y Cyngor i gyd-fynd â'r gofynion statudol.

I hwyluso'r broses o ddiweddarau'r dogfennau hyn cynigir bod y PPCh a'r RhGCau yn cael eu tynnu o'r Cyfansoddiad, a'u bod, ynghyd ag unrhyw ddogfennau ategol, yn cael eu cyhoeddi mewn lle amlwg ar wefan y Cyngor. Drwy eu tynnu o'r Cyfansoddiad bydd modd i'r dogfennau gael eu diwygio gan y Pwyllgor Gwaith, yn hytrach na'r Cyngor llawn. Bydd newid hwn yn sicrhau bod dogfennau'n cael eu hadolygu a'u diwygio ar amser ac yn darparu proses mwy hyblyg ac ymatebol. Bydd cyhoeddi'r PPCG a'r RhGCau ar wefan y Cyngor yn rhoi mwy o eglurder i aelodau'r cyhoedd sy'n dymuno gwneud cwyn a chontractwyr / busnesau sy'n ymgeisio am gontractau'r Cyngor.

#### **PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

##### **• Dynnu'r canlynol o'r Cyfansoddiad:**

- **Polisi Pryderon a Chwynion**
- **Rheolau Gweithdrefn Contractau a**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Swyddog Monitro i wneud unrhyw newidiadau o ganlyniad i'r penderfyniadau hyn.**

**• Bod y Polisi Pryderon a Chwynion, a'r Rheolau Gweithdrefn Contractau (ynghyd â'r holl ddogfennau ategol perthnasol) ar gael yn rhwydd ar wefan y Cyngor.**

- Ni fydd y Cyngor llawn bellach yn gyfrifol am gymeradwyo unrhyw newidiadau i'r Polisi Pryderon a Chwynion a Rheolau Gweithdrefn Contractau, a byddant yn cael eu cymeradwyo gan:

- y Pwyllgor Gwaith; neu

- y Swyddog Monitro\*, o dan bwerau dirprwyedig, os nad yw'r newidiadau'n darparu dewis lleol, neu'n fân newidiadau.

*\*Bydd unrhyw newidiadau i'r Rheolau Gweithdrefn Contractau bob amser yn cael eu trafod â'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151.*

## 15. CYTUNDEB CYFLAWNI DRAFFT - CYNLLUN DATBLYGU LLEOL YNYS MÔN

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd, fel y'i cyflwynwyd i'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar 18 Gorffennaf 2024, i'w gymeradwyo gan y Cyngor.

Yn absenoldeb yr Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd dywedodd y Dirprwy Arweinydd bod yr adroddiad yn crynhoi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus ar y Cytundeb Cyflawni Drafft ar gyfer creu Cynllun Datblygu Lleol newydd ar gyfer Ynys Môn. Mae'r Cytundeb Cyflawni'n amlinellu'r Cynllun Cynnwys Cymunedau sy'n nodi sut a phryd y bydd rhanddeiliaid a'r gymuned yn cael eu cynnwys yn y broses o baratoi'r cynllun a'r amserlen ar gyfer paratoi'r Cynllun Datblygu Lleol. Cynhaliwyd ymgynghoriad rhwng 23 Mai 2024 a 4 Gorffennaf 2024. Roedd yr adroddiad yn nodi'r camau a gymerwyd i godi ymwybyddiaeth o'r ymgynghoriad. Roedd nifer yr ymatebion yn siomedig. Derbyniwyd 85 o ymatebion ar-lein ond roedd 34 o'r rhain wedi'u cyflwyno heb sylwadau a 35 wedi'u llenwi'n rhannol gyda nifer yn cynnwys manylion cyswllt yn unig. Derbyniwyd 8 ymateb llawn ar y we a 8 ymateb dros e-bost. Nododd nad oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r Cytundeb Cyflawni yn dilyn y sylwadau hyn.

Dywedodd y Cynghorydd Aled Morris Jones y dylai'r Cynllun Datblygu Lleol newydd sicrhau bod modd i anheddau gael eu hadeiladu ar gyrion pentrefi llai i fynd i'r afael â'r angen lleol fel ag ym Mholisi Cynllunio 50 yn y Cynllun Datblygu Lleol blaenorol ar gyfer Ynys Môn.

### **PENDERFYNWYD yn unfrydol i:-**

- Nodi'r sylwadau a dderbyniwyd yn ystod yr ymgynghoriad cyhoeddus chwe wythnos o hyd, yn ogystal ag ymateb yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r sylwadau hynny (Atodiad A);
- Cymeradwyo'r drafft terfynol o'r Cytundeb Cyflawni (Atodiad B) a chefnogi ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Daeth y cyfarfod i ben am 3.35 pm

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES  
CADEIRYDD**

# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Cofnodion y Cyfarfod Arbennig a gynhaliwyd ar 6 Tachwedd 2024

**PRESENNOL:** Cynghorydd Glyn Haynes (Cadeirydd)  
Cynghorydd Non Dafydd (Is-gadeirydd)

Cynghorwyr Geraint Bebb, Paul Ellis, Jeff M Evans, Neville Evans, Douglas Massie Fowlie, Kenneth P Hughes, T LI Hughes MBE, Carwyn Jones, John Ifan Jones, R LI Jones, A M Jones, G O Jones, Dyfed Wyn Jones, Euryrn Morris, Pip O'Neill, Llio Angharad Owen, Gary Pritchard, Dylan Rees, Alun Roberts, Dafydd Roberts, Keith Roberts, Margaret Murley Roberts, Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas, Alwen Pennant Watkin, Ieuan Williams, Robin Williams, Sonia Williams ac Arfon Wyn

**WRTH LAW:** Prif Weithredwr,  
Dirprwy Brif Weithredwr,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,  
Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,  
Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd,  
Pennaeth Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo,  
Pennaeth Democratiaeth,  
Prif Swyddog Datblygu Economaidd (THJ),  
Rheolwr Tîm Rheoli Adeiladu (AR),  
Swyddog Cyfathrebu (GJ),  
Swyddog Pwyllgorau (MEH),  
Swyddog Gweddarlledu Gwasanaethau Pwyllgorau (FT).

**YMDDIHEURIADAU:** Cynghorwyr Jackie Lewis, Derek Owen, Ken Taylor a Liz Wood

### 1. DATGAN BUDDIANT

Fe wnaeth y Cynghorydd Alwen P Watkin ddatgan diddordeb personol yn gysylltiedig ag eitem 4 – Awdurdodi ac Ariannu Gwaith Trwsio Annisgwyl ac yn dilyn derbyn cyngor cyfreithiol roedd modd iddi gymryd rhan yn y drafodaeth a'r bleidlais.

### 2. DERBYN UNRHYW GYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD, ARWEINYDD Y CYNGOR NEU'R PRIF WEITHREDWR

Fe wnaeth y Cadeirydd y cyhoeddiadau a ganlyn:-

Fe wnaeth y Cadeirydd longyfarch y Cynghorydd Kenneth P Hughes ar gael ei ethol yn ddiweddar i gynrychioli ward Talybolion.

\* \* \* \*

Fe wnaeth y Cadeirydd gydymdeimlo â theulu'r cyn-gynghorydd Jim Evans a fu farw'n ddiweddar. Roedd Mr Evans yn gyn-gadeirydd y Cyngor a chyn bostfeistr yn Llanfairpwll.

Talodd aelodau'r Cyngor deyrnged i Mr Jim Evans gan ddweud ei fod yn uchel ei barch am ei waith fel Aelod Lleol ac fel aelod o gymuned Llanfairpwll.

Safodd yr Aelodau a'r Swyddogion fel arwydd o barch.

### **3. CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD** mabwysiadu'r canlynol;-

**“O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem a ganlyn oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth ei rhyddhau a honno'n wybodaeth y gwneir eithriad ohoni yn Atodlen 12A y Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd sydd ynghlwm.”**

### **4. AWDURDODI AC ARIANNU GWAITH TRWSIO ANNISGWYL**

Cyflwynwyd adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd i'w ystyried.

Adroddodd y Prif Weithredwr bod y Cyngor, ym mis Mawrth 2024, wedi cyflwyno hysbysiad, yn unol ag adran 78 o Ddeddf Adeiladu 1984, i berchnogion y tri adeilad cyfagos, yn gofyn iddynt gwblhau gwaith brys ar eu hadeiladau er mwyn gofalu am ddiogelwch y cyhoedd.

Fe wnaeth dau o'r tri perchennog weithredu ond ni wnaeth y trydydd gymryd unrhyw gamau.

O ganlyniad, roedd yn rhaid i'r Cyngor gamu i'r adwy a bydd yn ceisio adennill y costau.

Tra bod y gwaith dan sylw'n cael ei wneud, canfu bod cyflwr cyffredinol yr adeiladau, un ohonynt yn enwedig, yn llawer gwaeth nag a dybiwyd yn wreiddiol. Comisiynwyd cwmni peirianeg arbenigol annibynnol i ddarparu tystiolaeth bellach a daethpwyd o hyd i wendidau strwythurol difrifol. Rhannwyd y dystiolaeth â'r perchnogion ac rydym yn aros i weld pa gamau y maent yn bwriadu eu cymryd. Rydym yn gobeithio y bydd y gwaith yn cael ei wneud heb unrhyw ymyrraeth bellach gan y Cyngor. Fodd bynnag, os na fydd y perchnogion yn gweithredu bydd y Cyngor yn gwneud cais i Lys yr Ynadon dan Adran 77 o Ddeddf Adeiladu 1984 am orchymyn i'w gyflwyno i berchnogion yr adeilad i gau'r adeilad a'u gorfodi i wneud y gwaith. Os na fyddant yn gweithredu, bydd y Cyngor yn gwneud y gwaith brys sy'n weddill ac yn ceisio adennill y gost o ymgymryd â'r gwaith hwnnw gan berchnogion yr eiddo.

Mae angen rhyddhau'r arian o'r balansau cyffredinol felly fel bod y Cyngor mewn sefyllfa i wneud y gwaith pe bai angen.

Roedd aelodau'r Cyngor Sir yn cydnabod y gwaith sylweddol a wnaed gan Swyddogion y Cyngor fynd i'r afael â'r gwaith angenrheidiol i wneud yn siŵr bod yr adeilad yn ddiogel, am y tro, ac unrhyw achosion cyfreithiol angenrheidiol. Fe wnaeth y Swyddogion ateb cwestiynau gan yr Aelodau yn gysylltiedig â'r trefniadau sydd ar waith i wneud yn siŵr bod y cyhoedd yn diogel ac ar gyfer adennill yr arian cyhoeddus a wariwyd ar yr eiddo preifat.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cyflwr peryglus yr adeilad a'r risg uniongyrchol i ddiogelwch y cyhoedd, gan olygu bod angen gweithredu ar frys.**

- Awdurdodi rhyddhau uchafswm o £500,000 o falansau cyffredinol y Cyngor er mwyn caniatáu i waith strwythurol brys gael ei wneud i sicrhau diogelwch y cyhoedd.
- Awdurdodi swyddogion i ddwyn unrhyw achosion cyfreithiol y maent yn ystyried yn rhesymol er mwyn adennill y costau a gafwyd gan y Cyngor wrth gyflawni'r gwaith unioni ar yr adeilad/adeiladau ac ariannu unrhyw gostau cyfreithiol nad ydynt yn cael eu hadennill.
- Caniatáu eithriad ar gyfer “contractau lle mae cymaint o frys nad yw'n bosibl cydymffurfio â'r Rheolau hyn” a bydd angen eithriad ar gyfer y gwaith hwn oherwydd y brys.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.50 am

**CYNGHORYDD GLYN HAYNES  
CADEIRYDD**

This page is intentionally left blank



## CYNGOR SIR YNYS MÔN

<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>CYNGOR SIR</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>3 RHAGFYR 2024</b>
<b>PWNC:</b>	<b>ADOLYGIAD RHEOLI'R TRYSORLYS BLYNYDDOL AR GYFER 2023/24</b>
<b>DEILYDD PORTFFOLIO:</b>	<b>Y CYNGHORYDD R WILLIAMS - DIRPRWY ARWEINYDD A DEILYDD PORTFFOLIO CYLLID</b>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	<b>MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>JEMMA ROBINSON - JemmaRobinson@ynysmon.llyw.cymru</b>

**Natur a rheswm am adrodd**

Er mwyn cydymffurfio â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003 a gyda Chynllun Dirprwyo Rheoli'r Trysorlys y Cyngor ar gyfer 2023/24 (Atodiad 10 o Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24). Yn unol â'r Cynllun Dirprwyo, cafodd yr adroddiad hwn ei sgriwteiddio gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ar 19 Medi 2024 a'i gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith heb sylwadau ar 22 Hydref 2024. Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith i gyflwyno'r adroddiad i'r Cyngor llawn heb sylw pellach.

**1. Cyflwyniad**

Yn unol â rheoliadau a gyhoeddwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2003, mae'n ofynnol i'r Cyngor lunio adolygiad rheoli'r trysorlys blynyddol o'i weithgareddau a'r dangosyddion darbodus a thrysorlys gwirioneddol ar gyfer 2023/24. Mae'r adroddiad hwn yn bodloni gofynion Côt Ymarfer CIPFA ar Reoli Trysorlys (y Côt) a Chôt Darbodus CIPFA ar gyfer Cyllid Cyfalaf mewn Awdurdodau Lleol (y Cod Darbodus).

Yn ystod 2023/24, y gofynion adrodd sylfaenol oedd y dylai'r Cyngor llawn dderbyn yr adroddiadau a ganlyn:-

- strategaeth flynyddol ar gyfer y trysorlys cyn i'r flwyddyn gychwyn (derbyniwyd ar 9 Mawrth 2023);
- adroddiad diweddarau canol blwyddyn ar y trysorlys (derbyniwyd ar 7 Mawrth 2024);
- adolygiad blynyddol wedi i'r flwyddyn ddod i ben yn disgrifio'r gweithgareddau o gymharu â'r strategaeth (yr adroddiad hwn).

Yn ogystal, mae'r Cyngor wedi derbyn adroddiadau diweddarau chwarterol ar gyfer rheoli'r trysorlys (chwarter un a chwarter tri) a dderbyniwyd ac a gymeradwywyd gan y Deilydd Portffolio.

Mae'r amgylchedd rheoleiddio yn gosod cyfrifoldeb ar Aelodau i adolygu a chraffu ar bolisi a gweithgareddau rheoli'r trysorlys. Mae'r adroddiad hwn, felly, yn bwysig yn hynny o beth gan ei fod yn darparu manylion am y sefyllfa alldro ar gyfer gweithgareddau trysorlys ac mae'n tynnu sylw at gydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor a gymeradwywyd yn flaenorol gan Aelodau.

Mae'r Cyngor hwn yn cadarnhau ei fod wedi cydymffurfio â'r gofyniad o dan y Côt bod rhaid i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio graffu ymlaen llaw ar bob un o'r adroddiadau rheoli'r trysorlys uchod cyn eu cyflwyno i'r Cyngor llawn. Rhoddwyd hyfforddiant i aelodau ar faterion rheoli'r trysorlys ar 15 Medi 2023 er mwyn cefnogi rôl sgrwtini yr aelodau.

Mae'r Swyddog Adran 151 yn cadarnhau mai dim ond at ddibenion cyfalaf y benthycwyd ac na aethpwyd y tu hwnt i'r terfyn benthycu statudol (y terfyn awdurdodedig).

Hefyd, mae'r adroddiad yn nodi'r canlyniadau canlynol ym mlwyddyn ariannol 2023/24:-

- Ffactorau allanol – gan gynnwys adolygiad o'r economi, perfformiad cyfraddau llog yn ystod y flwyddyn;
- Ffactorau mewnol – gan gynnwys perfformiad gwariant cyfalaf, yr effaith ar y cronfeydd wrth gefn a balansau arian parod, archwaeth risg o ran buddsoddiadau, y benthyciadau a gymerwyd gan y Cyngor a'r effaith ar y Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC);
- Y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys yn 2023/24 – gan gynnwys rheoli dyledion y Cyngor a benthyciadau a buddsoddiadau'r Cyngor yn ystod y flwyddyn;
- Rheoli'r Trysorlys – beth yw'r Dangosyddion Darbodus a sut y cânt eu mesur;
- Cymharu'r Dangosyddion Darbodus – cymharu'r Dangosyddion Darbodus gwirioneddol gyda'r rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn;
- Edrych ymlaen at 2024/25 a thu draw i hynny; a'r
- Casgliad.

## 2. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Allanol

**2.1 Cyfraddau Llog** – Erbyn mis Mawrth 2023, roedd Cyfradd y Banc wedi gorffen ar 5.25%. Cynyddodd Cyfradd y Banc yn gyson trwy gydol 2023/24, gan ddechrau ar 4.25% a gorffen ar 5.25%.

**2.2 Yr Economi - y Deyrnas Unedig** - Yn erbyn cefndir o bwysau chwyddiant ystyfnig, ymosodiad Rwsia ar Wcráin a rhyfel yn y Dwyrain Canol, mae cyfraddau llog y DU wedi parhau i fod yn gyfnewidiol ar draws y gromlin, o Gyfradd y Banc i gynnyrch gilt 50 mlynedd, ar gyfer y cyfan o 2023/24.

Mae marchnadoedd wedi ceisio dod â chyfnod parhaus banciau canolog i ben o gadw polisi ariannol cyfyngol ar waith ar o leiaf un achlysur yn ystod 2023/24 ond, hyd yma, dim ond Banc Cenedlaethol y Swistir sydd wedi torri cyfraddau, a hynny ar ddiwedd mis Mawrth 2024.

Mae cynnyrch 10 mlynedd y DU, EZ a'r Unol Daleithiau i gyd wedi aros yn ystyfnig uchel trwy gydol 2023/24. Mae chwyddiant yn llacio, er yn raddol, ond mae marchnadoedd llafur yn parhau i fod yn dynn iawn gan gymariaethau hanesyddol, gan ei gwneud yn fater o ddyfarniad dirwy ynghylch pryd y gellir torri'r cyfraddau.

Nid oedd unrhyw syndod gan Fanc Lloegr yn eu cyfarfod ym mis Mawrth, gan adael cyfraddau llog ar 5.25% am y pumed tro yn olynol ac, er nad oes unrhyw aelodau Pwyllgor Polisi Ariannol (MPC) bellach yn pleidleisio i godi cyfraddau llog, cadwodd ei ganllawiau cymharol hawddgar. Mae cyfathrebiadau'r Banc yn awgrymu bod yr MPC yn magu hyder y bydd chwyddiant yn gostwng yn gynaliadwy yn ôl i'r targed o 2.0%. Fodd bynnag, er i'r MPC nodi bod "safiad cyfyngol polisi ariannol yn pwysu ar weithgaredd yn yr economi go iawn, yn arwain at farchnad lafur fwy llac ac yn dwyn i lawr ar bwysau chwyddiant", i'r gwrthwyneb nododd fod dangosyddion allweddol o ran parhad chwyddiant yn parhau i gael eu dyrchafu a bydd polisi'n "gyfyngol am gyfnod digon hir" ac yn "gyfyngol am gyfnod estynedig".

Wrth gwrs, mae economi'r DU wedi dechrau perfformio ychydig yn well yn Ch1 2024, ond mae'n dal i wella ar ôl dirwasgiad bas trwy ail hanner 2023. Yn wir, gwelodd Ch4 2023 dwf Cynnyrch Gros Domestic GDP negyddol o -0.3% tra bod y twf b/b hefyd yn negyddol ar -0.2%.

Ond roedd yn ddirwasgiad rhyfedd. Mae diweithdra yn is na 4% ar hyn o bryd, yn erbyn cefndir o dros 900k o swyddi gwag, ac mae chwyddiant cyflog blynyddol yn uwch na 5%. Gyda chapiau prisiau nwy a thrydan yn gostwng ym mis Ebrill 2024, mae mesur Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) o chwyddiant - a gyrhaeddodd uchafbwynt o 11.1% ym mis Hydref 2022 - bellach i fod i lithro yn is na'r gyfradd darged o 2% ym mis Ebrill ac i aros yn is na'r meincnod Banc Lloegr hwnnw am yr ychydig flynyddoedd nesaf, yn ôl Capital Economics. Mae Banc Lloegr angen rhywfaint o argyhoeddi'r sgôr honno o hyd, ond bydd chwyddiant sydd ar ddod a datganiadau cyflogaeth yn setlo'r ddadl honno cyn bo hir. Nodir bod CPI craidd yn dal i fod yn 4.5% ym mis Chwefror ac, yn ddefnyddol, mae angen iddo syrthio ymhellach.

Fe wnaeth siopwyr ddiystyru'r tywydd anarferol o wlyb i raddau helaeth ym mis Chwefror, a dylai incwm cartref go iawn cynyddol gefnogi gweithgaredd manwerthu trwy gydol 2024. Ar ben hynny, mae effaith cyfraddau llog uwch ar daliadau llog cartref yn agosáu at ei uchafbwynt, er bod cyfraddau morgais cyfradd sefydlog ar fenthyciadau newydd wedi symud i fyny ychydig ers dod yn agos at 4.5% yn gynnar yn 2024.

O safbwynt cyllidol, bydd y toriadau pellach i dreth yswiriant gwladol (o fis Ebrill) a gyhoeddwyd yng Nghyllideb mis Mawrth, yn rhoi hwb i incwm gwario aelwydydd go iawn 0.5 - 1.0%. Ar ôl i incwm gwario cartref go iawn godi 1.9% yn 2023, rhagwelir Capital Economics bydd yn codi 1.7% yn 2024 a 2.4% yn 2025. Mae'r cynnydd hwn mewn incwm gwario cartref go iawn, ynghyd â pylu'r llusgo yn gynharach o godiadau blaenorol mewn cyfraddau llog, yn golygu y rhagwelir twf CDP o 0.5% yn 2024 a 1.5% yn 2025. Mae Banc Lloegr yn llai optimistaidd na hynny, gan weld twf yn ei chael hi'n anodd mynd yn agos at 1% dros y ddwy i dair blynedd nesaf.

O ran marchnadoedd ecwiti, mae'r FTSE 100 wedi codi i bron i 8,000 ac mae, erbyn hyn, dim ond 1% yn is na'r uchaf erioed y cyrhaeddodd ym mis Chwefror 2023. Cafodd y cynnydd cymedrol mewn ecwiti yn y DU ym mis Chwefror ei yrru gan berfformiadau cryf yn y sectorau diwydiannol cylchol a dewisol defnyddwyr, tra bod cyfathrebu a deunyddiau sylfaenol wedi gwneud yn wael.

### 3. Adolygiad o'r Flwyddyn – Ffactorau Mewnol

#### 3.1 Gwariant a Chyllid c Gyfalaf 2023/24 – Mae'r Cyngor yn mynd i wariant cyfalaf ar asedau tymor hir. Gellir cyllido'r gweithgareddau hyn naill ai:-

- Ar unwaith trwy adnoddau cyfalaf neu refeniw (derbyniadau cyfalaf, grantiau cyfalaf, chyfraniadau refeniw ac ati), nad yw'n cael unrhyw effaith ar angen y Cyngor i fenthycia; neu
- Trwy fenthycia: os nad oes digon o gyllid ar gael, neu os penderfynir peidio â defnyddio adnoddau, bydd y gwariant cyfalaf yn arwain at yr angen i fenthycia.

Mae'r gwariant cyfalaf gwirioneddol yn un o'r dangosyddion darbodus angenrheidiol. Mae'r tabl isod yn dangos y gwir wariant cyfalaf a sut y cyllidwyd hyn:-

	<b>Amcangyfrif 2023/24 (£'m)</b>	<b>Gwirioneddol 2023/24 (£'m)</b>
Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol	48	31
Gwariant Cyfalaf o'r Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	20	20
<b>Cyfanswm Gwariant Cyfalaf</b>	<b>68</b>	<b>51</b>
Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau	35	23
CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Grantiau a Chyfraniadau	8	7
Cronfa Gyffredinol a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor	5	4
CRT a gyllidwyd yn y flwyddyn gan Adnoddau'r Cyngor	12	13
<b>Gwariant cyfalaf o'r Gronfa Gyffredinol a gyllidwyd trwy fenthycia</b>	<b>8</b>	<b>4</b>
<b>Gwariant cyfalaf o'r CRT a gyllidwyd trwy fenthycia</b>	<b>0</b>	<b>0</b>

Y prif reswm am y tanwario oedd y tanwariant mawr yn erbyn y prosiectau a restrir isod:-

Cynllun	Tanwariant £'m	Sylwadau
Gwaith cyfalaf oherwydd Concrit wedi'i awyru, ei awtoglaffio a'i atgyfnerthu (RAAC)	1.014	Oherwydd materion RAAC, roedd angen i'r Cyngor ymrwymo i wariant, heb unrhyw sicrwydd o gyllid ychwanegol, er mwyn sicrhau diogelwch pawb yn yr ysgolion effeithwyd. Yna, cafwyd trafodaethau â LIC o ran cyllid ychwanegol ac, yn ystod rhan olaf 2023/24, dyfarnwyd £1.695m o gyllid grant ychwanegol i'r Awdurdod ar gyfer gwaith cyfalaf yn gysylltiedig â RAAC. Defnyddiwyd y cyllid grant i gyllido gwariant ar waith RAAC hyd yma, a'r gweddill ar adeiladau addysg yn 2023/24, yn hytrach na defnyddio cyllid o adnoddau'r Awdurdod ei hun. Bydd y cyllid sydd wedi'i arbed gan yr Awdurdod yn sgil y grant hwn yn cael ei ddefnyddio'n awr i gyllido gweddill y gwaith RAAC yn 2024/25.
Grant Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)	0.372	Yn 2022/23, dyfarnwyd £0.476m o gyllid grant i'r Awdurdod i gefnogi dysgwyr sydd ag ADY. Ychydig iawn o wariant a gafwyd yn 2022/23, ac roedd tanwariant o £0.111m yn dilyn y gwariant a gafwyd yn 2023/24.  Yn yr un modd, cafwyd tanwariant o £0.261m ar y dyraniad ar gyfer 2023/24, ac mae LIC wedi rhoi caniatâd i'r Cyngor ddwyn ymlaen swm o £0.108m i gwblhau gwaith yr ymrwymwyd iddo.
Mynediad i Adeiladau Addysg i'r Anabl	0.134	Y rheswm am hyn yw bod addasiadau ar gyfer yr anabl wedi'u cwblhau ym mhob ysgol uwchradd heblaw am un. Mae gwaith yn yr ysgol uwchradd sy'n weddill wedi'i ohirio wrth ddisgwyl am ganlyniad astudiaethau dichonolrwydd. Mae gwaith yn cael ei gwblhau mewn ysgolion cynradd pryd a phan fydd angen.  Er bod buddsoddiad sylweddol wedi'i wneud, efallai y bydd angen rhagor o waith yn y dyfodol i fynd i'r afael ag anghenion unigolion nad ydynt yn hysbys i ni eto, felly, mae angen i'r tanwariant lithro i 2024/25.
Cynlluniau Llifogydd Amrywiol	1.009	Mae rhai cynlluniau'n rhai parhaus ac maent yn pontio mwy nag un flwyddyn ariannol. Gwelwyd oedi gyda chynlluniau eraill ac mae LIC wedi cytuno ar estyniad amser er mwyn eu cwblhau a dwyn y cyllid ymlaen, tra bod cynlluniau eraill wedi'u cwblhau.
Cronfa Ffyniant Bro	6.151	Roedd y bidiau a dderbyniwyd fel rhan o'r broses dendro'n llawer uwch na'r gyllideb ac, oherwydd hynny, bu'n rhaid ail-dendro'r gwaith a lleihau'r cwmpas fel ei fod yn fwy ymarferol. Yn y pendraw, arweiniodd hyn at oedi yn y cynlluniau ac mae cais i ddwyn ymlaen £4.905m o'r tanwariant er mwyn cwblhau cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt.
Adfywio Caergybi – Menter Treftadaeth Treflun Cam II	0.625	Mae'r gwaith wedi arafu'n gyffredinol yn ystod y flwyddyn ariannol hon ac roedd disgwyl tanwariant, yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol. O ganlyniad, bydd y rhan fwyaf o'r gwariant yn digwydd yn 2024/25.
Cyfarpar Ailgylchu Rheoli Gwastraff	0.256	Mae'r gwasanaeth wedi adolygu a blaenoriaethu ei wariant cyfalaf yn unol â'i strategaeth a'i gynllun ariannol 5 mlynedd ac mae nawr wrthi'n caffael pedwar eitem o beiriannau a pheirianwaith. Fodd bynnag, mae'r amseroedd arwain posib yn dilyn derbyn tendrau llwyddiannus yn golygu nad yw'r peiriannau a'r pheirianwaith yn debygol o gael eu cyflenwi yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Serch hynny, mae'r cyllid wedi'i ymrwymo'n llawn.

Cynllun	Tanwariant £'m	Sylwadau
Isadeiledd Morwrol	0.178	Ar hyn o bryd, mae'r cynllun yn cael ei ail-ddylunio ac, oherwydd yr amseru, mae cais i ddwyn y gyllideb ymlaen i 2024/25 er mwyn cwblhau'r cynllun hwn. Mae hyn yn cyd-fynd ag adroddiadau monitro blaenorol.
Isadeiledd Ymwelwyr	0.194	Roedd disgwyl tanwariant, yn unol ag adroddiadau monitro blaenorol, oherwydd bod angen cyllid cyfatebol ar gyfer y grant Cronfa Ffyniant ar y Cyd ac mae'n fanteisiol i'r rhanbarth wario cymaint â phosib o gyllid grant eleni a darparu ein cyllid cyfatebol yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Gofynnir, felly, am gael dwyn y cyllid hwn ymlaen i flwyddyn ariannol 2024/25.
Grantiau Gwres Carbon Isel (LCHG)	3.805	Oherwydd bod y LCHG wedi cael ei ddyfarnu'n hwyr a, fel y trafodwyd ym mharagraff 3.1, derbyniwyd £5.744m yn 2023/24, a gwariwyd £1.939m.
Gwaith cyfalaf ar asedau presennol	0.503	Mae gweddill y gyllideb wedi'i hymrwymo ar gyfer gwaith sy'n pontio 2023/24 a 2024/25.
Uwchraddio Toiledau Cyhoeddus	0.280	Mae'r gwasanaeth wrthi'n datblygu cynllun gwella toiledau cyhoeddus, a bydd y cynllun hwnnw'n rhoi gwell syniad o'r gofynion cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf. Rhagwelir, hefyd, efallai y bydd cyllid grant ychwanegol yn cael ei ddarparu ar gyfer gwaith cyfalaf ar doiledau cyhoeddus, ac, unwaith eto, efallai y bydd rhan o'r gyllideb hon yn cael ei defnyddio fel cyllid cyfatebol pe cyfyd y cyfle.
Cerbydau a Cherbydau Graeanu	0.771	Ni wariwyd y gyllideb ar gyfer cerbydau graeanu oherwydd nad oedd cerbydau addas ar gael i'w prynu.  Archebwyd cerbydau eraill cyn diwedd y flwyddyn, ond, oherwydd yr amseroedd aros cyn eu cyflenwi, ni fyddant yn cael eu derbyn tan ar ôl diwedd y flwyddyn, felly bydd angen i'r gyllideb lithro i flwyddyn ariannol 2024/25.

**3.2 Cronfeydd Wrth Gefn a Balansau Arian Parod** – Mae balansau arian parod y Cyngor yn cynnwys adnoddau referniw a chyfalaf a chyllid ar gyfer llif arian. Roedd adnoddau arian parod craidd y Cyngor fel a ganlyn:-

Cronfeydd Wrth Gefn a Darpariaethau y gellir eu defnyddio	Drafft 31 Mawrth 2024 £'m	Terfynol 31 Mawrth 2023 £'m
Cronfa wrth gefn gyffredinol Cronfa'r Cyngor	15.604	14.039
Cronfeydd wrth gefn clustnodedig	16.779	19.637
Cronfa wrth gefn y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	8.189	12.107
Cronfa wrth gefn Gyfalaf y (CRT)	0.509	0.00
Cronfeydd wrth gefn ysgolion	5.577	6.716
Cronfeydd wrth gefn derbyniadau cyfalaf	2.390	1.908
Grant Cyfalaf heb ei Ddefnyddio	0.464	0.407
Cronfa wrth gefn Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	0.587	0.000
<b>Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio</b>	<b>50.099</b>	<b>54.814</b>
<b>Darpariaethau</b>	<b>4.703</b>	<b>5.037</b>
<b>Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn y gellir eu defnyddio a'r darpariaethau</b>	<b>54.802</b>	<b>59.851</b>

**3.3 Allanol benthycia** – Mae angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia ar gyfer gwariant cyfalaf yn cael ei alw yn Ofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Mae'r ffigwr hwn yn fesur o sefyllfa'r Cyngor o ran dyledion. Mae'r GCC yn deillio o weithgareddau cyfalaf y Cyngor a'r adnoddau a ddefnyddiwyd i dalu am y gwariant cyfalaf. Mae'n cynrychioli gwariant cyfalaf 2023/24 a gyllidwyd drwy fenthycia, a gwariant cyfalaf a gyllidwyd drwy fenthycia yn y blynyddoedd blaenorol nad ydyw eto wedi cael ei ad-dalu gyda refeniw neu adnoddau eraill. Rhan o weithgareddau trysorlys y Cyngor yw mynd i'r afael â'r gofynion cyllido ar gyfer yr angen benthycia hwn. Gan ddibynnu ar y rhaglen gwariant cyfalaf, mae'r Gwasanaeth Trysorlys yn trefnu arian parod y Cyngor er mwyn sicrhau bod arian parod digonol ar gyfer y cynlluniau cyfalaf a'r gofynion llif arian. Gallai hyn gael ei gyllido drwy fenthycia gan gyrrff allanol (megis y Llywodraeth, drwy'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb) neu'r marchnadoedd arian) neu drwy ddefnyddio adnoddau arian parod dros dro o fewn y Cyngor. Ni fenthycwyd unrhyw gyllid allanol yn ystod blwyddyn ariannol 2023/24.

**3.3.1 Benthycia Gros a'r GCC** - Er mwyn sicrhau bod y lefelau benthycia'n ddarbodus dros y tymor canol ac y benthycir at ddibenion cyfalaf yn unig, dylai'r Cyngor sicrhau nad yw ei fenthycia allanol gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn uwch na chyfanswm y gofyniad cyllido cyfalaf yn y flwyddyn flaenorol ynghyd ag amcangyfrif o unrhyw ofynion cyllido cyfalaf ychwanegol ar gyfer y flwyddyn ariannol gyfredol a'r ddwy flynedd ariannol nesaf. Yn ei hanfod, mae hyn yn golygu nad yw'r Cyngor yn benthycia er mwyn cefnogi gwariant refeniw.

Mae'r strategaeth fenthycia fewnol bellach wedi bod ar waith yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf. Mae'r benthycia gros o £122.4m ar 31 Mawrth 2024 yn llai na'r GCC a ragwelir ar gyfer y ddwy flynedd nesaf:-

	<b>Gwirioneddol 2023/24 £'m</b>	<b>Amcangyfrif 2024/25 £'m</b>	<b>Amcangyfrif 2025/26 £'m</b>
Gofyniad Cyllido Cyfalaf	146.7	154.5	170.8

**3.3.2 Benthycia mewnol** - yw pan ddisgwylir, dros y tymor canol, i'r cyfraddau buddsoddi barhau i fod yn is na'r cyfraddau benthycia tymor hir. Mae hyn yn golygu y byddai ystyriaethau gwerth am arian yn dangos y gellid cael gwerth am arian drwy osgoi cymryd benthyciadau allanol newydd a drwy ddefnyddio balansau arian parod mewnol i gyllido gwariant cyfalaf newydd, neu yn lle dyledion allanol sy'n aeddfedu. Byddai hyn yn sicrhau'r arbedion tymor byr gorau. Y ffigwr benthycia mewnol yw'r gwahaniaeth rhwng y GCC a'r Sefyllfa Benthycia Gros. Fel y gwelir o'r tabl isod, ar ddechrau'r flwyddyn, y sefyllfa fenthycia fewnol oedd £20.3m. Doedd dim benthyciadau PWLB newydd yn y flwyddyn a £1.0m o brif ad-daliadau. Mae hyn wedi arwain at y sefyllfa benthycia mewnol ar 31 Mawrth 2024 bellach yn £24.3m:-

	<b>31 Mawrth 2023 Gwirioneddol £'m</b>	<b>31 Mawrth 2024 Gwirioneddol £'m</b>
Sefyllfa fenthycia gros	123.8	122.4
GCC	144.1	146.7
(Tan) / Gorgyllido'r GCC	(20.3)	(24.3)

**3.4 Benthyciadau eraill** - Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor ymrwymo i unrhyw fenthyciadau tymor byr eraill.

**3.5 Ad-dalu Dyledion** - Roedd tri benthyciad PWLB a aeddfedwyd yn ystod y flwyddyn. Aeddfedwyd £1m ar 16 Ionawr 2024 ac fe'i ad-dalwyd ar y dyddiad hwn. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar gyfradd llog o 8.5%. Ad-dalwyd £0.569m, a aeddfedwyd 31 Mawrth 2024, ar 2 Ebrill 2024 ac, felly, ystyrir ei fod dal heb ei dalu ar 31 Mawrth 2024. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Hydref 1993 ar gyfradd llog o 7.785%. Ad-dalwyd £0.285m, a aeddfedwyd 31 Mawrth 2024, ar 2 Ebrill 2024 ac, felly, ystyrir ei fod dal heb ei dalu ar 31 Mawrth 2024. Cymerwyd y benthyciad yn wreiddiol ym mis Mai 1995 ar gyfradd llog o 8.5%.

**3.6 Buddsoddiadau** – Y strategaeth fuddsoddi ddisgwyliedig oedd cadw at adneuron tymor byrrach (hyd at 364 diwrnod), er bod y gallu i fuddsoddi allan i gyfnodau hirach yn cael ei gadw. Roedd disgwyl i falansau arian parod fod hyd at £62.3m, yn amrywio rhwng £31.6m a £62.3m. Roedd y gyllideb llog o £1.423m a osodwyd ar gyfer 2023/24 yn seiliedig ar falansau arian parod amcangyfrifedig ac enillion buddsoddiad tebygol yn seiliedig ar gyfradd Sylfaenol. Fodd bynnag, hefo cyfraddau llog yn codi'n uwch na'r hyn a ragwelwyd amser cynhyrchu cyllideb 2023/24 a, thrwy hynny, yn darparu mwy o gyfleoedd i fuddsoddi arian parod dros ben, dychwelwyd £1.831m ar falansau cyfartalog o £48.7m, gyda chyfradd llog cyfartalog o 4.32%.

Bu i enillion buddsoddi godi drwy gydol 2023/24 wrth i fanciau canolog, gan gynnwys Banc Lloegr, barhau i ymateb i bwysau chwyddiant nad oeddent yn drosglwyddol, a sylweddolwyd bod galw am bolisi ariannol tynnach. Gan ddechrau ym mis Ebrill ar 4.25%, symudodd Cyfradd Banc i fyny mewn codiadau cam o naill ai 0.25% neu 0.5%, gan gyrraedd 5.25% erbyn mis Awst. Erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, ni ragwelwyd cynnydd pellach.

Roedd rhan o adneuron y Cyngor yn cael eu dal mewn cyfrifon adneuron di-rybudd, sy'n talu llog ar gyfraddau yn agos i'r gyfradd sylfaenol gyffredinol, £16.602m ar 4.11% ar 31 Mawrth 2024 (31 Mawrth 2023 £11.521m ar 1.25%). Roedd tri buddsoddiad tymor byr arall ar 31 Mawrth 2024 - £15.0m ar gyfradd llog o 5.18% (£30.0m ar 3.96% ar 31 Mawrth 2023). Roedd yr holl fuddsoddiadau am lai na blwyddyn.

Mae'r buddsoddiadau a oedd heb eu talu ar 31 Mawrth 2023, wedi aeddfedu ym mlwyddyn ariannol 2023/24 ac a ailfuddsoddiwyd ar yr un dyddiad. Nodir manylion yr holl fuddsoddiadau newydd yn y flwyddyn, gyda'u cyfraddau llog priodol, yn y tabl isod:

Gwrth Barti	Dyddiad Dechrau	Dyddiad Dod i Ben	Cyfradd Llog	Swm	Prifswm Buddsoddi ar 31 Mawrth 2024
			%	£	£
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/1/2023	11/7/2023	4.10%	10,000,000	-
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/7/2023	11/1/2024	5.88%	10,000,000	-
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/1/2024	11/3/2024	5.25%	10,000,000	-
National Westminster Bank Tymor Penodol	11/3/2024	11/6/2024	5.23%	5,000,000	5,000,000
Santander	10/2/2023	10/5/2023	4.00%	7,500,000	-
Santander	10/5/2023	10/11/2023	4.76%	7,500,000	-
Santander	10/11/2023	9/2/2024	5.34%	5,000,000	-
Santander	9/2/2024	9/5/2024	5.19%	5,000,000	5,000,000
Nationwide Building Society	6/4/2023	6/7/2023	4.17%	5,000,000	-
Nationwide Building Society	6/7/2023	8/1/2024	5.47%	5,000,000	-
Nationwide Building Society	8/1/2024	8/4/2024	5.11%	5,000,000	5,000,000
Goldman Sachs	22/12/2022	22/12/2023	3.83%	7,500,000	-
Goldman Sachs	22/6/2023	22/12/2023	5.52%	7,500,000	-
Wakefield Council	22/8/2023	22/9/2023	5.23%	5,000,000	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/10/2022	25/4/2023	3.80%	5,000,000	-
Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam	25/04/2023	25/10/2023	4.30%	5,000,000	-

**3.7 Sefyllfa'r Trysorlys ar 31 Mawrth 2024** – Mae sefyllfa dyledion a buddsoddi'r Cyngor yn cael ei threfnu gan y Gwasanaeth Rheoli Trysorlys er mwyn sicrhau hylifedd digonol ar gyfer y gweithgareddau refeniw a chyfalaf, diogelwch ar gyfer buddsoddiadau ac i reoli risgiau o fewn yr holl weithgareddau rheoli trysorlys. Mae gweithdrefnau a rheoliadau er mwyn cyflawni'r amcanion hyn wedi eu hen sefydlu drwy gyflwyno'r adroddiadau a nodir yn y crynodeb i Aelodau, a thrwy weithgareddau swyddogion yn unol â'r Strategaeth Rheoli Trysorlys ar gyfer 2023/24. Nid aethpwyd tu hwnt i'r terfynau uchaf ar gyfer cyfraddau sefydlog a chyfraddau amrywiol yn ystod y flwyddyn. Mae ffigyrau benthycyca a buddsoddi'r Cyngor ar ddiwedd blynyddoedd ariannol 2022/23 a 2023/24 fel a ganlyn:-

	31 MAWRTH 2023			31 MAWRTH 2024		
	£'m	Cyfradd Gyfartalog (%)	Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)	£'m	Cyfradd Gyfartalog (%)	Aeddfedrwydd Cyfartalog (blynyddoedd)
Dyled i'r PWLB	119.6	4.540	29.15	118.5	4.47	30.9
Dyledion Eraill	4.2		3.73	3.9	0	4.49
<b>Cyfanswm</b>	<b>123.8</b>			<b>122.4</b>		
GCC	144.1			146.7		
Gor / (tan) fenthycyca	(20.3)			(24.3)		
Buddsoddiadau tymor sefydlog (pob un < 1 blwyddyn, wedi eu rheoli yn fewnol ac ar gyfradd sefydlog)	30.000	3.96		15.000	5.18	
	11.521	1.25		16.602	4.11	
Buddsoddiadau di-rybudd (pob un wedi ei reoli yn fewnol)						
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau</b>	<b>41.521</b>	<b>3.21</b>		<b>31.602</b>	<b>4.62</b>	

Dadansoddiad pellach o'r benthycyca yn ôl y cyfnod aeddfedu:-

	31 MAWRTH 2023		31 MAWRTH 2024	
	£'m	% o'r cyfanswm	£'m	% o'r cyfanswm
Cyfanswm benthycyca	123.8	100	122.4	100
Llai na 12 mis	2.3	1.9	1.2	1.0
1 – 3 blynedd	3.3	2.7	5.0	4.1
4 – 6 blynedd	5.6	4.5	3.5	2.8
7 – 10 mlynedd	3.8	3.1	4.3	3.5
10 mlynedd a mwy	108.8	87.8	108.4	88.6

Ni chymerwyd benthyciadau newydd yn ystod y flwyddyn (tymor hir neu fyr). Ad-dalwyd dyledion yn y flwyddyn fel y nodir yn 3.5 uchod. Felly, mae'r symudiadau yn y categorïau uchod yn unol â dyddiadau aeddfedu'r benthyciadau yn unig.

#### 4. Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor 2023/24

**4.1 Aildrefnu Dyledion** – Ni chafodd unrhyw ddyledion eu haildrefnu yn ystod y flwyddyn gan fod y gwahaniaeth o 1% ar gyfartaledd rhwng cyfraddau benthycyca newydd y PWLB a chyfraddau ad-dalu cynamserol yn golygu nad oedd yn werth aildrefnu.

**4.2 Benthycyca cyn bod angen** – Yn ystod y flwyddyn, ni wnaeth y Cyngor fenthycyca mwy nag yr oedd ei angen, na chyn bod angen, dim ond er mwyn elwa ar fuddsoddi'r symiau ychwanegol a fenthycwyd.



- 4.3 Polisi Buddsoddi** – Mae polisi buddsoddi'r Cyngor yn cael ei reoli gan ganllawiau buddsoddi Y Weinyddiaeth Tai, Cymunedau a Llywodraeth Leol, a roddwyd ar waith yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys blynyddol a gymeradwywyd gan y Cyngor ar 9 Mawrth 2023. Mae'r polisi hwn yn nodi'r dull ar gyfer dewis gwrthbartion buddsoddi, ac mae'n seiliedig ar statws credyd a ddarparwyd gan y tair prif asiantaeth statws credyd ac ar ddata ychwanegol mewn perthynas â'r farchnad (megis rhagolygon ar gyfer cyfraddau, cyfnewidiadau diffyg credyd, prisiau cyfranddaliadau banc ac ati). Roedd y gweithgareddau buddsoddi yn ystod y flwyddyn yn cydymffurfio â'r strategaeth a gymeradwywyd ac nid oedd gan y Cyngor unrhyw anawsterau hylifedd. Pan fydd y Cyngor yn buddsoddi ei arian dros ben, yr elfen bwysicaf yw diogelwch y buddsoddiad, ac yna yr hylifedd ac wedyn yr elw. Yn ei hanfod, golyga hyn mai'r prif flaenoriaeth yw diogelwch yr arian parod ac yna pa mor hawdd yw cael gafael ar arian parod pe bai'r Cyngor ei angen, ac wedyn canran y llog y bydd y Cyngor yn ei dderbyn am y buddsoddiad. Y strategaeth ar fuddsoddi arian parod dros ben fyddai benthycu tymor byr gydag Awdurdodau Lleol eraill i sicrhau'r enillion mwyaf mewn ffordd ddiogel.
- 4.4 Strategaeth fenthycu a rheoli risg cyfraddau llog** – Yn ystod 2023/24, cynhaliodd y Cyngor sefyllfa o danfenthycu. Roedd hyn yn golygu nad oedd yr angen benthycu cyfalaf (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf) wedi'i gyllido'n llawn â dyled benthyciadau, gan fod arian parod a oedd yn cefnogi cronfeydd wrth gefn, balansau a llif arian y Cyngor yn cael ei ddefnyddio fel cam dros dro. Roedd y strategaeth hon yn un ddarbodus gan fod enillion ar fuddsoddiadau yn isel iawn ac roedd angen ystyried lleihau risg gwrthbartion wrth fuddsoddi hefyd.
- 4.5 Polisi Darpariaeth Refeniw Isaf (DRI)** – Yn 2022/23, rhoddodd y Cyngor bolisi DRI newydd ar waith ar ôl gofyn am gyngor gan ei gynghorwyr Trysorlys. Mae'r polisi newydd yn ddull mwy darbodus, gyda'r tâl DRI yn adlewyrchu'n well y newid yng ngwerth asedau. Gellir gweld y polisi newydd yn Atodiad 6 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24, a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn ar 9 Mawrth 2023.

## 5. Rheoli'r Trysorlys

Mae'r dangosyddion Darbodus canlynol wedi'u cynnwys yn Atodiad 11 o'r Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys. Gweler isod esboniad byr o beth yw'r dangosyddion a sut y byddant yn cael eu cyfrifo. Bydd Adran 6 yr adroddiad hwn yn dadansoddi'r gwahaniaethau rhwng y Dangosyddion Darbodus gwirioneddol a'r rhai a ragwelwyd ar gyfer 2023/24.

- **Gwariant Cyfalaf – Amcangyfrif o Wariant Cyfalaf** – Dyma'r rhagolwg o'r Gwariant Cyfalaf rhwng 2023/24 a 2026/27, ac mae'n seiliedig ar y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2023/24 a'r Strategaeth Gyfalaf ar gyfer 2024/25.
- **Angen y Cyngor i Fenthycu (y Gofyniad Cyllido Cyfalaf - GCC)** - Dangosydd darbodus arall yw GCC y Cyngor. Yn syml, y GCC yw cyfanswm y gwariant cyfalaf hanesyddol sy'n weddill na thalwyd amdano eto, naill ai o adnoddau refeniw neu gyfalaf. Yn ei hanfod, mae'n cyfateb i angen benthycu sylfaenol y Cyngor. Bydd unrhyw wariant cyfalaf uwch na hynny, ac na thalwyd amdano'n syth drwy adnoddau refeniw neu gyfalaf, yn cynyddu'r GCC. Nid yw'r GCC yn cynyddu am gyfnod amhenodol, gan fod y DRI yn dâl refeniw blynyddol statudol sydd, yn fras, yn lleihau'r angen i fenthycu yn unol â hyd oes pob ased ac, felly, codir tâl am yr asedau cyfalaf fel y byddant yn cael eu defnyddio.
- **Doethineb Ariannol – Dyledion Gros a'r GCC** – Mae angen i'r Cyngor sicrhau nad yw ei ddyled gros, ac eithrio yn y tymor byr, yn fwy na chyfanswm y GCC yn y flwyddyn flaenorol ynghyd â'r amcangyfrifon o unrhyw GCC ychwanegol ar gyfer 2023/24 a'r ddwy flynedd ariannol ganlynol. Mae hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer benthycu cynnar cyfyngedig ar gyfer y blynyddoedd i ddod, ond mae'n sicrhau nad yw benthycu yn cael ei wneud at ddibenion refeniw.

- **Dyledion Allanol - Y trothwy awdurdodedig ar gyfer dyledion allanol** - Mae dangosydd darbodus allweddol arall yn cyfyngu lefel y benthycia i uchafswm penodol. Mae'n uchafswm na fedrir benthycia'n allanol y tu draw iddo, ac mae angen i'r uchafswm hwn gael ei osod neu ei adolygu gan y Cyngor llawn. Mae'n adlewyrchu lefel y ddyled allanol, er nad yn ddelfrydol, y gellir ei chynnal yn y tymor byr, ond nad yw'n gynaliadwy yn y tymor hir. Dyma'r cyfyngiad statudol y penderfynir arno o dan Adran 3 (1) Deddf Llywodraeth Leol 2003. Mae'r Llywodraeth yn cadw'r opsiwn i reoli naill ai cynlluniau'r holl gynghorau, neu gynlluniau cyngor penodol, er nad yw'r pŵer hwn wedi'i roi ar waith hyd yma. Mae'r Swyddog Adran 151 yn adrodd fod y Cyngor wedi cydymffurfio â'r dangosydd darbodus hwn yn ystod y flwyddyn gyfredol ac nad yw'n rhagweld anawsterau ar gyfer y dyfodol. Mae'r safbwynt hwn yn ystyried yr ymrwymadau presennol, y cynlluniau presennol a'r cynigion yn yr adroddiad ar y gyllideb. Mae'r Uchafswm Awdurdodedig yn cael ei osod yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- **Y terfyn gweithredol** – Dyma'r terfyn na ddisgwylir i ddyledion allanol fod yn uwch nag ef fel arfer. Yn y rhan fwyaf o achosion, byddai hwn yn ffigwr tebyg i'r GCC, ond gallai fod yn is neu'n uwch gan ddibynnu ar lefelau'r dyledion gwirioneddol a'r gallu i gyllido tanfenthyciadau drwy adnoddau ariannol eraill. Mae'n dderbyniol cael cyfnodau pan fo'r sefyllfa wirioneddol naill ai o dan neu uwchben y terfyn gweithredol ar yr amod nad eir y tu hwnt i'r terfyn awdurdodedig. Gosodir y Terfyn Gweithredol yn flynyddol yn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a chaiff ei gymeradwyo gan y Cyngor llawn.
- **Fforddiadwyedd – Y gymhareb rhwng costau cyllido a'r ffrwd refeniw net** – Mae'r dangosydd hwn yn nodi'r duedd yng nghost cyfalaf (benthycia a chostau rhwymedigaethau hirdymor eraill net o incwm o fuddsoddiadau) yn erbyn y llif refeniw net.

## 6. Y Dangosyddion Darbodus Gwirioneddol o gymharu â'r Rhai a Ddisgwyliwyd

6.1 Yn ystod 2023/24, cydymffurfiodd y Cyngor â'i ofynion deddfwriaethol a rheoleiddio. Mae'r data allweddol ar gyfer y dangosyddion darbodus a'r dangosyddion trysorlys gwirioneddol, sy'n nodi effaith y gweithgareddau gwariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn, gyda chymaryddion, fel a ganlyn:-

Data ar gyfer Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys Gwirioneddol	2022/23 Gwirioneddol £'m	2023/24 Gwreiddiol £'m	2023/24 Gwirioneddol £'m
<b>Gwariant Cyfalaf</b>			
• Dim CRT	29.510	15.110	30.768
• CRT	11.180	31.847	19.806
• <b>Cyfanswm</b>	<b>40.690</b>	<b>46.957</b>	<b>50.574</b>
<b>Cyfanswm Gofynion Cyllido Cyfalaf:</b>			
• Dim CRT	105.825	116.576	108.545
• CRT	38.287	60.101	38.151
• <b>Cyfanwm</b>	<b>144.112</b>	<b>176.677</b>	<b>146.696</b>
<b>Benthycia Gros</b>	123.800	159.610	122.400
<b>Dyledion Allanol</b>	123.800	159.610	122.400
<b>Buddsoddiadau</b>			
• Mwy nag 1 flwyddyn	0	0	0
• Llai nag 1 flwyddyn	41.522	15.000	31.603
• <b>Cyfanswm</b>	<b>41.522</b>	<b>15.000</b>	<b>31.603</b>
Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net – Cronfa'r Cyngor	3.11%	2.23%	3.16%
Costau cyllido fel cyfran o'r llif refeniw net - CRT	7.26%	21.14%	5.09%

**6.2** Y Dangosydd Darbodus cyntaf yn y tabl uchod yw'r Gwariant Cyfalaf. Y Gwariant Cyfalaf a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2023/24 oedd £46.957m. Fodd bynnag, y gwir wariant oedd £50.574m. Roedd y dangosydd darbodus yn seiliedig ar amcangyfrifon gwariant cyfalaf o wahanol ffynonellau ar gyfer 2023/24, ar adeg ysgrifennu'r adroddiad. Mewn gwirionedd, y gyllideb gyfalaf derfynol a gymeradwywyd ar gyfer 2023/24 oedd £37.962m, sy'n cynnwys cronfa gyffredinol o £24.205m a £13.557m o CRT. Fodd bynnag, nid yw'r gyllideb hon yn cynnwys unrhyw symiau llithro o'r flwyddyn flaenorol a hefyd y ffaith bod cynlluniau ychwanegol yn cael eu hychwanegu at y rhaglen gyfalaf drwy gydol y flwyddyn, a dyna pam mae'r gwariant cyfalaf nad yw'n CRT yn uwch na'r hyn a gyllidebwyd yn wreiddiol ar ei gyfer. Cyfeiriwch at baragraff 3.1 yn yr adroddiad hwn ar gyfer y gyllideb gyfalaf derfynol nad yw'n CRT o'i chymharu â'r gwariant gwirioneddol a'r rhesymau dros y tanwariant gwirioneddol yn erbyn y gyllideb.

**6.3** Yr ail Ddangosydd Darbodus yn y tabl uchod yw'r Gofyniad Cyllido Cyfalaf (GCC). Ni chaniateir i angen sylfaenol y Cyngor i fenthycia (GCC) godi am gyfnod amhenodol. Mae rheolaethau statudol wedi eu sefydlu er mwyn sicrhau bod asedau cyfalaf yn cael eu codi yn fras yn erbyn referniw yn ystod oes yr ased. Mae angen i'r Cyngor godi tâl referniw blyneddol, y cyfeirir ato fel y Ddarpariaeth Referniw Isaf (DRI), er mwyn lleihau'r GCC. Yr hyn ydyw, mewn gwirionedd, yw ad-daliad o'r angen i fenthycia. Mae hyn yn wahanol i'r trefniadau rheoli trysorlys sy'n sicrhau bod arian parod ar gael ar gyfer ymrwymadau cyfalaf. Gall dyledion allanol hefyd gael eu benthycia neu eu had-dalu ar unrhyw adeg, ond nid yw hyn yn newid y GCC. Gellir hefyd leihau cyfanswm y GCC drwy:-

- ddefnyddio adnoddau cyllido cyfalaf ychwanegol (megis derbyniadau cyfalaf sydd heb eu defnyddio); neu
- codi mwy na'r tâl referniw statudol (DRI) bob blwyddyn drwy'r Ddarpariaeth Referniw Gwirfoddol (VRP).

Y GCC a ragwelwyd ar adeg paratoi'r Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2023/24 oedd £176.677m. Fodd bynnag, roedd y GCC gwirioneddol yn sylweddol is ar £146.696m. Roedd y GCC disgwyliedig ar gyfer CRT yn cynnwys £20m o fenthycia yn 2023/24. Nid oedd unrhyw fenthycia newydd ar gyfer CRT yn 2023/24 ac felly nid yw'r gostyngiad yn y GCC HRA o ganlyniad i ddim benthycia yn 2023/24 ar gyfer CRT. Un o'r rhesymau dros y gostyngiad mewn GCC heb fod yn CRT oedd y swm gostyngedig o Fenthycia Digefnogaeth sydd ei angen mewn perthynas â'r rhaglen Cymunedau Cynaliadwy ar gyfer Dysgu yn 2023/24. Cyllidwyd y gwariant yn bennaf drwy grant, a thrwy hynny'n lleihau'r angen am fenthycia. Rheswm arall oedd bod grantiau ychwanegol wedi cael eu dyfarnu yn ystod y flwyddyn i roi cymhorthdal i ffynonellau cyllid eraill, fel Benthycia â Chefnogaeth. Roedd hyn yn golygu bod angen llai o Fenthycia â Chefnogaeth ac, felly'n lleihau'r ffigwr GCC. Fodd bynnag, yn y blyneddodded i ddod, bydd y ffynhonnell cyllido â chymhorthdal hon yn cael ei defnyddio i gyllido'r Gwariant Cyfalaf yn 2024/25 a bydd yn cynyddu'r GCC.

**6.4** Nid aethpwyd tu hwnt i'r Terfyn Benthycia Awdurdodedig (£210m) na'r Terfyn Gweithredol (£205m) yn ystod y flwyddyn, gyda swm y ddyled Allanol yn cyrraedd uchafswm o ddim ond £123.8m.

**6.5** Roedd y costau Cyllido, fel cyfran o'r llif referniw net ar gyfer y Gronfa Gyffredinol (3.16%), ychydig yn uwch na'r disgwyl (2.23%) oherwydd bod y costau cyllido yn uwch na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd. Roedd y costau cyllido fel cyfran o'r llif referniw net ar gyfer y CRT (5.09%), yn is na'r cyfanswm a ragwelwyd (21.14%) oherwydd bod y costau cyllido yn sylweddol is na'r disgwyl ar adeg cynhyrchu'r dangosydd arfaethedig ar gyfer 2023/24 (a briodolir i'r newid yng nghyfrifiad DRI, gan arwain at dâl DRI is a llai o ofynion benthycia).

## 7. Edrych ymlaen at 2024/25 a thu draw i hynny

- 7.1 Ar 7 Mawrth 2024, cymeradwyodd y Cyngor llawn y Datganiad ar y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2024/25. Roedd y Datganiad ar y Strategaeth yn seiliedig ar y Strategaeth Gyfalaf, a rhagwelir y bydd angen i'r Cyngor fenthycu £9.049m yn ychwanegol yn 2024/25 ar gyfer y Gronfa Gyffredinol a throsi £15m o fenthycu mewnol i fenthycu allanol, cyfanswm o £17.7m yn 2025/26 a chyfanswm pellach o £12.0m yn 2026/27 i gyllido ei Raglen Gyfalaf, gan nodi y rhagwelir y bydd mwyafrif y benthyca hwn yn cyllido rhaglen gyfalaf y CRT. Bydd y benthyca ychwanegol yma yn effeithio ar y Ddarpariaeth Refeniw Isaf (DRI) a godir i gyllido'r costau cyllido cyfalaf. Yn 2024/25, rhagwelir y bydd y DRI yn £1.2m, £1.5m yn 2025/26 a £1.7m yn 2026/27.
- 7.2 Ar 8 Ebrill 2024, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda Banc Rhyngwladol Goldman Sachs am 6 mis, gyda chyfradd llog o 5.29%.
- 7.3 Ar 9 Mai 2024, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda Santander ac fe'i rholiodd drosodd am 6 mis arall, gyda chyfradd llog o 5.07%.
- 7.4 Ar 9 Mai 2024, buddsoddodd Cyngor Sir Ynys Môn £5m gyda National Westminster Bank Plc am 3 mis, gyda chyfradd llog o 5.23%.
- 7.5 Ar 11 Mehefin 2024, aeddfedodd buddsoddiad o £5m gyda National Westminster Bank Plc ac fe'i rholiodd drosodd am 6 mis arall gyda chyfradd llog o 5.23%.
- 7.6 Nid oes unrhyw brif ad-daliadau o fenthycu PWLB yn ddyledus gan Gyngor Sir Ynys Môn ym mlwyddyn ariannol 2024/25.
- 7.7 Y gyllideb llog derbyniadwy o £0.885m a osodwyd ar gyfer 2024/25 oedd y balansau amcangyfrifedig o falansau arian a buddsoddiadau hylifol ac amcangyfrif o gyfradd llog gyfartalog. Y llog a dderbyniwyd i chwarter 1 2024/25 oedd £465k, a rhagwelir y gellir bodloni'r gyllideb llog derbyniadwy yn 2024/25.
- 7.8 Gellir gweld y gyfradd llog diweddaraf a ragwelir gan Link Group (ar Gorffennaf 2024) yn y tabl isod:-

Cyfradd Banc	Nawr	Meh 2024	Medi 2024	Rhag 2024	Maw 2025	Meh 2025	Medi 2025	Rhag 2025	Maw 2026	Meh 2026	Medi 2026	Rhag 2026	Maw 2027
Link Group	5.25%	5.25%	5.00%	4.50%	4.00%	3.50%	3.25%	3.25%	3.25%	3.25%	3.00%	3.00%	3.00%

## 8. Casgliad

Roedd perfformiad Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn ystod y flwyddyn yn unol â'r strategaeth o fuddsoddiadau risg isel / enillion isel a dull benthyca a gynlluniwyd i leihau taliadau llog gymaint â phosibl.

Mae'r perfformiad yn erbyn y Dangosyddion Darbodus a osodwyd gan y Cyngor yn dangos bod gweithgareddau Rheoli'r Trysorlys y Cyngor yn cael eu cynnal mewn ffordd reoledig sy'n sicrhau diogelwch ariannol y Cyngor ac nad ydynt yn rhoi'r Cyngor mewn unrhyw berygl ariannol sylweddol o ran benthyca anfforddiadwy neu ormodol.

Mae Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor, a'i berfformiad yn erbyn y strategaeth, yn ystyried y ffactorau economaidd allanol ac mae'n cael ei hadolygu'n gyson i sicrhau mai hon yw'r strategaeth fwyaf priodol wrth symud ymlaen.

## **ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Cyngor nodi cynnwys yr adolygiad Rheoli Trysorlys Blynyddol ar gyfer 2023/24 sy'n cadarnhau bod y gweithgareddau Rheoli Trysorlys a gynhaliwyd yn ystod 2023/24 yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24 a cydymffurfiwyd â'r cyfyngiadau a nodir yn y strategaeth.

### **Papurau Cefndir**

Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys 2023/24  
Dangosyddion Darbodus a Thrysorlys 2023/24  
Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2023/24  
Adroddiad Alldro Cyfalaf 2023/24

**R MARC JONES**

**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**

This page is intentionally left blank

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>ADRODDIAD I:</b>	<b>CYNGOR SIR YNYS MON</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>3 RHAGFYR 2024</b>
<b>PWNC:</b>	<b>DATGANIAD CYFRIFON 2023/24</b>
<b>DEILYDD(ION) PORTFFOLIO:</b>	<b>CYNGHORYDD ROBIN W. WILLIAMS – DIRPRWY ARWEINYDD Y CYNGOR A DEILYDD PORTFFOLIO - CYLLID</b>
<b>SWYDDOG ARWEINIOL:</b>	<b>R MARC JONES, CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) / SWYDDOG ADRAN 151</b>
<b>SWYDDOG CYSWLLT:</b>	<b>CLAIRE KLIMASZEWSKI</b> <a href="mailto:ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru">ClaireKlimaszewski@ynysmon.llyw.cymru</a>
<b>Natur a'r rheswm dros adrodd</b>	
Adroddiad eglurhaol ar gyfer cyflwyno'r Datganiad Cyfrifon, gan roi sylwadau ar y prif faterion sy'n codi ers cyflwyno Datganiad Cyfrifon drafft 2023/24.	

## 1. Cefndir

- 1.1 Cyflwynwyd Datganiad Cyfrifon drafft Cyngor Sir Ynys Môn (SoA) 2023/24 i archwilyd allanol y Cyngor, Archwilio Cymru, i'w archwilio ar 28 Mehefin 2024. Mae'r gwaith archwilio manwl bellach wedi'i gwblhau'n sylweddol.
- 1.2 Yn amodol ar gadarnhad Cyngor Sir Ynys Môn, bydd y Cyfrifon yn cael eu llofnodi gan y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a Chadeirydd y Cyngor a byddant yn cael eu cyhoeddi yn dilyn derbyn barn derfynol yr Archwilydd.

## 2. Dyddiad cau diwygiedig Llywodraeth Cymru

- 2.1 Estynnwyd y dyddiad cau statudol ar gyfer cwblhau'r Cyfrifon Archwiliedig ar gyfer blwyddyn ariannol 2023/24 i 30 Tachwedd 2024 ar gyfer holl Gynghorau Cymru. Bydd y Cyngor llawn yn ystyried y Datganiad Cyfrifon yn ei gyfarfod ar 3 Rhagfyr, 2024, a ceir ei lofnodi ychydig wedi hyn. Mae hyn ychydig yn hwyrach na'r amserlen awgrymedig, ond ynghynt na nifer o gynghorau arall yng Nghymru.

## 3. Diwygio'r Cyfrifon ers cyhoeddi'r Cyfrifon Drafft ym mis Mehefin 2024

- 3.1 Cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad trylwyr, gan brofi'r trafodion ariannol mewn perthynas â 2023/24 a'r Datganiad Cyfrifon drafft. Mae'r amserlen ar gyfer cau'r cyfrifon a chynhyrchu'r Datganiad Cyfrifon yn gyfyngedig. Felly, mae archwiliad manwl yn hanfodol er mwyn rhoi sicrwydd bod y Datganiad Cyfrifon yn sylweddol gywir ac yn cynrychioli golwg wir a theg ar berfformiad ariannol y flwyddyn. Gweithredwyd safonau archwilio newydd ar gyfer 2022/23 a thu hwnt, a arweiniodd at newidiadau i'r modd y cynhaliwyd yr archwiliad, gan ganolbwyntio ar feysydd mwy materol a risg uchel, yn ogystal â phrofi cywirdeb a chyflawnrwydd fel arfer. Roedd y tîm archwilio yn broffesiynol iawn ac yn drefnus.
- 3.2 Nododd y profion archwilio rai newidiadau a oedd eu hangen, a chafodd yr holl wallau perthnasol yr argymhellodd y tîm archwilio eu diwygio i sicrhau bod y Cyfrifon yn sylweddol gywir. Mae crynodeb o'r newidiadau neu'r cywiriadau perthnasol wedi'i gynnwys yn adroddiad Archwilio ISA260 Archwilio Cymru yn Atodiad 3.

- 3.3** Ni effeithiodd yr un o'r gwelliannau i'r Datganiad Cyfrifon ar yr alldro a adroddodd danwariant drafft o £1.732m i'r Pwyllgor Gwaith ar 23 Gorffennaf 2024. Felly, mae'r alldro terfynol yn parhau yr un fath, ar danwariant o £1.732m. Roedd y mwyafrif sylweddol yn ymwneud â newidiadau ar y fantolen neu'r gwariant mewn perthynas ag incwm grant ni chafodd effaith ar reffeniw.
- 3.4** Roedd y cywiriad cyntaf yn ymwneud â'r addasiadau cyfrifeg statudol mewn perthynas â'r symudiadau yn y gronfa bensiwn rhwng 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2024. Mae'r ffigwr net o £11.161m yn gywir yn system ariannol y Cyngor. Fodd bynnag, at ddibenion y datganiad incwm a gwariant cynhwysfawr (CIES) – incwm a gwariant cynhwysfawr arall ar ddiwedd y CIES ar dudalen 12 y SoA. Roedd angen rhannu'r ffigwr hwn rhwng ailfesuriad y gronfa bensiwn (£59.453m) a diddymiad yr Ased Pensiwn Net o £71.144m. Cyflwynwyd y rhain yn y cyfrifon drafft gyda'r ffigyrau positif a negatif y ffordd anghywir o gwmpas. Esbonnir hyn ymhellach yn nodyn 4b, adran 4 ar dudalen 21 y SoA.
- 3.5** Cafodd gwall yn y CIES ei gynnwys ar y llinell gwariant gros ac incwm gros ar gyfer gwasanaethau Plant. Roedd hyn yn ymwneud â £1.406m a gyfrifwyd amdano fel gwariant ac incwm grant ar gyfer y cynllun Gofal Plant 30 awr. Cafwyd effaith net o ddim ar gyfanswm y ffigwr yn y CIES ar gyfer gwasanaethau Plant, felly, ni effeithiwyd ar yr alldro. Yn dilyn ymchwil am y cynllun, canfuwyd bod hyn yn ymwneud â chynnig 30 awr Gofal Plant Llywodraeth Cymru (LIC) nad yw'n un o swyddogaethau'r Cyngor. Fe wnaeth Cyngor Gwynedd daliadau i rieni / gofalwyr neu i ddarparwyr ar gyfer Gwynedd, Conwy ac Ynys Môn fel asiant i LIC. Yn hanesyddol, rhoddodd Gwynedd wybodaeth i'r Cyngor am y gwerthoedd a dalwyd mewn perthynas ag Ynys Môn ac, er na wnaed unrhyw drafodion gan y Cyngor nac i'r Cyngor, arweiniodd y wybodaeth a ddarparwyd at gynnwys y gwerthoedd yn y SoA. Ar 1 Hydref 2024, daeth LIC â'r trefniant asiantaeth i ben gyda Gwynedd ac mae bellach yn prosesu'r taliadau'n uniongyrchol. Ni ddylai costau'r cynllun a'r incwm gan LIC fod wedi cael eu hadrodd yn y SoA.
- 3.6** Cafodd croniadau, sy'n dod i gyfanswm o £1.160m, ar gyfer prynu pypiau gwres carbon isel o'r grant gwres carbon isel (LCHG) eu tynnu o'r SoA terfynol gan na chyflawnwyd telerau'r dystysgrif freinio. Arweiniodd hyn at leihau gwerth asedau sy'n cael eu hadeiladu. Roedd hyn hefyd yn effeithio ar rannau eraill o'r SoA, fel y nodwyd yn Atodiad 3 yr adroddiad archwilio ar dudalen 20. Cynhyrwyd dogfen i sicrhau'r archwilwyr bod y camgymeriad hwn wedi'i gyfyngu i'r LCHG. Bydd y prosiectau sy'n rhan o'r LCHG yn cael eu monitro'n agos ar gyfer 2024/25 a thu hwnt.
- 3.7** Mae Atodiad 3, tudalennau 18 i 28 o'r adroddiad archwilio, yn amlygu sawl diwygiad arall. Arweiniodd yr ôl-groniad ar dalu anfonebau at bwysau amser sylweddol i gwblhau dyddiad cau SoA ar gyfer datganiad cyfrifon drafft 2023/24, a oedd yn cyfyngu ar yr amser oedd ar gael i gynnal adolygiad cynhwysfawr, cyn cyflwyno'r cyfrifon i'w harchwilio. Cynhaliwyd yr adolygiad ar ôl cyflwyno a chafodd y gwallau a nodwyd i gyd eu hadrodd i Archwilio Cymru ac fe'u cynhwysir yn yr adroddiad archwilio.

## **4. Argymhellion**

- 4.1** I dderbyn Datganiad Cyfrifon 2023/24 ac awdurdodi Cadeirydd y Cyngor Sir a'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 i arwyddo'r cyfrifon.



# Ynys Môn

## THE ISLE OF Anglesey

Datganiad o'r Cyfrifon

2023/24



CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

[www.ynysmon.llyw.cymru](http://www.ynysmon.llyw.cymru)

[www.anglesey.gov.wales](http://www.anglesey.gov.wales)



cyngormon

ioacc

Tudalen 29



@cyngormon

@angleseycouncil

## Cynnwys

Cyfeirnod	Disgrifiad	Tudalen
	Adroddiad Naratif	1
	Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon	7
	Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn Barn ar y datganiadau ariannol	8
	Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr	12
	Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	13
	Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd wrth Gefn	14
	Y Fantolen	15
	Datganiad Llif Arian	16
	Nodiadau i'r Cyfrifon	17
Nodyn 1	Nodyn ar y Dadansoddiad Gwariant a Chyllido	17
Nodyn 2	Safonau Cyfrifo sydd wedi eu cyhoeddi ond heb eu mabwysiadu hyd yma	18
Nodyn 3	Barnau Allweddol wrth weithredu'r Polisiau Cyfrifo	19
Nodyn 4	Rhagdybiaethau a wnaed ynghylch ansicrwydd yn y dyfodol ac amcangyfrifon a ffynonellau eraill o ansicrwydd	19
Nodyn 5	Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen	22
Nodyn 6	Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Sail Cyllido dan Reoliadau	23
Nodyn 7	Cronfeydd Wrth Gefn a Clustnodedig	25
Nodyn 8	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	26
Nodyn 9	Cronfeydd wrth Gefn Na Ellir Eu Defnyddio	26
Nodyn 10	Gwariant Gweithredol Arall	29
Nodyn 11	Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi	29
Nodyn 12	Trethiant ac Incwm Grantiau Amhenodol	29
Nodyn 13	Asedau anghyfredol - Eiddo, Offer a Chyfarpar	30
Nodyn 14	Ymrwymadau Cyfalaf Sylweddol	33
Nodyn 15	Asedau Treftadaeth	33
Nodyn 16	Eiddo Buddsoddiad	34
Nodyn 17	Gwariant a Cyllido Cyfalaf	36
Nodyn 18	Dyledwyr	36
Nodyn 19	Arian Parod a Chywerthoedd Arian	37
Nodyn 20	Credydwyr	37
Nodyn 21	Darpariaethau	37
Nodyn 22	Llif Arian o Weithgareddau Gweithredol	38
Nodyn 23	Llif Arian o Weithgareddau Buddsoddi	38
Nodyn 24	Llif Arian o Weithgareddau Cyllido	38
Nodyn 25a	Dadansoddiad o Natur Gwariant ac Incwm	38

<b>Cyfeirnod</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Tudalen</b>
Nodyn 25b	Incwm Cylchrannol	39
Nodyn 26	Lwfansau Aelodau	40
Nodyn 27	Cydnabyddiaeth Ariannol i Swyddogion	40
Nodyn 28	Pecynnau Ymadael	42
Nodyn 29	Ffioedd Archwilio Allanol	42
Nodyn 30	Incwm Grantiau	43
Nodyn 31	Partïon Cysylltiedig	45
Nodyn 32	Cronfeydd Ymddiriedol	47
Nodyn 33	Cynllun Pensiwn Athrawon	49
Nodyn 34	Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig Llywodraeth Leol	49
Nodyn 35	Offerynnau Ariannol	55
Nodyn 36	Natur a maint y risgiau sy'n deillio o offerynnau ariannol	59
Nodyn 37	Cyd-bwyllgorau a Chyllidebau Cyfun	64
Nodyn 38	Trefniadau Asiantaeth	66
Nodyn 39	Y Dreth Gyngor	67
Nodyn 40	Trethi Annomestig (TA)	68
Nodyn 41	Rhwymedigaethau Amodol	69
Nodyn 42	Asedau Wrth Gefn	70
Nodyn 43	Polisiau Cyfrifyddu	71
Cyfrif CRT	Cyfrif Refeniw Tai (CRT) - Datganiad Incwm a Gwariant - Datganiad Symudiadau ar Falans y CRT Nodiadau ar y CRT	95
Atodiad 1	Datgeliad Parti Cysylltiedig – Cynrychiolaeth Cydranddeiliaid gyda Sefydliadau Trydydd Parti	99
Atodiad 2	Geirfa	101

## Adroddiad Naratif

Cynhyrchir y Datganiad Cyfrifon yn flynyddol i roi gwybodaeth glir am gyllid y Cyngor i etholwyr, trethdalwyr lleol, Aelodau'r Cyngor, gweithwyr a phartïon eraill sydd â diddordeb.

Nod yr adroddiad naratif hwn, sy'n adran allweddol o'r cyfrifon, yw darparu canllaw effeithiol i'r materion mwyaf arwyddocaol a nodir yn y cyfrifon. Mae hyn er mwyn darparu esboniad teg, cytbwys, a hawdd ei ddeall o sefyllfa ariannol y Cyngor ac i helpu i ddehongli'r datganiadau ariannol.

Daeth Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 i rym ar 31 Mawrth 2015, fel y cawsant eu diwygio gan Reoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) (Diwygiad) 2018. Yn unol â'r rheoliadau hyn, rhaid i Awdurdodau Lleol yng Nghymru baratoi Datganiad Cyfrifon yn unol â'r rheoliadau hyn ac arferion priodol.

**Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys: -**

**Datganiadau Ariannol Craidd: -**

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn cynnwys y datganiadau ariannol craidd, sef:-

1. **Y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES)** – sy'n dangos y gost cyfrifo o ddarparu gwasanaethau yn ystod y flwyddyn, gan ddefnyddio arferion cyfrifo a dderbynnir, yn hytrach na'r swm fydd yn cael ei gyllido o'r trethi.
2. **Dadansoddiad Gwariant a Chyllido (EFA)** – sy'n dangos y wybodaeth yn y CIES ond, yn ogystal, mae'n darparu addasiadau cyfrifo sydd yn cael eu canslo allan yn Nodyn 7 er mwyn sicrhau nad yw'r addasiadau yma'n cael ei cyllido gan Drethdalwyr y Dreth Gyngor. Mae'r golofn gyntaf o'r Dadansoddiad Gwariant a Chyllido yn darparu gwir effaith perfformiad ariannol y flwyddyn ar falansau a chronfeydd wrth gefn y Cyngor a'r CRT.
3. **Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn (MIRS)** – sy'n dangos y symudiad yn ystod y flwyddyn yn y gwahanol gronfeydd wrth gefn sydd gan y Cyngor, wedi ei ddadansoddi yn ôl cronfeydd wrth gefn y gellir eu ddefnyddio a'r rhai na ellir eu defnyddio. Mae'r datganiad yn dangos cost wirioneddol darparu gwasanaethau'r Awdurdod a'r modd y caiff y costau hyn eu cyllido o'r gwahanol gronfeydd wrth gefn.
4. **Y Fantolen** – sy'n dangos gwerth yr asedau a'r rhwymediaethau a gydnabyddir gan yr Awdurdod ar ddyddiad y Fantolen. Caiff asedau net eu cyfatebu gan y cronfeydd wrth gefn sydd gan yr Awdurdod.
5. **Datganiad Llif Arian** – sy'n dangos y newidiadau o ran arian a chywerthoedd arian y Cyngor yn ystod cyfnod yr adroddir arno.

### Gweledigaeth a Blaenoriaethau Cyngor Sir Ynys Môn

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn awdurdod unedol sy'n gwasanaethu poblogaeth o oddeutu 69,000, mae wedi'i leoli ar arfordir gogleddol Cymru ac mae'n ardal sy'n 276 milltir sgwâr. Ynys Môn yw'r ynys fwyaf yng Nghymru o bell ffordd, a'r seithfed ynys fwyaf ym Mhrydain. Ynys Môn hefyd yw'r ynys fwyaf ym Môr Iwerddon o ran maint, a'r ail ynys fwyaf poblog ym Mhrydain.

Mae'r Cyngor yn sefydliad sy'n cael ei arwain gan wleidyddiaeth ac mae wedi mabwysiadu model Arweinydd a Chabinet. Roedd gan y Cyngor 35 o Aelodau etholedig yn cynrychioli 14 ward aml-Aelod ar 31 Mawrth 2024. Cynhaliwyd etholiadau ar 5 Mai 2022 ar gyfer holl seddi'r Cyngor, ac ar ôl hynny ffurfiodd yr ymgeiswyr llwyddiannus y Cyngor llawn, a fyddent yn parhau i fod mewn lle tan ddechrau mis Mai 2027. Plaid Cymru yw'r blaid sy'n rheoli yn y Cyngor gyda mwy o Gynghorwyr Plaid Cymru nag unrhyw grŵp neu blaid arall.

### Cynllun y Cyngor 2023/28

Mae Cynllun y Cyngor 2023/28 yn amlygu bod gweledigaeth hirdymor y Cyngor yn parhau fel "Creu Ynys Môn sy'n iach a llewyrchus lle gall pobl ffynnu". Amcanion strategol cynllun newydd y Cyngor yw:

- Cynyddu cyfleoedd i ddysgu a defnyddio'r Gymraeg;
- Amddiffyn a chefnogi'r rhai sy'n agored i niwed;
- Cynyddu cyrhaeddiad a chyflawniad addysgol;
- Gweithio gyda phartneriaid i gynyddu cartrefi o ansawdd, fforddiadwy a hygyrch;

- Hyrwyddo cyfleoedd i ddatblygu economi'r ynys;
- Ymateb i'r argyfwng newid hinsawdd, mynd i'r afael â newid a gweithio tuag at fod yn sefydliad sero net erbyn 2030.

Gellir gweld Cynllun y Cyngor 2023/28 ar y wefan yn y cyfeiriad gwe:

[Cynllun y Cyngor a pherfformiad \(llyw.cymru\)](#)

## Senario Ariannol

Cafodd pob un o'r 22 Cyngor yng Nghymru setliad cyllido gwell na'r disgwyl gan Lywodraeth Cymru ar gyfer 2023/24, ar gynydd gyfartaledd Cymru gyfan o 7.9%, gydag Ynys Môn yn derbyn cynnydd o 7.9%. Helpodd hyn y Cyngor i gynyddu'r cyllid ar gyfer gwasanaethau a arweinir gan alw, fel gofal cymdeithasol, ac i gynyddu capasiti mewn gwasanaethau a oedd wedi bod yn destun bron i ddegawd o doriadau yn y gyllideb. Yn ogystal, i ariannu penderfyniadau polisi penodol y mae Llywodraeth Cymru am i Gynghorau eu gweithredu, y prif un yw ariannu'r cyflog byw go iawn i staff gofal.

Gosododd y Cyngor gyllideb gytbwys ar gyfer 2024/25, a oedd yn gofyn am gynydd o 9.5% yn Nhreth y Cyngor a defnyddio £4.425m o gronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun. Mae cryn ansicrwydd o hyd ynghylch sefyllfa ariannol 2025/26, ond mae amcangyfrifon cyfredol yn awgrymu na fydd y cyllid sydd ar gael yn ddigonol i dalu'r costau uwch oherwydd chwyddiant a'r galw cynyddol am wasanaethau'r Cyngor.

## Y Gyllideb

Mabwysiadwyd Cyllideb a Strategaeth Ariannol Tymor Canolig y Cyngor ar gyfer 2023/24 gan y Cyngor yn ei gyfarfod ar 9 Mawrth 2023, ac mae'n rhoi darlun cyffredinol o sefyllfa ariannol y Cyngor ac yn sicrhau bod cyllid y Cyngor yn cael ei ddyrannu i gyflawni ei flaenoriaethau. Mae'r Strategaeth Ariannol Tymor Canolig ar gael yn:-

[AGENDA ITEM NO \(ynysmon.gov.uk\)- eitem 10](#)

Roedd y setliad yn well na'r disgwyl yn ystod y rhan fwyaf o'r cam cynllunio'r gyllideb ac roedd yn rhoi £123.665m i'r Cyngor, a oedd yn gynydd o £9.067m mewn arian parod (7.9%). Penderfynodd y Cyngor gynyddu Treth Gyngor Band D 5%, a chynyddodd y tâl am eiddo Band D i £1,435.86.

Gosodwyd y gyllideb refeniw ar £174.569m a gyllidir gan setliad, treth cyngor ag arian wrth gefn £3.780m. Penderfynodd y Cyngor hefyd gymeradwyo Strategaeth Gyfalaf 2023/24 a Rhaglen Gyfalaf Gychwynnol 2023/24 o £37.962m, yn ogystal â Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24.

## Monitro'r Gyllideb

Mae gan y Cyngor weithdrefn sefydledig ar gyfer monitro'r cyllidebau. Mae hyn yn caniatáu i'r Cyngor liniaru unrhyw orwariant a'r effaith sy'n debygol o ddigwydd ar wasanaethau. Gall cyllid ychwanegol gan gronfeydd wrth gefn lle bo hynny'n bosibl, ddarparu ar gyfer achosion lle mae angen galw am wasanaeth. Mae'r wybodaeth am Refeniw a Chyfalaf, ochr yn ochr â'r CRT, yn cael eu hadrodd i'r Is-grŵp Craffu Cyllid, y Pwyllgor Craffu ac yna'r Pwyllgor Gwaith bob chwarter, sy'n hwyluso lefel o her yn ogystal â gallu lliniaru unrhyw effeithiau debygol o ddigwydd ar gyfer gwasanaethau.

## Perfformiad

[Cyngor Sir Ynys Môn \(ynysmon.gov.uk\)](#) - Eitem 5 ar y agenda

## Gwariant Refeniw 2023/24

Mae'r Datganiad Cyfrifon yn nodi gwariant a chyllid y Cyngor yn unol â gofynion cyfrifyddu. Mae'r Cyngor yn mesur perfformiad ariannol yn erbyn gweithgarwch a gynlluniwyd ar ffurf cyfrifon rheoli'r Cyngor. Yn 2023/24, nododd y Cyngor danwariant o £1.732m yn erbyn gweithgaredd arfaethedig o £174.569m (cyllideb net).

Mae'r tabl isod yn adlewyrchu'r gyllideb derfynol ar gyfer 2023/24 ac incwm a gwariant gwirioneddol yn ei erbyn: -

Gwasanaethau	Cyllideb Blynnyddol £'000	Alldro £'000	Amrywiant £'000
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	64,047	63,423	624
Gwasanaethau Oedolion	35,780	35,195	585
Gwasanaethau Plant	13,133	14,536	(1,403)
Tai	2,833	2,770	63
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	20,219	19,891	328
Rheoleiddio	6,635	5,953	682
Trawsnewid	7,280	6,642	638
Adnoddau	3,962	3,936	26
Gwasanaethau Corfforaethol a Chyllid Corfforaethol	20,680	20,491	189
<b>Cyfanswm Cronfa'r Cyngor</b>	<b>174,569</b>	<b>172,837</b>	<b>1,732</b>

Mae effaith tanwariant yn golygu bod y Cyngor wedi cynyddu ei gronfeydd wrth gefn cyffredinol gan £1.732m. Yn ogystal â hyn, roedd effaith net y cyllid a ryddhawyd o falansau cyffredinol yn ystod y flwyddyn a rhyddhau cronfeydd wrth gefn clustnodedig yn ôl i falansau cyffredinol yn gynydd o £166k yn lefel y balansau cyffredinol. Ar 31 Mawrth 2024, roedd lefel y balansau cyffredinol yn £15.605m, fodd bynnag, bydd £4.425m yn cael ei ddefnyddio i gydbwysu cyllideb 2024/25, gan adael y balansau cyffredinol yn £11.180m.

## Crynodeb o Symudiadau yng Nghronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2023/24

	Cronfa Wrth gefn Gyffredinol Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Cefn Clustnodedig Cronfa'r Cyngor	Cronfeydd Wrth Gefn Ysgolion	Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf	Cronfa wrth Gefn Cyfalaf heb ei gymhwysu	Arian wrth Gefn Y Bwrdd Uchelgais	Cronfa Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cronfa Cyfrif Refeniw Tai (CRT)	Cyfanswm Cronfeydd Wrth Gefn Defnyddiadwy
	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000	£'000
<b>Eitemau sy'n effeithio ar Gronfeydd Wrth Gefn y Cyngor 2023/24</b>									
Balans Agoriadol ar Gronfa Gyffredinol y Cyngor 1 Ebrill 2023	(14,039)	(19,637)	(6,716)	(1,908)	(407)	-	(12,107)		(54,814)
Gor net/ (tan) wariant 2023/24	(1,732)	-	-	-	-	-	4,073		2,341
Balansy Cyngor ar ôl gor / (tan) wariant	(15,771)	(19,637)	(6,716)	(1,908)	(407)	-	(8,034)		(52,473)
Trosglwyddiadau net o(i) Cronfeydd wrth gefn ar gyfer cyllid cymeradwy	166	3,120	1,139	(482)	(57)	(587)	(155)	(509)	2,635
<b>Balans y Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol ar 31 Mawrth 2024</b>	<b>(15,605)</b>	<b>(16,517)</b>	<b>(5,577)</b>	<b>(2,390)</b>	<b>(464)</b>	<b>(587)</b>	<b>(8,189)</b>	<b>(509)</b>	<b>(49,838)</b>

## Gwariant Cyfalaf

Mae'r rhaglen gyfalaf yn cefnogi amcan ehangach y Cyngor i ddarparu gwasanaethau ac i gefnogi twf economaidd.

Ym mis Mawrth 2023, cymeradwyodd y Cyngor Raglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau heblaw tai o £24.405m ar gyfer 2023/24, a Rhaglen Gyfalaf o £13.557m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (CRT). Yn ogystal, ym mis Mehefin 2023, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith lithriad cyfalaf o £13.477m i'w gyflwyno o 2022/23, gan ddod â'r Rhaglen Gyfalaf ar gyfer gwasanaethau heblaw tai i £33.532, a £17.907m ar gyfer y Cyfrif Refeniw Tai (HRA). Ers y broses o bennu'r gyllideb, ychwanegwyd cynlluniau ychwanegol at y rhaglen, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn cael eu hariannu gan grant, sef cyfanswm o £15.089m. ynghyd â chyllideb HRA yn cael ei cynyddu £1.26m. Mae hyn yn dod â chyfanswm cyllideb y Brifddinas ar gyfer 2023/24 i £67.788m.

Mae'r rhaglen wedi gwneud cynnydd cyson yn ystod y flwyddyn, gan gyflawni cyfradd gyflawni o 72%. Disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r cynlluniau sy'n weddill yn cael eu cyflawni yn y flwyddyn ariannol nesaf. O'r cyfanswm gwariant hwn o £49.030m, cyfalafwyd £29.542m a'i ychwanegu at werth asedau yn Nhalen Fantoli'r Cyngor. Codwyd y gweddill ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, gan ei fod naill ai i gefnogi asedau nad ydynt o dan berchnogaeth uniongyrchol y Cyngor (£4.972m) neu nad oedd yn cynyddu gwerth yr asedau cyfalaf (£14.516m).

Mae'r tabl isod yn manylu ar y gwariant cyfalaf, fesul gwasanaeth: -

Gwasanaethau	2023/24 £'000	2022/23 £'000
Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau	13,159	12,799
Gwasanaethau Oedolion	296	403
Tai	1,450	700
Tai CRT	19,806	11,180
Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	7,049	7,264
Rheoleiddio	6,784	7,321
Trawsnewid	486	1,023
<b>Cyfanswm Cronfa'r Cyngor</b>	<b>49,030</b>	<b>40,690</b>

Nodyn ynghylch cyfleusterau benthycy cyfredol a benthycy cyfalaf yr Awdurdod:

Cyllidir Gan	2023/24 £'000	Canran %
Benthycy Digefnogaeth	38	0.08%
Benthycy a Chefnogaeth	3,049	6.22%
Grantiau Cyfalaf	24,987	50.96%
Derbyniadau Cyfalaf	98	0.20%
Cyfraniad Refeniw	12,645	25.79%
Grantiau REFCUS	4,347	8.87%
Benthyciad	135	0.28%
Cronfa Wrth Gefn Cyfalaf	3,731	7.61%
<b>Cyfanswm</b>	<b>49,030</b>	<b>100%</b>

Ar 31 Mawrth 2024, roedd gan yr Awdurdod £122.410m o Fenthyciadau Allanol (ac eithrio llog cronedig o £2.105m). Ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, Gofyniad Ariannu Cyfalaf yr Awdurdod (CFR), sydd yn ei hanfod yn fesur o angen benthycy sylfaenol y Cyngor, oedd £145.754m, sy'n nodi bod y Cyngor wedi defnyddio £23.344m o'i falansau arian dros ben ei hun i ariannu gwariant cyfalaf. Yn Natganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2023/24, y Terfyn Benthycy Awdurdodedig a gymeradwywyd gan y Cyngor oedd £205m, felly, mae'r Awdurdod ymhell o fewn ei derfyn benthycy.

## **Cronfeydd wrth gefn, perfformiad ariannol a sefyllfa ariannol**

Roedd balans Cronfa Gyffredinol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024 yn £15.605m, sy'n cyfateb i 8.9% o'r gyllideb referniw net ar gyfer 2023/24. Nod strategaeth ariannol y Cyngor yw cadw o leiaf 5% o'r gyllideb referniw net fel Balansau Cyffredinol (£8.730m). O ganlyniad, mae Balans Cyffredinol y Cyngor yn uwch na'r targed. Fodd bynnag, gyda'r pwysau chwyddiant presennol yn achosi argyfwng costau byw a chostau uwch sy'n wynebu'r Cyngor, mae'r gwarged hwn yn rhoi mwy o sefydlogrwydd ariannol i'r Cyngor.

Dangosodd y perfformiad ariannol ar gyfer 2023/24 danwariant net o £1.732m. Mae hyn yn cynnwys gorwariant o rai gwasanaethau megis gorwariant o £1.403m yn y Gwasanaethau Plant sydd wedi profi mwy o alw. Tanwariodd y Gwasanaeth Prifffyrdd, Gwastraff ac Eiddo £328k. Roedd y rhan fwyaf o hyn gan y Gwasanaeth Gwastraff oherwydd incwm dros ben sy'n cynnwys incwm ychwanegol o werthu deunydd ailgylchadwy sydd hefyd yn cael effaith gadarnhaol ar yr amgylchedd. Mae'r cynnydd yng nghyfradd llog Banc Lloegr o fudd i'r Cyngor gan fod y llog y gellir ei dderbyn o'i fuddsoddiad o arian dros ben yn cynhyrchu lefelau llog sylweddol uwch nag mewn blynyddoedd blaenorol.

Fodd bynnag, bydd cyfraddau llog cynyddol yn effeithio'n negyddol ar y Cyngor wrth fenthycia yn y dyfodol ar gyfer prosiectau cyfalaf. Ni chymerwyd benthyciad allan yn 2023/24 a bydd y Cyngor yn defnyddio balansau arian parod cyhyd â phosibl i arbed costau benthycia er bod hyn yn lleihau'r swm sydd ar gael i'w fuddsoddi.

## **Cyfrif Refeniw Tai**

Roedd balans Cyfrif Refeniw Tai'r Cyngor yn £8.698m Gan gynnwys y Gronfa Derbyniadau Cyfalaf ar 31 Mawrth 2024. Mae'r warchodfa wedi'i chlustnodi i ariannu cost datblygu eiddo newydd fel y nodir yng Nghynllun Busnes HRA 30 mlynedd y Cyngor. Bydd y cydbwysedd hwn yn oedi'r angen i'r CRT fenthycia ar gyfer adnewyddu neu adeiladu anheddau cyngor newydd.

## **Darpariaethau**

Cyfanswm y darpariaethau a oedd gan y Cyngor oedd £5.037m ar 1 Ebrill 2023. Yn ystod y flwyddyn, gostyngodd y balans gan £334k i £4.703m. Cynyddodd y ddarpariaeth yswiriant i £456k yn unol â'r angen amcangyfrifedig. Cyfanswm y darpariaethau tymor byr oedd £456k, i ddarparu ar gyfer costau disgwylidig yn y dyfodol a allai godi o rwymedigaethau'r gorffennol. Gostyngwyd cyfanswm y ddarpariaeth ar gyfer Safle Gwastraff Penhesgyn gan £88k oherwydd cost y gwaith gwella a wnaed ar y safle tirlenwi yn 2023/24. Fe defnyddiwyd y cyllid ar gyfer Gwasanaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol a Chynhwysiant Gwynedd ac Ynys Môn yn ystod yr flwyddyn. Dangosir manylion y symudiadau mewn darpariaethau yn Nodyn 21 i'r Cyfrifon - Darpariaethau.

## **Pensiynau**

**Cynllun Pensiwn Athrawon**\_ Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o'r Cynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddion penodol i athrawon ar ôl iddynt ymddeol ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y costau drwy wneud cyfraniadau yn seiliedig ar ganran o gyflogau pensiynadwy aelodau.

**Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**\_ Fel rhan o delerau ac amodau cyflogaeth ei swyddogion a gweithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddion ymddeol drwy gymryd rhan yng Nghronfa Pensiwn Gwynedd a weinyddir gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, sy'n golygu bod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i'r gronfa, wedi ei gyfrifo ar lefel a fwriedir i gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddi. Ni fydd buddion yn daladwy hyd nes y bydd gweithwyr yn ymddeol, ond mae gan y Cyngor ymrwymiad i wneud y taliadau i'r Gronfa Pensiwn y mae angen eu datgelu ar yr adeg y mae'r gweithwyr yn ennill eu hawl yn y dyfodol.



Mae dau brisiad wedi'u cwblhau ar gyfer y gronfa bensiwn. Mae'r rhain yn cael eu cwblhau gan Actiwari sy'n arbenigwr prisio pensiwn. Y cyntaf yw'r prisiad cyllido sy'n cael ei gwblhau bob tair blynedd. Mae hyn yn bwysig gan ei fod yn ystyried yr asedau gwirioneddol y buddsoddir y gronfa ynddynt ar y dyddiad prisio ac yn asesu a fydd yr enillion ar yr asedau yn ariannu gwerth yr holl daliadau yn y dyfodol yn llawn i aelodau yn seiliedig ar yr holl fudd-daliadau a enillir hyd at y dyddiad prisio. Yna gostyngir gwerth presennol y rhwymedigaethau, fel bod y gwerth yn cael ei drosi i'w gwerth fel ar y dyddiad prisio. Os yw'r prisiad yn cyfrifo nad yw'r gronfa bensiwn yn cael ei hariannu'n llawn, yna bydd cyfraddau cyfraniadau'r Cyngor yn cynyddu i symud tuag at gyllid o 100% dros gyfnod o amser y cytunwyd arno. Os yw'r prisiad yn dangos bod y cynllun yn fwy na 100% wedi'i ariannu, yna gall cyfraniadau i'r gronfa bensiwn leihau.

Yr ail brisiad yw'r prisiad cyfrifeg (a ddefnyddir at ddibenion y cyfrifon hyn) sy'n fwy damcaniaethol ac yn rhagweld beth fyddai atebolrwydd neu ased y Cyngor pe bai'r gronfa bensiwn yn peidio â bodoli. Mae'r prisiad hwn yn seiliedig ar asedau a rhwymedigaethau ar ddyddiad y fantolen. Mae'n ddamcaniaethol oherwydd y rheolau a'r rheoliadau i ddiogelu'r gronfa bensiwn i sicrhau ei bod yn bodoli cyhyd ag y mae rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn yn gofyn ac oherwydd y rhagdybiaethau y mae'n ofynnol i'r Actiwari eu gwneud. Mae hyn yn seiliedig ar ofynion cyfrifyddu nad ydynt yn effeithio ar gronfeydd gwirioneddol y Cyngor. Mae canlyniadau'r prisiad cyllid yn effeithio ar arian y cyngor yn unig.

Y prisiad cyfrifeg pensiwn yw'r gwerth a adroddir bob blwyddyn yn natganiad cyfrifon y Cyngor. Mae rhai taliadau yn effeithio ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, CIES ac adroddir y prisiad ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn y fantolen. Fodd bynnag, mae'r rhain yn cael eu gwrthbwysu gan addasiadau yn natganiad y mudiad mewn cronfeydd wrth gefn i'w canslo fel nad oes angen i'r dreth gyngor ariannu'r addasiadau cyfrifeg statudol hyn.

Yn hanesyddol, mae mantolen y Cyngor wedi dangos bod gwerth y Gronfa Bensiwn fel atebolrwydd sylweddol. Mae gwerth teg holl fuddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael ei wrthbwysu yn erbyn gwerth presennol rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn ond fel arfer nid yw'n ddigon i dalu am holl werth presennol amcangyfrifedig y rhwymedigaethau pensiwn.

Yn debyg i'r llynedd, mae prisiad cyfrifyddu'r Actiwari wedi penderfynu bod gwerth yr asedau yn fwy na gwerth y rhwymedigaethau a bod y Gronfa Bensiwn mewn sefyllfa asedau net. Wrth lunio'r prisiad, mae'r Actiwari yn defnyddio'r gyfradd cynnyrch ar Giltiau'r Llywodraeth fel y gyfradd ddisgownt ar gyfer rhwymedigaethau yn y dyfodol. Wrth i'r gyfradd hon gynyddu, mae'r gyfradd ddisgownt yn cynyddu, sy'n cael yr effaith gyffredinol o leihau gwerth presennol rhwymedigaethau yn y dyfodol. Ar gyfer 2023/24 y ffactor disgownt sy'n gysylltiedig â bondiau corfforaethol o ansawdd y DU yw 4.85%. Yna caiff hyn ei gymharu â gwerth teg (gwerth marchnad yn aml) asedau'r gronfa.

Fodd bynnag, nid yw'r safon cyfrifo pensiynau IAS19 a ddiweddarwyd gan IFRIC14 yn caniatáu rhoi gwybod am ased net pensiwn ar gyfer pensiynau buddion wedi'u diffinio a ariennir fel Cronfa Bensiwn Gwynedd, gan na all y Cyngor sylweddoli gwerth yr ased ar hyn o bryd. Wrth benderfynu ar y gwerth cario ar y fantolen, mae'r Cyngor wedi cymhwyso'r cysyniad doeth ac mae ganddo'r sefyllfa asedau net wedi'i haddasu ar rwymedigaethau a ariennir o £71.144m i £0. Fodd bynnag, mae'r actiwari wedi cynghori y dylid dangos atebolrwydd net rhwymedigaethau heb eu hariannu ar y fantolen. Felly, mae atebolrwydd o £10.522m wedi'i gynnwys yn yr atebolrwydd pensiynau tymor hir ar y fantolen a ariennir gan y gronfa wrth gefn na ellir ei defnyddio ar pensiynau. Adroddir canlyniadau llawn y prisiad cyfrifeg yn y nodyn Pensiynau Llywodraeth Leol 34 ar dudalen 49.

## **Busnes Gweithredol**

Paratoir y cyfrifon ar sail 'busnes gweithredol'. Mae hyn yn golygu bod y cyfrifon wedi'u paratoi ar sail bod y Cyngor yn parhau ar ei ffurf bresennol i'r dyfodol. Crëwyd Cyngor Sir Ynys Môn drwy statud / cyfraith yn 1996 a bydd yn parhau ar ei ffurf bresennol hyd nes y caiff ei newid drwy statud.

## **DATGANIAD O GYFRIFOLDEBAU AM Y DATGANIAD CYFRIFON**

### **Cyfrifoldebau Cyngor Sir Ynys Môn**

Mae'n ofynnol i Gyngor Sir Ynys Môn:-

- wneud trefniadau ar gyfer gweinyddu ei faterion ariannol yn briodol a sicrhau fod gan un o'i swyddogion y cyfrifoldeb am weinyddu'r materion hynny. Yn y Cyngor hwn, y swyddog yw'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) sydd hefyd wedi'i ddynodi'n Swyddog Adran 151;
- reoli ei faterion er mwyn sicrhau defnydd economaidd, effeithlon ac effeithiol o adnoddau ac i ddiogelu ei asedau;
- gymeradwyo'r Datganiad Cyfrifon.

### **Cyfrifoldebau'r Swyddog Adran 151**

Y Swyddog Adran 151 sydd yn gyfrifol am baratoi Datganiad Cyfrifon y Cyngor yn unol â'r ymarferion priodol fel y gosodir yn y Côd Ymarfer CIPFA/LASAAC ar Gyfrifo Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig ("Y Côd").

Wrth baratoi'r Datganiad Cyfrifon hwn, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- dewis polisiâu cyfrifo priodol ac yna eu defnyddio'n gyson;
- ffurfio barnau a gwneud amcangyfrifon a oedd yn rhesymol a darbodus;
- cydymffurfio â Chôd Ymarfer Awdurdod Lleol CIPFA.

Hefyd, mae'r Swyddog Adran 151 wedi:-

- cadw cofnodion cyfrifo priodol ac amserol;
- cymeryd camau rhesymol i ddarganfod a gwarchod rhag twyll ac unrhyw afreoleidd-dra arall.

### **Tystysgrif**

Tystiaf fod y Datganiad Cyfrifon yma yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys Môn ar y dyddiad cyfrifo a'i incwm a'i wariant am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024:-

### **Llofnodwyd:**

**Richard Marc Jones FCPFA**

**CYFARWYDDWR SWYDDOGAETH (ADNODDAU) A SWYDDOG ADRAN 151**

### **Llofnodwyd:**

**Cynghorydd Glyn Haynes**

**CADEIRYDD CYNGOR SIR YNYS MÔN**

### **Dyddiedig:**

## **Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn**

### **Barn ar y datganiadau ariannol**

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

Mae'r Cyngor yn gweithredu fel ymddiriedolwr ar gyfer nifer o gronfeydd ymddiriedolaeth sydd yn elusennau gofrestrdedig. Mae'r gwaith gweinyddu ariannol ar gyfer y cronfeydd hyn yn cael ei gwblhau gan y Cyngor fel Ymddiriedolwr er bod y wybodaeth a gadwir am bob cronfa yn cael ei hadnabod yn unigol. Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn ac Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yw'r ddwy gronfa fwyaf mae'r Cyngor yn ymddiriedolwr ar eu cyfer.

2023/24	2023/24 Incwm £'000	2023/24 Gwariant £'000	2023/24 Asedau £'000	2023/24 Rhwymedigaethau £'000
Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn	27	0	782	-
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn	184	201	4,842	17

2022/23	2022/23 Incwm £'000	2022/23 Gwariant £'000	2022/23 Asedau £'000	2022/23 Rhwymedigaethau £'000
Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn	12	0	705	-
Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn - cyfrifon terynol	702	242	4,906	22

## Cronfa Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn (Rhif 525254)

Mae Ymddiriedolaeth Addysg Bellach Ynys Môn yn cynnwys tair cronfa. Mae hyn yn cynnwys Ystâd Ffermydd a Thyddynnod David Hughes sy'n cael ei rheoli gan dîm Tyddynnod y Cyngor yn yr Adran Eiddo. Mae cronfa David Hughes yn casglu rent gan dyddynnod yn ogystal â llog ar ei fuddsoddiadau eraill. Mae'r ddwy gronfa arall yn ennill incwm gan fuddsoddiadau sy'n cael eu rheoli nad ydynt yn eiddo. Mae incwm net y gronfa yn darparu cymorth ariannol ar gyfer disgyblion hŷn a phobl ifanc cymwys dan 25 oed i'w helpu nhw i gwblhau cyrsiau os ydynt yn wynebu anfantais ariannol.

Gellir gweld y cyfrifon terfynol cyfredol sydd wedi'u harchwilio ar gyfer yr ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i 2022/23 drwy glicio ar y ddolen isod.

[Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach ar gyfer 2022/23.pdf \(ynysmon.gov.uk\)](#)

## Cronfa Degwm Cyngor Sir Ynys Môn

Roedd y Gronfa hon yn cae ei rheoli'n flaenorol gan Gyngor Gwynedd a drosglwyddodd asedau'r gronfa i'r Cyngor ym mis Mai 2019. Mae ymgynghorydd yn adolygu'r gronfa ar hyn o bryd gyda'r bwriad o lansio cynllun newydd fydd yn amlinellu diben y gronfa, ei chynllun ar gyfer darparu cymorth elusennol yn ogystal â chreu elusen newydd. Roedd yr asedau net o fewn y gronfa ar 31 Mawrth 2024 yn £782k (£705k yn 2022/23).

## Mân Gronfeydd

Mae'r Cyngor hefyd yn ymddiriedolwr ar gyfer nifer o fân gronfeydd addysg, fel y gweler isod.

Mân Ymddiriedolaethau	2023/24 Asedau £'000	2022/23 Asedau £'000
<b>Amlwch</b>		
Sir Thomas Jones ac ysgolion bwydo	1	1
Mrs Dilys Evans BA	2	2
Mr Caradoc Evans MSc	2	2
<b>Caergybi</b>		
Stanley Scholarship	14	13
<b>Porthaethwy</b>		
F C Baines AP	34	33
<b>Eraill</b>		
Llanynghenedl War Heroes	7	7
John Williams-Hughes	3	3
Anwen Williams	6	6
<b>Cyfanswm Mân Ymddiriedolaethau Addysg</b>	<b>69</b>	<b>67</b>

## Cronfeydd eraill a weinyddir gan y Cyngor

Mae'r Cyngor fel rhan o'i gylch gwaith diogelu a chefnogi pobl agored i niwed hefyd yn gweinyddu nifer o gyfrifon banc cleientiaid y mae'r Cyngor wedi'u penodi i'w rheoli gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP) fel Penodai Corfforaethol neu'r Llys Gwarchod fel sy'n berthnasol. Mae hyn ar ran unigolion nad oes ganddynt y gallu i reoli eu materion ariannol eu hunain. Rheolir y rhain gan dîm mewn gwasanaethau Oedolion ac fe'u monitror ddwywaith y flwyddyn gan y Llys Gwarchod. Cyfanswm gwerth y cyfrifon hyn ar 31 Mawrth 2024 oedd £933k (£842k yn 2022/23). Nid yw'r gwerth hwn wedi'i gynnwys yn mantolen y Cyngor gan nad yw'r arian yn perthyn i'r Cyngor.

## **NODYN 33 – CYNLLUN PENSIWN ATHRAWON**

Mae athrawon a gyflogir gan y Cyngor yn aelodau o Gynllun Pensiwn Athrawon, a weinyddir gan yr Adran Addysg. Mae'r cynllun yn rhoi buddiannau penodol i athrawon ar eu hymddeoliad, ac mae'r Cyngor yn cyfrannu tuag at y gost drwy dalu cyfraniadau sy'n seiliedig ar ganran o dâl pensiynadwy aelodau.

Yn dechnegol, cynllun buddiannau diffiniedig yw'r cynllun. Fodd bynnag, mae'r cynllun heb ei gyllido ac mae'r Adran Addysg yn defnyddio cronfa dybiannol er mwyn cyfrifo cyfradd cyfraniad cyflogwyr i'w thalu gan awdurdodau lleol. Nid yw'r Cyngor yn gallu adnabod ei gyfran o'r sefyllfa ariannol waelodol a pherfformiad y cynllun gyda digon o ddibynadwyedd at ddibenion cyfrifo. At ddiben y Datganiad Cyfrifon yma maent, felly, yn cael eu cyfrifo ar yr un sail â chynllun cyfraniadau diffiniedig.

Yn 2023/24, talodd y Cyngor £6.819m i Bensiynau Athrawon yn ymwneud â buddiannau ymddeol athrawon, a oedd yn cynrychioli 23.68% o dâl pensiynadwy (£6.332m a 23.63% yn 2022/23).

Mae'r Cyngor yn gyfrifol am gostau unrhyw fuddiannau ychwanegol a ddyfernir ar gyfer ymddeoliad cynnar y tu allan i delerau'r cynllun athrawon. Cyfrifir am y costau hyn ar sail buddiannau diffiniedig a manylir arnynt yn Nodyn 34 isod.

## **NODYN 34 – CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG LLYWODRAETH LEOL**

### **Buddiannau Ymddeoliad Cyfranogiad yn y Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol**

Fel rhan o delerau ac amodau gwaith ei swyddogion a'i weithwyr eraill, mae'r Cyngor yn cynnig buddiannau ymddeoliad. Er nad yw'r buddiannau yma yn cael eu talu hyd nes i'r gweithwyr ymddeol, mae gan y Cyngor rwymedigaeth i wneud y taliadau sydd raid eu dangos ar yr adeg mae'r gweithwyr yn ennill eu hawliau i'r dyfodol. Mae'r Cyngor yn cymryd rhan yng Nghronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n darparu buddion wedi'u diffinio ac yn cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd. Mae hwn yn gynllun a gyllidir, gan olygu fod y Cyngor a gweithwyr yn talu cyfraniadau i gronfa, a gyfrifir ar lefel y bwriedir iddi gydbwysu rhwymedigaethau'r pensiwn gydag asedau buddsoddiad. Yn ogystal, mae cyfran y Cyngor o'r incwm, costau, asedau ac atebolrwydd pensiwn sy'n ymwneud â Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru wedi'u cynnwys yn y ffigyrau hyn.

### **a) Trafodion yn ymwneud â buddiannau ôl-gyflogaeth**

Mae'r Cyngor yn adnabod cost y buddiannau ymddeol yn yr adroddiadau ar gostau'r gwasanaethau pan mae'r gweithwyr yn eu hennill, yn hytrach na phan mae'r buddiannau yn cael eu talu fel pensiynau. Fodd bynnag, mae'r gost sydd raid ei dangos yn erbyn Cronfa'r Cyngor yn seiliedig ar yr arian a delir yn ystod y flwyddyn ac, felly, mae gwir gost buddiannau ôl-gyflogaeth / ymddeoliad yn cael eu gwyrddroi o'r Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn. Yn ystod y flwyddyn, mae'r trafodion canlynol wedi cael eu gwneud yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a Balans y Gronfa Gyffredinol drwy'r Datganiad o'r Symudiad mewn Cronfeydd Wrth Gefn:-

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
<b>Cost y gwasanaeth yn cynnwys:</b>		
Costau cyfredol y gwasanaeth	10,810	23,124
Colledion ar setliadau neu gwtogiadau	27	93
<b>Cyfanswm cost y Gwasanaeth</b>	<b>10,837</b>	<b>23,217</b>
<b>Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi</b>		
Cost llog ar yr ymrwymiad budd diffiniedig	17,300	14,201
Diddordeb ar effaith y nenfwd ased	939	(10,773)
Incwm llog ar asedau'r cynllun	(18,266)	26,645
<b>Cyfanswm y buddiannau Ôl-Gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaeth</b>	<b>10,810</b>	<b>26,645</b>
Elw ar Asedau'r Cynllun (ac eithrio symiau sydd wedi eu cynnwys yn y gwariant llog net)	(24,839)	16,664
(Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau demograffig	(2,190)	(11,417)
(Elw) a cholledion actiwarïaid yn codi oherwydd newidiadau yn y rhagdybiaethau ariannol	(23,019)	(211,308)
Arall	11,295	49,790
Effaith y Nenfwd Asedau	(20,700)	-
<b>Cyfanswm Ailfesur y rhwymedigaeth o ran buddiannau net diffiniedig</b>	<b>(59,453)</b>	<b>(156,270)</b>
<b>Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd ar Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b>	<b>(48,643)</b>	<b>(129,625)</b>
Gwyrdroi'r taliadau net a wnaed ar gyfer buddiannau ymddeoliad yn unol â'r còd	(193)	16,179
<b>Swm gwirioneddol a godwyd yn erbyn balans Cronfa'r Cyngor ar gyfer pensiynau yn ystod y flwyddyn:</b>		
Cyfraniad y cyflogwyr sy'n daladwy i'r cynllun	11,003	10,466
<b>Cyfanswm y buddiannau Ôl-gyflogaeth a godwyd i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau</b>	<b>10,810</b>	<b>26,645</b>

## b) Asedau a Rhwymedigaethau Pensiwn a gydnabyddir yn y Fantolen

Mae rhwymedigaethau wedi cael eu hasesu ar sail actiwarïaid gan ddefnyddio'r dull credyd uned rhagdybiedig, amcangyfrif o'r pensiynau a fydd yn daladwy yn y blynyddoedd i ddod yn seiliedig ar ragdybiaethau ynghylch cyfraddau marwolaethau, lefelau cyflogau ac ati. Mae'r Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol a'r rhwymedigaethau o ran Buddiannau Dewisol wedi cael eu hasesu gan Hymans Robertson LLP, cwmni annibynnol o actiwarïaid, ac mae'r amcangyfrifon yn seiliedig ar y prisiad llawn ddiweddaraf o'r Cynllun ar 31 Mawrth 2024.

Mae'r symiau sydd wedi eu cynnwys yn y Fantolen yn codi o ymrwymiad yr Awdurdod mewn perthynas â'i gynllun buddiannau diffiniedig fel a ganlyn:	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000
Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun	428,411	383,797
Gwerth Presennol Ymrwymadau'r Cynllun	(357,267)	(353,117)
Gwerth Presennol Rhwymedigaethau Cynllun - Heb ei Ariannu	(10,522)	(10,866)
<b>Rhwymedigaeth net yn codi o'r Rhwymedigaethau diffiniedig</b>	<b>60,622</b>	<b>19,814</b>

### Cysoni Gwerth Presennol Rhwymedigaethau'r Cynllun

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
<b>Balans ar 1 Ebrill</b>	<b>363,983</b>	<b>518,816</b>
<b>Addasiad i agor cydbwysedd I ddiwygio BUEGC 2021/22</b>	<b>53</b>	<b>149</b>
Cost gwasanaeth cyfedrol	10,810	23,124
Cost llog	17,300	14,201
Cyfraniadau gan cyfranogwyr y cynllun	3,449	3,144
(Elw) / colledion Ailfesur	(13,914)	(183,988)
Costau gwasanaeth blaenorol	27	93
Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido	(976)	(923)
Amcangyfrif o'r buddiannau a dalwyd	(12,943)	(10,632)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>367,789</b>	<b>363,983</b>

### Cysoni Gwerth Presennol Asedau'r Cynllun

	2023/24 £'000	2022/23 £'000
<b>Gwerth Teg Agoriadol Asedau'r Cynllun ar 1 Ebrill</b>	<b>383,797</b>	<b>397,617</b>
<b>Addasiad i agor cydbwysedd I ddiwygio BUEGC 2021/22</b>	<b>-</b>	<b>149</b>
Incwm Llog	18,266	10,773
Elw ar asedau cynllun (heb gynnwys gwariant llog net)	24,839	(16,664)
Arall	-	(11,055)
Cyfraniadau gan aelodau	3,449	3,143
<b>Cyfraniadau gan y cyflogwr</b>	<b>11,003</b>	<b>10,466</b>
Cyfraniadau mewn perthynas â buddiannau nad oeddynt yn cael eu cyllido	976	923
Buddiannau a dalwyd nad oeddynt yn cael eu cyllido	(976)	(923)
Buddiannau a dalwyd	(12,943)	(10,632)
<b>Balans ar 31 Mawrth</b>	<b>428,411</b>	<b>383,797</b>

#### c) Gwerth Teg Asedau'r Cynllun

Mae'r tabl isod yn dangos y categorïddio ecwitiâu a buddsoddiadau eraill rhwng y Prisiau a Ddyfynnir mewn Marchnadoedd Gweithredol a phrisiau heb eu dyfynnu mewn Marchnadoedd Gweithredol a chanran pob math o fuddsoddiadau. Mae rheolwyr y cronfeydd buddsoddi yn amrywio'r buddsoddiadau i sicrhau'r enillion gorau mewn buddsoddiadau diogel. Yn 2023/24, roedd 29% o fuddsoddiadau'r gronfa mewn Bondiau sydd wedi perfformio'n well yn 2023/24, o'i gymharu â dim bondiau yn 2022/23. Buddsoddiwyd 1% (£4.350m) mewn arian parod a chyfwerth ag arian parod ar farchnadoedd heb eu dyfynnu oherwydd cryfder y bunt, o'i gymharu â dim yn 2022/23.

Ers 2018/19, mae rheolwyr y gronfa bensiwn wedi dechrau symud buddsoddiadau o'r rhai a ddyfynnir mewn marchnadoedd gweithredol i ddwy gronfa gyfun fyd-eang ym Mhartneriaeth Pensiynau Cymru (WPP). Dangosir y buddsoddiadau hyn o fewn Cronfeydd Buddsoddi ac Ymddiriedolaethau Uned nad ydynt yn cael eu dyfynnu mewn marchnadoedd agored. Mae rhagor o wybodaeth am Gronfa Bensiwn Gwynedd yn ei chyfanrwydd ar gael ar y ddolen ganlynol:-

<https://www.cronfabensiwnngwynedd.cymru/cy/Cartref.aspx>

### Cyfran y Cyngor o Asedau'r Cynllun Pensiwn yw: -

	2023/24 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000	2023/24 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000	2023/24 Canran o gyfanswm asedau	2022/23 Prisiau a Ddyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000	2022/23 Prisiau nas dyfynnwyd mewn Marchnadoedd Gweithredol £'000	2022/23 Canran o gyfanswm asedau
Arian a chywerthoedd arian	1,167	4,353	1%	1,197	-	0%
Ecwiti preifat	-	22,464	5%	-	24,150	6%
<b>Cronfeydd Buddsoddi ac Unedau Ymddiriedolaeth</b>						
Ecwiti	-	237,189	55%	-	238,805	62%
Bondiau	-	122,613	29%	-	-	0%
Isadeiledd	-	10,887	3%	-	10,891	3%
Arall	-	69	0%	-	77,139	21%
<b>Eiddo Tiriog</b>						
Eiddo yn y DU	-	29,663	7%	-	31,615	8%
Eiddo Tramor	-	-	-	-	-	0%
Deilliadau	-	6	0%	-	-	-
<b>Cyfanswm Gwerth yr holl Asedau</b>	<b>1,167</b>	<b>427,244</b>	<b>100%</b>	<b>1,197</b>	<b>382,600</b>	<b>100%</b>
<b>Cyfanswm Gwerth yr Asedau Gweithredol ac Anweithredol</b>		<b>428,411</b>			<b>383,797</b>	

### ch) Hanes y Cynllun

Dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun: -

	31 Mawrth 2024 £'000	31 Mawrth 2023 £'000	31 Mawrth 2022 £'000	31 Mawrth 2021 £'000	31 Mawrth 2020 £'000
Gwerth Teg Asedau'r Cynllun Pensiwn	428,411	383,797	397,617	357,955	274,492
Gwerth Presennol Rhwymedigaeth Budd Diffiniedig y Cynllun	(367,789)	(363,983)	(518,816)	(534,216)	(399,012)
<b>(Diffyg)/Asedau yn y Cynllun</b>	<b>60,622</b>	<b>19,814</b>	<b>(121,199)</b>	<b>(176,261)</b>	<b>(124,520)</b>

Mae'r dadansoddiad o asedau a rhwymedigaethau'r cynllun yn dangos yr ymrwymadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ymddeol. Yn debyg i 2022/23, gwerth presennol rhwymedigaethau buddion wedi'u diffinio o £367.789m, sy'n sylweddol is na'r gwerth arferol oherwydd y ffactor disgownt cynyddol a ragnodir gan safonau cyfrifeg ac a ddefnyddir gan yr Actiwari. Mae hyn, fel y soniwyd yn yr adroddiad naratif, yn gysylltiedig â'r gyfradd sylfaenol banc uwch a gwerth bondiau corfforaethol y DU y mae'r ffactor disgownt yn seiliedig arnynt. Gwerth teg asedau yn y cynllun pensiwn yw £428.411m, sy'n uwch na gwerth presennol y rhwymedigaethau buddion diffiniedig o £367.789m. Arweiniodd hyn at sefyllfa asedau net ac eithrio buddion heb eu cyllido o £71.144m. O dan reolau cyfrifo (IFRIC14), ni chaniateir i'r Cyngor ddangos ased pensiwn net ar y fantolen oherwydd cyfyngiadau ar y gronfa bensiynau.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio nenfwd asedau net o £71.144m, a fydd yn dod â'r ased i ddim ar y fantolen ar dudalen 15. Fodd bynnag, ni ellir gwrthbwysu rhwymedigaethau heb eu cyllido yn erbyn yr ased pensiwn net at ddibenion y nenfwd asedau. Felly, yr atebolrwydd pensiwn net ar y fantolen yw £10.522m, er gwaethaf perfformiad cadarnhaol y gronfa bensiwn yn 2023/24.

**c) Prif Ragdybiaethau a ddefnyddiwyd gan yr Actiwari oedd: -**

	2023/24	2022/23
<b>Rhagdybiaethau Marwolaeth:</b>		
<i>Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr presennol:</i>		
Dynion	20.8 years	20.9 mlynedd
Merched	23.5 years	23.7 mlynedd
<i>Hirhoedledd yn 65 bensiynwyr dyfodol:</i>		
Dynion	21.9 years	22.1 mlynedd
Merched	25.3 years	25.5 mlynedd
Graddfa Cynnydd Chwyddiant / Pensiwn	2.75%	2.95%
Gradda cynnydd mewn cyflogau	3.25%	3.45%
Dychweliad disgwylidig ar yr asedau	11.20%	-1.50%
Graddfa ddisgownt ar rwymedigaethau'r cynllun	4.85%	4.75%
<b>Defnyddio'r opsiwn i drosi pensiwn blynyddol i lwmp swm ymddeoliad:</b>		
Gwasaneath i Ebrill 2008	50%	50%
Gwasaneath ar ol Ebrill 2008	65%	65%

**dd) Dadansoddiad Sensitifrwydd**

Newid Mewn Tybiaethau fel ar 31 Mawrth 2024	% y Cynnydd yn fras i'r Cyflogwr	Swm Ariannol Bras  £'000
Lleihad o 0.1% yn y gyfradd ddisgownt real	2%	7,420
Cynnydd 1 blwyddyn yn nisgwylid oes aelodau	4%	14,704
Cynnydd o 0.1 % yn y gyfradd cynnydd cyflog	0%	355
Cynnydd o 0.1 % yn y gyfradd cynnydd pensiwn	2%	7,201

Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd uchod yn seiliedig ar newidiadau rhesymol bosibl i'r rhagdybiaethau sy'n digwydd ar ddiwedd y cyfnod adrodd. Mae'n tybio ar gyfer pob newid yn y dybiaeth bod yr holl dybiaethau eraill yn aros yn gyson. Mae'r dadansoddiad sensitifrwydd yn dangos gall effaith cynnydd o 0.1% yn y gyfradd ddisgownt real oherwydd newidiadau posibl i'r farchnad leihau rhwymedigaethau'r gronfa gan £7.420m. Gallai cynnydd o flwyddyn mewn disgwylid oes aelodau gynyddu rhwymedigaethau gan £14.704m. Yn ymarferol, bydd gwir gost cynnydd o flwyddyn mewn disgwylid oes yn dibynnu ar strwythur y dybiaeth ddiwygiedig (h.y. os bydd gwelliannau i gyfraddau goroesi yn bennaf yn berthnasol i oeddrannau iau neu hŷn). Gallai cynnydd o 0.1% yn y gyfradd cynnydd cyflog gynyddu costau'r gronfa gan £355k. Gallai cynnydd o 0.1% yn y gyfradd bensiwn gynyddu rhwymedigaethau gan £7.201m. Cyfrifwyd yr amcangyfrifon yn y dadansoddiad sensitifrwydd yn unol â rhagdybiaethau actiwariad proffesiynol, IAS19 a FRS102.



Mae hyn yn golygu bod y defnydd o'r rhagdybiaethau 0.1% isod wedi'u dewis gan yr actiwari arbenigol yn unol â'u barn broffesiynol. Byddai'r Actiwari wedi ystyried gwybodaeth gyfredol a gorffennol. Byddai gwybodaeth am oes pobl a gwybodaeth ddemograffig hefyd wedi dylanwadu ar hyn.

#### **e) Yr Effaith ar Lif Arian yr Awdurdod**

Amcan y cynllun yw cadw cyfraniadau cyflogwyr mor gyson â phosibl. Mae gan y Cyngor strategaeth gyda actiwari'r cynllun i gyflawni lefel cyllido o 100% dros yr 20 mlynedd nesaf. Mae lefelau cyllido'n cael eu monitro'n flynyddol. Disgwylir i'r prisiad tair blynedd nesaf gael ei gwblhau erbyn 31 Mawrth 2025.

Bydd angen i'r cynllun gymryd i ystyriaeth y newidiadau cenedlaethol i'r cynllun dan Ddeddf Gwasanaethau Pensiynau Cyhoeddus 2013.

O dan y Ddeddf, efallai na fydd y CPLIL yng Nghymru a Lloegr, a phrif gynlluniau gwasanaethau cyhoeddus eraill sy'n bodoli eisoes, yn darparu buddion mewn perthynas â gwasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2014 (neu Wasanaeth ar ôl 31 Mawrth 2015 ar gyfer prif gynlluniau pensiwn gwasanaethau cyhoeddus presennol eraill yng Nghymru a Lloegr). Mae'r Ddeddf yn darparu bod rheoliadau cynlluniau yn cael eu gwneud o fewn fframwaith cyffredin, i sefydlu cynlluniau enillion ailbriso cyfartalog gyrfa newydd i dalu pensiynau a buddion eraill.

Mae'r ased / atebolrwydd net yn dangos ymrwymadau sylfaenol sydd gan y Cyngor yn y tymor hir i dalu buddion ôl-gyflogaeth (ymddeol). Mae'r ased net o £71.144m yn cael effaith sylweddol ar werth net y Cyngor fel y'i cofnodwyd yn y Fantolen. Mae hwn yn ased cyfrifyddu statudol nad yw'n effeithio ar falansau'r Cyngor. Fodd bynnag, mae'r safon cyfrifo ar gyfer Pensiynau, IAS19 ac IFRIC14, yn ei gwneud yn ofynnol na ellir cynnwys ased pensiwn net fel ased ar y fantolen, felly, mae hyn wedi'i eithrio ac mae'r atebolrwydd pensiwn yn dangos y balans o £10.522m ar rwymedigaethau heb eu cyllido, yn unol â'r rheolau.

#### **f) Amcangyfrif o'r cyfraniadau i'w talu i Gronfa Bensiwn Gwynedd yn 2024/25**

Mae'r Cyngor yn rhagweld talu £10.955m o gyfraniadau i'r cynllun yn 2024/25. Y swm sy'n ddyledus i Gyngor Gwynedd mewn perthynas â chyfraniadau CPLIL ar gyfer 2023/24 ar 31 Mawrth 2024 yw £1.209m, ac mae wedi'i gynnwys yn nodyn datgelu'r credydwy'r tymor byr.

#### **ff) Ansicrwydd ynghylch effaith bosibl achos Virgin Media mewn perthynas â newidiadau i fudd-daliadau'r aelodau rhwng 1996 a 2016**

Ym mis Mehefin 2023, canfu'r Uchel Lys yn yr achos Virgin Media bod newidiadau i fuddion aelodau mewn cynlluniau pensiwn â buddion wedi'u diffinio sydd wedi eu contractio allan rhwng 1996 a 2016 yn ddi-rym os na chwblhawyd tystysgrif actiwaraid yn unol ag adran 37 o Ddeddf Cynlluniau Pensiwn 1993. Mae hyn yn berthnasol i hawliau gwasanaeth yn y gorffennol a hawliau gwasanaeth yn y dyfodol, a newidiadau sydd o anfantais i aelodau cynllun buddion. Apeliwyd yn erbyn y dyfarniad ym mis Mehefin 2024 ond gwrthodwyd yr apêl. Mae'r actwari ar gyfer Cronfa Bensiwn Gwynedd, sy'n cynnwys pensiynau Cyngor Sir Ynys Môn, wedi cadarnhau bod cryn ansicrwydd ynglŷn â ph'un a fydd y dyfarniad hwn yn effeithio ar y Cynllun Pensiynau Llywodraeth Leol.

## **NODYN 35 – OFFERYNNAU ARIANNOL**

Cytundebau contractiol rhwng dau neu fwy o bartïon yw offerynnau ariannol yn ymwneud â hawl i dderbyn tâl o ariannol. Byddai gan un parti ased ariannol lle mae arian neu ased ariannol arall yn cael ei roi i'r parti arall, yn gyfnewid am ddychwelyd yr arian neu'r offeryn ariannol, yn aml gyda llog neu enillion ffafriol ar y buddsoddiad. Byddai'r trafodiad yn rhwymedigaeth ariannol i'r parti neu'r partiïon eraill. Y cytundeb i ad-dalu'r arian ar yr amser y cytunwyd arno ac i ddychwelyd yr arian yn unol â'r cytundeb fyddai hynny. Er enghraifft, prif asedau ariannol y Cyngor yw ei fuddsoddiadau mewn adneuon banc.

Mae enghreifftiau o asedau ariannol yn cynnwys arian parod, adneuon banc, symiau sy'n ddyledus drwy fasnach (dyledwyr), ecwitiau, bondiau a deilliadau. Mae enghreifftiau o rwymedigaethau ariannol yn cynnwys benthyciadau, symiau sy'n daladwy drwy fasnach (credydwyr) ac unrhyw rwymedigaeth gontractiol i ddarparu arian parod neu ased ariannol i endid arall.

## **NODYN 35a – ASED AU ARIANNOL**

Mae'r nodyn yma'n dangos y categorïau gwahanol o asedau ariannol sy'n ofynnol o dan SAARh 9 a gwerth asedau ariannol y Cyngor ar 31 Mawrth 2024. Mae'n rhoi gwerth asedau anariannol hefyd, sydd yn cynnwys gwerth Tir ac Eiddo ac asedau eraill. Ni all y Cyngor ond ymrwymo i asedau a rhwymedigaethau ariannol yn unol â Datganiad Strategaeth Rheoli Trysorlys y Cyngor. Mae'r Strategaeth yn gosod meini prawf caeth, felly, ni all y Cyngor ond buddsoddi mewn asedau ariannol sydd yn hynod o ddiogel ac y gellir cael mynediad atynt pan fydd y Cyngor angen yr arian.

Adneuon banciau yn y DU sy'n bodloni meini prawf statws credyd y Cyngor yw'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau, neu fenthyciadau i awdurdodau lleol eraill. Daw'r cyfan ohonynt o dan ddsbarthiad SAARh 9 Asedau Ariannol a fesurir yn ôl cost wedi'i amorteiddio, fel yr amlygir yn Nodyn 35a.

Mae'r tabl isod yn dangos swm cario'r asedau ariannol. Dyma werth yr asedau ariannol yn y fantolen yn seiliedig ar gost wedi ei amorteiddio. Darperir y gwerth teg hefyd; mae hwn yn werth mwy cyfredol, sef y pris i werthu'r asedau ariannol ar 31 Mawrth 2024.

Asedau Ariannol	Tymor Byr				Tymor Hir				Cyfanswm			
	31/03/2024		31/03/2023		31/03/2024		31/03/2023		31/03/2024		31/03/2023	
	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg	Swm Cario	Gwerth Teg
	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000	£000
<b>Asedau ariannol a ddelir ar gost wedi'i amorteiddio</b>												
<b>Arian a chywerthoedd arian</b>												
Arian a chywerthoedd arian - adneuon	31,603	31,603	19,021	19,021	-	-	-	-	31,603	31,603	19,021	19,021
Arian a chywerthoedd arian eraill	504	504	719	719	-	-	-	-	504	504	719	719
Buddsoddiadau tymor byr eraill	-	-	22,500	22,500	-	-	-	-	-	-	22,500	22,500
<b>Cyfanswm Buddsoddiadau</b>	<b>32,107</b>	<b>32,107</b>	<b>42,240</b>	<b>42,240</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>32,107</b>	<b>32,107</b>	<b>42,240</b>	<b>42,240</b>
<b>Dyledwyr</b>												
Rhenti	306	306	317	317	-	-	-	-	306	306	317	317
Benthyciadau i weithwyr	337	337	131	131	14	14	14	14	351	351	145	145
Dyledwyr Masnach	2,158	2,158	2,327	2,327	-	-	-	-	2,158	2,158	2,327	2,327
Incwm gohiriedig	-	-	-	-	1,018	1,018	1,220	1,220	1,018	1,018	1,220	1,220
Gordaliadau budd-daliadau tai	181	181	170	170	-	-	-	-	181	181	170	170
Dyledwyr Eraill	2,420	2,420	637	637	-	-	-	-	2,420	2,420	637	637
<b>Cyfanswm Asedau Ariannol - Dyledwyr</b>	<b>5,402</b>	<b>5,402</b>	<b>3,582</b>	<b>3,582</b>	<b>1,032</b>	<b>1,032</b>	<b>1,234</b>	<b>1,234</b>	<b>6,434</b>	<b>6,434</b>	<b>4,816</b>	<b>4,816</b>
<b>Cyfanswm Offerynnau Ariannol</b>	<b>37,509</b>	<b>37,509</b>	<b>45,822</b>	<b>45,822</b>	<b>1,032</b>	<b>1,032</b>	<b>1,234</b>	<b>1,234</b>	<b>38,541</b>	<b>38,541</b>	<b>47,056</b>	<b>47,056</b>
<b>Asedau heb eu diffinio fel Offerynnau Ariannol</b>	<b>46,269</b>	<b>46,269</b>	<b>36,730</b>	<b>36,730</b>	<b>550,943</b>	<b>550,943</b>	<b>496,430</b>	<b>496,430</b>	<b>597,212</b>	<b>597,212</b>	<b>533,160</b>	<b>533,160</b>
<b>Cyfanswm Asedau</b>	<b>83,778</b>	<b>83,778</b>	<b>82,552</b>	<b>82,552</b>	<b>551,975</b>	<b>551,975</b>	<b>497,664</b>	<b>497,664</b>	<b>635,753</b>	<b>635,753</b>	<b>580,216</b>	<b>580,216</b>

Mae'r asedau ariannol wedi eu rhannu rhwng buddsoddiadau a dyledwyr. Y buddsoddiadau yw adneuon arian parod i mewn i fanciau y DU ynghyd â'r arian parod ac chywerthoedd arian eraill yn ymwneud â'r symiau a ddelir ar gyfer bancio gweithredol a thalu costau o ddydd i ddydd. Mae'r Cyngor hefyd yn buddsoddi mewn adneuon tymor penodol ar gyfraddau llog uwch. Mae'r symiau a ddelir fel arian parod a chywerthoedd arian yng nghyfrifon adneuon banc y DU dros anghenion dydd i ddydd ond bydd eu hangen yn y dyfodol. Mae'r rhain yn ennill llog am y cyfnod a fuddsoddwyd. Y categori arall o asedau ariannol yw dyledwyr.

Mae'r rhain yn ymwneud â sefydliadau neu unigolion sy'n ddyledus i'r Cyngor. Y mwyaf sylweddol yw dyledwyr masnach sy'n ymwneud â symiau sy'n ddyledus am wasanaethau a dderbynnir. Dangosir benthyciadau cyflogaion hefyd; benthyciadau meddal yw'r rhain sy'n ymwneud yn bennaf â benthyciadau ceir i aelodau o staff sy'n teithio'n fwy helaeth ar fusnes y Cyngor. Darparwyd y benthyciadau ar gyfradd is na gwerth y farchnad oherwydd yr angen am deithio sy'n gysylltiedig â gwaith. Nid yw dyledwyr yn cynnwys trafodion gydag adrannau'r llywodraeth, ac incwm a thaliadau sy'n deillio o drethiant, gan gynnwys y Dreth Gyngor a threthi annomestig.

### **NODYN 35b – RHWYMEDIGAETHAU ARIANNOL A DDELIR GAN Y CYNGOR**

Mae holl Rwymedigaethau Ariannol y Cyngor yn cael eu dosbarthu fel Rhwymedigaethau Ariannol ar gost wedi'i hamorteiddio. Dangosir hyn yn Nodyn 35b. Mae'r nodyn hefyd yn dangos gwerth rhwymedigaethau anariannol.

Cyfanswm rhwymedigaethau benthycia'r Cyngor oedd £124.516m ar 31 Mawrth 2024. Dyma'r benthyciad a gymerwyd dros y blynyddoedd i gyllido gwariant cyfalaf ar adeiladu neu adnewyddu asedau'r Cyngor. Y benthyciadau tymor byr yw'r symiau sydd i'w had-dalu erbyn 31 Mawrth 2025. Disgwylir i'r benthyciadau hirdymor gael eu talu ymhen mwy na blwyddyn. Prif ddarparwr benthyciadau i'r Cyngor yw'r Bwrdd Benthyciadau Gwaith Cyhoeddus (PWLb), sy'n rhan o Adran Trysorlys y Llywodraeth Ganolog.

Cyfrifwyd gwerth teg benthycia'r Cyngor gan ymgynghorwyr Rheoli Trysorlys y Cyngor, Gwasanaethau Asedau Cyswllt. Cyfanswm gwerth teg benthycia'r Cyngor oedd £108.935m, sy'n is na'r gwerth cario ar y fantolen o £124.516m ar 31 Mawrth 2024. Mae gwerth teg yr asedau £15.581m yn is na'r swm cario oherwydd bod y Bwrdd Benthyciadau Cyfalaf yn cynnig gostyngiad net os yw'r Cyngor yn disodli'r benthyciadau hyn gyda benthyciadau newydd. Mae'r Cyngor wedi elwa o fenthyciadau llog is tra bod y gyfradd llog sylfaenol wedi bod yn isel. Mae hyn wedi helpu i sicrhau bod llog ad-daladwy bob blwyddyn yn is na'r blynyddoedd blaenorol pan oedd cyfraddau llog yn uwch. Byddai cynnydd mewn cost llog ad-daladwy blyddynol yn uwch na gwerth cyfanswm gostyngiad PWLB ac ni fyddai'r gost llog flynyddol ar y benthyciadau newydd yn fforddiadwy.

Financial Liabilities	Short-term				Long-term				Total			
	31/03/2024		31/03/2023		31/03/2024		31/03/2023		31/03/2024		31/03/2023	
	Carrying Amount £'000	Fair Value £'000	Carrying Amount £'000	Fair Value £'000	Carrying Amount £'000	Fair Value £'000	Carrying Amount £'000	Fair Value £'000	Carrying Amount £'000	Fair Value £'000	Carrying Amount £'000	Fair Value Restated £'000
<b>Financial liabilities held at amortised cost</b>												
<b>Borrowing</b>												
PWLB	2,977	1,861	3,738	3,811	117,690	103,865	117,708	112,664	120,667	105,726	121,446	116,475
Salix	364	364	373	373	3,485	2,845	3,849	3,155	3,849	3,209	4,222	3,528
<b>Total Financial Liabilities - Borrowing</b>	<b>3,341</b>	<b>2,225</b>	<b>4,111</b>	<b>4,184</b>	<b>121,175</b>	<b>106,710</b>	<b>121,557</b>	<b>115,819</b>	<b>124,516</b>	<b>108,935</b>	<b>125,668</b>	<b>120,003</b>
<b>Creditors</b>												
Trade	3,672	3,672	11,650	11,650	-	-	-	-	3,672	3,672	11,650	11,650
Other Creditors	19,831	19,831	1,177	1,177	-	-	-	-	19,831	19,831	1,177	1,177
<b>Total Financial Liabilities - Creditors</b>	<b>23,503</b>	<b>23,503</b>	<b>12,827</b>	<b>12,827</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>-</b>	<b>23,503</b>	<b>23,503</b>	<b>12,827</b>	<b>12,827</b>
<b>Total Financial Liabilities</b>	<b>26,844</b>	<b>25,728</b>	<b>16,938</b>	<b>17,011</b>	<b>121,175</b>	<b>106,710</b>	<b>121,557</b>	<b>115,819</b>	<b>148,019</b>	<b>132,438</b>	<b>138,495</b>	<b>132,830</b>
<b>Total Liabilities not defined as Financial Liabilities</b>	<b>27,601</b>	<b>27,601</b>	<b>27,178</b>	<b>27,178</b>	<b>18,560</b>	<b>18,560</b>	<b>9,893</b>	<b>9,893</b>	<b>46,161</b>	<b>46,161</b>	<b>37,071</b>	<b>37,071</b>
<b>Total Liabilities</b>	<b>54,445</b>	<b>53,329</b>	<b>44,116</b>	<b>44,189</b>	<b>139,735</b>	<b>125,270</b>	<b>131,450</b>	<b>125,712</b>	<b>194,180</b>	<b>178,599</b>	<b>175,566</b>	<b>169,901</b>

## NODYN 35c – INCWM, GWARIANT, ENILLION A CHOLLEDION

Mae'r tabl isod yn dangos effaith offerynnau ariannol y Cyngor a ddelir ar gyfrif refeniw blynyddol y Cyngor ar gyfer 2023/24.

Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion	2023/24		2022/23	
	Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau  £'000	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall  £'000	Gwarged neu Ddiffyg ar Ddarparu Gwasanaethau  £'000	Incwm a Gwariant Cynhwysfawr Arall  £'000
<b>(Enillion)/colledion net ar:</b>				
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio (lwfans amhariad a dadgydnabod)	743	-	599	-
<b>Cyfanswm yr enillion/colledion net</b>	<b>743</b>	<b>-</b>	<b>599</b>	<b>-</b>
<b>Refeniw llog:</b>				
Asedau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	(2,473)	-	(963)	-
<b>Cyfanswm Refeniw Llog</b>	<b>(2,473)</b>	<b>-</b>	<b>(963)</b>	<b>-</b>
<b>Cost llog:</b>				
Rhwymedigaethau ariannol wedi'u mesur ar gost wedi'i hamorteiddio	5,515	-	5,699	-
<b>Cyfanswm Cost Llog</b>	<b>5,515</b>	<b>-</b>	<b>5,699</b>	<b>-</b>

Mae'r tabl yn dangos y codwyd £743k (£599k yn 2022/23) ar y Cyngor am amhariad a dadgydnabyddiaeth o'r asedau ariannol a nodir uchod yn Nodyn 35a. Dangosir taliadau amhariad a dadgydnabyddiaeth yn fanylach yn Nodyn 36a. Mae ased y dyledwyr yn cael ei amharu i ystyried y risg na fydd yr holl ddyledion sy'n weddill yn cael eu talu. Codir tâl am ddad-gydnabod incwm sy'n ddyledus sy'n annhebygol o gael ei dalu. Mae hyn yn lleihau gwerth yr asedau yn ôl y swm hwn ac yn cael ei godi i'r Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (CIES).

Derbyniodd y Cyngor £2.473m (£963k yn 2022/23) mewn llog o'i ddyddodion mewn banciau a benthyciadau yn y DU i awdurdodau lleol eraill. Cynyddodd y llog ar fuddsoddiadau yn flaenorol yn sylweddol oherwydd effaith y cyfraddau llog cynyddol i reoli chwyddiant. Mae Banc Lloegr wedi dechrau gostwng cyfraddau llog gan fod chwyddiant wedi gostwng yn sylweddol. Mae balansau arian parod y cyngor hefyd yn lleihau oherwydd pwysau cost a llai o gyllid. Felly, mae'n debygol y bydd modd derbyn llog yn is yn 2024/25 a thu hwnt. Y llog oedd yn daladwy ar fenthyciadau yn ymwneud â 2023/24 oedd £5.515m (£5.699m yn 2022/23).

## NODYN 36 – NATUR A MAINT Y RISGIAU SY'N DEILLIO O OFFERYNNAU ARIANNOL

Mae gwaith y Cyngor yn golygu ei fod yn agored i sawl risg ariannol: -

**Risg Credyd** – y posibilrwydd bod partïon eraill yn methu â thalu'r symiau sy'n dyledus i'r Cyngor.

**Risg Hylifedd** – y posibilrwydd na fydd cyllid gan y Cyngor i gwrdd â'i ymrwymadau yng nghyswllt taliadau.

**Risg y Farchnad** – y posibilrwydd y bydd y Cyngor yn wynebu colled ariannol oherwydd newidiadau mewn mesurau megis cyfraddau llog. Mae'r rheolaeth gyffredinol dros risgiau sylweddol sy'n codi o'r Offerynnau Ariannol yn cael cefnogaeth gan Ddatganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys y Cyngor a hefyd y Strategaeth Buddsoddi Blynyddol sydd wedi ei chymeradwyo gan y Cyngor Llawn. Mae'r Cyngor ond wedi buddsoddi mewn banciau DU ac awdurdodau lleol eraill yn ystod y flwyddyn.

**Risg Credyd** – Mae Risg Credyd yn deillio o adneuron gyda banciau a sefydliadau ariannol, yn ogystal ag amlygiad credyd i gwsmeriaid y Cyngor (dyledwyr ar y Fantolen). Mae'r safon yn ei wneud yn ofynnol i'r Cyngor ddarparu ar gyfer colledion credyd posibl o beidio â thalu incwm dyledus i'r Cyngor. Gelwir hyn yn lwfans colli amhariad (ILA). Yn hytrach na seilio colledion posibl ar wybodaeth hanesyddol yn unig, y ma'r Cyngor yn ystyried colledion credyd posibl yn y dyfodol yn gynharach ac mae wedi diwygio'r polisi amhariad i amharu ar golledion credyd posibl ar ddyledwyr mwy cyfredol. Mae'r polisi diwygiedig i'w weld yn Nodyn 41 Polisiâu Cyfrifyddu.

Mae'r Cyngor wedi asesu'r risg credyd o adneuron banc ar y tebygolrwydd o'r banc yn diffygio wrth ad-dalu'r buddsoddiad. Mae risg uwch i'r sector bancio gan Brexi, effaith y Pandemig ac, yn fwy diweddar, effaith y rhyfel yn yr Wcrain. Fodd bynnag, parheir i ystyried y risg o ddiffyg i fod yn isel. Mae hyn o ganlyniad i wytnwch ariannol uwch gan y banciau yn dilyn deddfwriaeth newydd a gyflwynwyd yn dilyn argyfwng bancio 2008. Nid yw'r adneuron banc, felly, wedi eu hamharu. Nid ydym yn trefnu adneuron gyda banciau a sefydliadau ariannol oni bai eu bod, ar ôl cael eu graddio'n annibynnol, wedi cael graddfa credyd digonol neu lefel o warant llywodraeth, a phenderfynir ar uchafsymiau credyd i bob gwrthbarti. Gosododd y Cyngor nifer o uchafsymiau yn seiliedig ar ansawdd credyd ar gyfer gwahanol math o sefydliadau, gwahanol gyfnodau a symiau, ac mae ganddo bolisi o beidio â benthycu mwy na £15m i unrhyw un sefydliad heblaw am lywodraeth y DU. Mae'r Cyngor yn monitro cyfraddau credyd yn gyson a chaiff rhybudd o unrhyw newidiadau gan ei ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Cymerir camau priodol yn sgil unrhyw newid gan ddilyn y Strategaeth Buddsoddi Flynyddol. Paratoir Adroddiad Trysorlys Blynyddol sy'n manylu ar y gwaith buddsoddi.

Ni aethwyd tu draw i unrhyw uchafswm credydd yn ystod y flwyddyn ariannol ac ni thorwyd unrhyw feini prawf gwrthbariton. Nid yw'r Cyngor yn disgwyl y bydd unrhyw golledion o ganlyniad i unrhyw un o'i wrthbartion fethu â pherfformio yng nghyswllt adneuron.

Nid yw'r Cyngor fel rheol yn caniatáu credyd i gwsmeriaid; mae ganddo weithdrefnau casglu rhagnodedig ar gyfer symiau dyledus gan gwsmeriaid a gwneir darpariaethau priodol ar gyfer dyledion a allai fod yn rhai drwg. Mewn rhai amgylchiadau, mae'r Cyngor yn cael pridiant cyfreithiol ar eiddo ar gyfer rhai dyledion gohiriedig, megis hunan gyllidwyr mewn cartrefi gofal. Yn ogystal, mae gan y Cyngor nifer o ddyledwyr tymor hirach, sy'n bennaf yn fenthyciadau car i staff a morgeisi gweddilliol o gynllun caeëdig yn cynnig benthyciadau cartrefi i denantiaid ac i aelodau'r cyhoedd. Mae'r morgeisi gweddilliol yn rhai risg isel oherwydd bod y Cyngor yn diogelu'r hawl gyntaf ar yr eiddo morgeisiedig. Ystyrir bod y benthyciadau ceir yn rhai risg isel oherwydd bod modd tynnu ad-daliadau am y benthyciadau ceir o gyflogau'r gweithwyr, mae trefniadau dwyochrog gydag awdurdodau lleol eraill ar gyfer staff sy'n trosglwyddo gyda dyledion ar eu benthyciadau ceir, yswiriant ar gyfer benthyciadau heb eu had-dalu oherwydd marwolaeth mewn gwasanaeth a hefyd trefniadau arferol i ad-ennill dyledion yng nghyswllt gweithwyr sy'n gadael eu swyddi mewn llywodraeth leol.

### **NODYN 36a - AMHARIAD A DAD-GYDNABOD ASED AU ARIANNOL**

Er mwyn sicrhau nad yw incwm y Cyngor yn cael ei orbwysleisio yn y cyfrifon hyn, mae balansau dyledwyr yn cael eu amharu i gyfrif am y risg credyd o dderbyn llai o incwm nag sy'n ddyledus. Mae'r amhariad hwn yn ystyried mwy o ddyledwyr cyfredol yn ogystal â dyledion sy'n ddyledus dros gyfnod hwy o amser. Er mwyn sicrhau nad yw'r Cyngor yn cydnabod unrhyw incwm na ellid byth ei adennill, ystyrir dileu y dyledion yma, a mae'n rhaid cymeradwyo hyn yn unol â chyfansoddiad y Cyngor. Mae'r rhai a gymeradwywyd i'w dileu yn cael eu tynnu o falans y dyledwyr a'u codi yn erbyn refferniw yn adran Cyllido a Buddsoddi Incwm a Gwariant y CIES.

Dangosir y newidiadau mewn lwfans amhariad a'r swm sy'n cael ei gydnabod isod: -

Dosbarth yr Asedau (cost wedi ei hamorteiddio)	2023/24	2022/23
	Colledion credyd disgwylidig dros oes yr ased - heb amhariad credvd £'000	Colledion credyd disgwylidig dros oes yr ased - heb amhariad credvd £'000
Balans Agoriadol ar 1 Ebrill 2021	4,605	4,121
Adneuon mewn banciau'r DU	-	-
Dyledwyr Masnachol (ac eithrio'r sector cyhoeddus a threthi)	496	441
Benthyciadau Meddal	-	-
Gordaliadau budd-dal Tai	97	34
Rhenti	48	9
<b>Cyfanswm y lwfans amhariad 31 Mawrth</b>	<b>5,246</b>	<b>4,605</b>
Asedau Ariannol sydd wedi cael eu dad-adnabod	102	115
<b>Cyfanswm Amhariad a Dad-gydnabod</b>	<b>743</b>	<b>599</b>

Mae'r newidiadau yn y lwfans amhariad a'r swm sydd wedi'i ddad-gydnabod i'w weld isod: -

### NODYN 36b – Risg credyd o fuddsoddiadau

Mae'r meini prawf isod yn darparu'r statws credyd isaf ar gyfer sefydliadau y mae'r Cyngor yn buddsoddi ynddynt. Yn ymarferol, mae'r Cyngor yn buddsoddi mewn banciau a chymdeithasau adeiladu yn y DU ac awdurdodau lleol eraill y DU ar ôl asesu eu gwybodaeth ariannol. Mae'r meini prawf hefyd yn caniatáu ar gyfer offerynnau ariannol Llywodraeth Ganolog y DU a chronfeydd marchnad arian A triphlyg. Mae'r meini prawf hyn wedi'u cynnwys yn Natganiad Blynnyddol Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ac mae wedi'i gymeradwyo gan y Cyngor Llawn.

Categori	Statws Credyd Tymor Byr (Fitch)	Statws Credyd Tymor Byr (Moody's)	Statws Credyd Tymor Byr (Safon a Gwael)	Statws Credyd Hirdymor (Fitch)	Statws Credyd Hirdymor (Moody's)	Statws Credyd Hirdymor (Safon a Gwael)	Uchafswm Arian Parod	Terfyn Amser
Cymdeithasau Banciau ac Adeiladu (heb eu gwladoli neu eu gwladoli'n rhannol)	F1+	P-1	A-1+	AAA	Aaa	AAA	£10m	5 blwyddyn
	F1+	P-1	A-1+	AA	Aa2	AA	£10m	3 blwyddyn
	F1+	P-1	A-1+	AA-	Aa3	AA-	£10m	364 diwrnod
	F1	P-1	A-1	A	A2	A	£7.5m	6 mis
Banciau'r DU wedi'u Gwladoli / Yn rhannol	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	£10m	364 diwrnod
Banc NatWest (Wedi'i Wladoli'n Rhannol)	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	£30m	364 diwrnod
Llywodraeth Ganolog y DU (waeth beth fo statws credyd)	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	Dim uwchafswm	Dim uwchafswm
Awdurdodau Lleol y DU*	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	£10m	364 diwrnod
Cronfeydd y Farchnad Arian	n/a	n/a	n/a	AAA	AAA	AAA	£5m	6 mis

Mae'r tabl isod yn manylu ar yr holl buddsoddiadau a waned gan y Cyngor fel ar 31 Mawrth, a chyfraddau credyd y sefydliadau sy'n cwrdd â gofynion isaf meini prawf y Cyngor. Yn 2022 dechreuodd y Cyngor osod buddsoddiadau mewn cyfrifon cyfnod penodol gyda llog sefydlog sydd yn ddiogel, ond gyda chyfraddau llog uwch. Fe wnaeth hyn parhau trwy 2023/24 tra roedd balansau arian parod yn ddigonol i ganiatau buddsoddiadau ar gyfer cyfnodau penodol.



Gwrthbarti (Banc)	Statws Credyd Tymor Byr (Fitch)	Statws Credyd Tymor Byr (Moody's)	Statws Credyd Tymor Byr (Safon)	Statws Credyd Hirdymor (Fitch)	Statws Credyd Hirdymor	Statws Credyd Hirdymor (Standard & Poor's)	Gwerth Teg Buddsoddiadau 31.03.24 £'000	Gwerth Teg Buddsoddiadau 31.03.23 £'000
Goldman Sachs International Bank	F1	P-1	A-1	A+	A1	A+	-	7,500
Royal Bank of Scotland Call Account	F1	P-1	A-1	A+	A1	A+	2	2
Natwest Cash Manager Call Account	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	9,006	11,518
Loyds Bank Plc Call A/c Bank of ScotlanPlc - Call Account	F1	P-1	A-1	A+	A1	A+	7,593	
Natwest Cash Fixed Term Deposit	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	5,000	10,000
Nationwide BS	F1	P-1	A-1	A	A1	A+	5,000	-
Santander	F1	P-1	A-1	A+	A1	A	5,001	7,500
Wrexham County Borough Council	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	n/a	-	5,000
							<b>31,602</b>	<b>41,520</b>

## NODYN 36c - PROFFIL O BA BRYD Y MAE'R CYNGOR i FOD i AD-DALU BENTHYCIADAU

Mae Risg Hylifedd yn isel am nad yw'r Cyngor yn y gorffennol wedi cael unrhyw broblem cael cyllid ac mae'n rhydd i fynd at y Bwrdd Benthycia ar gyfer Gwaith Cyhoeddus (PWLb) fel corff i fenthycia oddi arno ar ôl methu fel arall. Prif nodau'r Strategaeth Rheoli Trysorlys yw i sicrhau bod yr Awdurdod yn agored i risg isel ac i sicrhau hylifedd. Mae'r rhan fwyaf o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn cyfrifon adneuo'n mynediad yn syth. Felly, mae llai o risg y bydd yn methu â chodi'r cyllid i gwrdd â'i ymrwymadau dan yr offerynnau ariannol.

Fodd bynnag, yn aml mae risg y bydd y Cyngor yn gorfod adnewyddu cyfran sylweddol o'i fenthyciadau ar adeg pan fo'r cyfraddau llog yn uchel. Byddai'r cyfraddau llog isel cyfredol yn gostwng cyfraddau llog ar fenthyciadau newydd a gymerir i ad-dalu'r ddyled sy'n aeddfedu. I gynorthwyo i gyflawni'r nod hwn, mae'r Cyngor yn defnyddio cynghorwyr rheoli'r trysorlys allanol.

Dangosir dadansoddiad aeddfedu benthyciadau sy'n sefyll yn Nodyn 36c isod. Mae holl daliadau masnachol a thaliadau eraill yn daladwy mewn llai na blwyddyn.

	2023/24 Prifswm Gweddillol £'000	2023/24 Llog wedi Cronni £'000	2023/24 Costio llai amorteiddiad cronedig £'000	2022/23 Prifswm Gweddillol £'000	2022/23 Llog wedi Cronni £'000	2022/23 Costio llai amorteiddiad cronedig £'000
>50 blwyddyn	-	-	-	-	-	-
34-50 blwyddyn	32,963	-	32,963	41,476	-	41,476
23-33 blwyddyn	50,251	-	50,251	41,738	-	41,738
15-22 blwyddyn	22,994	-	22,994	23,219	-	23,219
11-14 blwyddyn	2,162	-	2,162	2,422	-	2,422
7-10 blwyddyn	4,307	-	4,307	3,816	-	3,816
4-6 blwyddyn	3,493	-	3,493	5,620	-	5,620
1-3 blwyddyn	5,004	-	5,004	3,266	-	3,266
<b>Cyfanswm y Benthyciadau Tymor Hir</b>	<b>121,174</b>	<b>-</b>	<b>121,174</b>	<b>121,557</b>	<b>-</b>	<b>121,557</b>
<b>Cyfanswm Benthyciadau Tymor Byr (&lt; 1 blwyddyn)</b>	<b>1,236</b>	<b>2,105</b>	<b>3,341</b>	<b>2,243</b>	<b>1,868</b>	<b>4,111</b>
<b>Cyfanswm</b>	<b>122,410</b>	<b>2,105</b>	<b>124,515</b>	<b>123,800</b>	<b>1,868</b>	<b>125,668</b>

## NODYN 36ch – RISG Y FARCHNAD AC AMCANGYFRIF O EFFAITH CYNNYDD UN Y CANT MEWN CYFRADDAU LLOG AR ASED AU ARIANNOL

**Risg Cyfraddau Llog** – Mae'r Cyngor yn gwynebu risg posibl pan fo symudiadau ymhlith cyfraddau llog ar ei fenthyciadau a buddsoddiadau. Mae unrhyw symudiad yn y cyfraddau llog yn cael effaith gymhleth ar y Cyngor.

Er enghraifft, byddai cynnydd yn y cyfraddau llog yn cael yr effaith a ganlyn: -

- Benthyciadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn y treuliau llog a godir ar y Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr;
- Benthyciadau ar gyfraddau sefydlog – bydd gostyngiad yn rhwymedigaethau gwerth teg y benthyciadau;
- Buddsoddiadau ar gyfraddau amrywiol – byddai cynnydd yn yr incwm llog wedi'u gredydu i'r Gwarged neu Ddiffyg ar y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr; a
- Buddsoddiadau ar gyfraddau sefydlog - bydd gostyngiad yng ngwerth teg yr asedau.

Nid yw benthyciadau'n cael eu cario ar werth teg gan fod y rhain yn cael eu cario ar Gost Wedi'i Amorteiddio yn unol â chod CIPFA. Felly, ni fyddai enillion a cholledion nominal ar fenthyciadau cyfradd sefydlog yn effeithio ar y Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau nac Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall. Fodd bynnag, bydd newidiadau mewn llog sy'n daladwy ac sy'n dderbyniadwy ar fenthyciadau a buddsoddiadau cyfradd amrywiol yn cael eu postio i'r Gwarged neu'r Diffyg ar Ddarparu Gwasanaethau ac yn effeithio ar Gydbwysedd Cronfa'r Cyngor.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar gyfer rheoli risg cyfradd llog. Polisi'r Cyngor yw benthycia'n bennaf ar gyfraddau sefydlog, gan gael sicrwydd o ran llog sy'n daladwy dros gyfnod y benthyciadau. Mae'r Cyngor, gyda chefnogaeth ei gynghorwyr trysorlys, yn monitro'n barhaus y cyfraddau llog sy'n bodoli a rhagolygon y farchnad. Pe bai risg sylweddol o gynnydd sydyn mewn cyfraddau tymor hir a thymor byr, yna byddai sefyllfa'r portffolio yn cael ei hail-arfarnu a'r canlyniad tebygol fyddai y byddai cyllid cyfradd sefydlog yn cael ei dynnu i lawr tra bod cyfraddau llog yn dal i fod yn gymharol rad. Pe bai risg sylweddol o ostyngiad sydyn mewn cyfraddau tymor hir a thymor byr, yna byddai benthyciadau hirdymor yn cael eu gohirio a byddai unrhyw aildrefnu priodol o gyllid cyfradd sefydlog i gyllid cyfradd fer yn cael ei wneud.

Cedwir holl fenthyciadau cyfredol a hir dymor y Cyngor ar gyfraddau sefydlog. Mae hyn yn gymorth i leihau effaith newidiadau i gyfraddau banc ar y Cyngor. Mae Nodyn 36ch yn dangos effaith cynnydd o 1% yn y gyfradd llog ar werth teg Offerynnau Ariannol y Cyngor. Byddai gwerth y benthyciadau yn y Fantolen yn aros yr un fath oherwydd bod y cyfraddau llog yn cael eu pennu. Fodd bynnag, byddai'r gwerth teg yn gostwng. Byddai'r cynnydd yn y gyfradd yn cael effaith gadarnhaol ar adneuo n y Cyngor gan y byddai llog ychwanegol o £115k yn cael ei dderbyn pe bai cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog. Fodd bynnag, gan fod buddsoddiadau'r Cyngor yn dueddol o fan yn rhai term penodol sydd yn cynnig enillion uwch, tydi'r effaith cynnydd o 1% ddim yn cael ei gynnwys yn y ffigwr isod.

Effaith cynnydd o 1% mewn cyfraddau llog	£000
Cynnydd yn y llog sy'n dderbyniadwy o fuddsoddiadau	115
<b>Effaith ar Incwm a Gwariant Cynhwysfawr arall</b>	<b>115</b>
<b>Gostyngiad yng ngwerth teg ymrwymadau benthyciadau cyfradd sefydlog (dim effaith ar y Gwarged neu'r Diffyg o ran Darparu Gwasanaethau neu Incwm Cynhwysfawr arall)</b>	<b>15,393</b>

Mae'r Cyngor yn derbyn gwybodaeth a chyngor rheolaidd am y farchnad, Brexit, Covid-19 ac yn fwy diweddar, y rhyfel yn yr Wcrain gan ei ymgynghorwyr rheoli trysorlys.

Mae gan y Cyngor falansau arian parod digonol ac nid yw wedi cymryd unrhyw fenthyciadau PWLB yn ystod y flwyddyn. Fodd bynnag, mi wnaeth y Cyngor gymryd dau fenthyciad Salix a oedd yn benodol ar gyfer defnydd mwy effeithiol o ynni.

## **NODYN 37 – CYD-BWYLLGORAU A CHYLLIDEBAU CYFUN**

### **NODYN 37a – CYD-BWYLLGORAU**

#### **Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngor Gwynedd yn rhan o'r Pwyllgor Cynllunio ar y Cyd.

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol:-

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Pwyllgor-Polisi-Cynllunio-Ar-y-Cyd.aspx>

#### **GwE**

Mae Cyngor Sir Ynys Môn a Chyngorau Gwynedd, Conwy, Sir Y Fflint, Wrecsam a Sir Ddinbych yn rhan o gydbwyllgor GwE (Gwasanaeth Effeithiolrwydd a Gwella Ysgolion Rhanbarthol).

Cyngor Gwynedd sy'n gyfrifol am redeg y pwyllgor hwn, ac mae'r balansau diwedd blwyddyn wedi eu cynnwys yn eu Mantolen. Gellir edrych ar gyfrifon y pwyllgor drwy'r ddolen ganlynol:-

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Cyd-bwyllgor-GwE.aspx>

#### **Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru**

Mae'r Cyngor yn rhan o Fwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru sy'n cynnwys cynrychiolwyr o bob un o chwe awdurdod lleol Gogledd Cymru. Un o rolau allweddol y pwyllgor hwn yw cydgysylltu'r gwaith o gynllunio a chyflawni'r weledigaeth ar gyfer twf yng Ngogledd Cymru, gan roi pwyslais cychwynnol ar y Fargen Dwf. Mae'r Fargen Dwf yn becyn cyllid gan y Llywodraeth Ganolog a Llywodraeth Cymru, gyda chyllideb o £240m i gyflawni prosiectau ledled Cymru i sicrhau twf cynaliadwy ac economaidd.

Gellir dod o hyd i wybodaeth ychwanegol am y Cyd-bwyllgor ar wefan Cyngor Gwynedd yn y cyfeiriad/dolen ganlynol ar y we:-

<https://www.gwynedd.llyw.cymru/cy/Cyngor/Perfformiad-a-gwariant/Cyllidebau-a-gwariant/Datganiad-or-cyfrifon/Bwrdd-Uchelgais-Economaidd-Gogledd-Cymru.aspx>

#### **Parc Adfer (Prosiect Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru)**

Daeth Parc Adfer yn weithredol yn llawn yn ystod 2019/20. Mae'r costau gwasanaeth i'w gweld yn rhan Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo yn y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr. Cyngor Sir y Fflint sy'n gweithredu fel yr awdurdod arweiniol ar y prosiect yma. Gellir gweld copi o gyfrifon 2022/23 gan ddefnyddio'r isod (eitem 6):-

[Agenda for Cyd-bwyllgor Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru on Dydd Llun, 30ain Hydref, 2023, 2.00 pm \(sirfflint.gov.uk\)](https://www.sirfflint.gov.uk)

#### **Cydbwyllgor Corfforedig Gogledd Cymru (CBC Gogledd Cymru)**

Sefydlwyd CBC Gogledd Cymru yn ystod 2021/22 ac yn cynnwys y chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru ynghyd â Pharc Cenedlaethol Eryri. Mae'r cydbwyllgor yma'n gyfrifol am waith cynllunio datblygu strategol, gwaith cynllunio trafndiaeth ranbarthol a hyrwyddo llesiant economaidd Gogledd Cymru. Cyfranodd Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer £76k 2023/24 (2022/23 £36k). Gellir gweld Datganiad o'r Cyfrifon yma:

Mae Cyngor Sir Ynys Môn hefyd yn rhan o amryfal drefniadau ar y cyd gyda Chynghorau cyfagos yng Ngogledd Cymru a Llywodraeth Cymru'r Bwrdd Iechyd fel a ganlyn:-

- Gwasanaeth Mabwysiadu Gogledd Cymru (Arweinydd: Wrecsam. Partïon: Sir Y Fflint, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Mwynau a Gwastraff (Arweinydd: Sir Y Fflint. Partïon: Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Gwasanaeth Cynllunio Argyfwng Rhanbarthol (Arweinydd: Sir Y Fflint, Partïon Wrecsam, Sir Ddinbych, Conwy, Gwynedd);
- Galw Gofal (Arweinydd: Conwy. Partïon: Gwynedd, Sir y Fflint);
- O dan reoliad 19 (1) o Reoliadau Trefniadau Partneriaeth (Cymru) 2015, cytunwyd ar drefniant cyllideb gyfun rhwng awdurdodau lleol Gogledd Cymru a Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (gweler Nodyn 37b);
- Stâd Diwydiannol Penrhos – Trefniant ar y cyd ers 2020/21 gyda Llywodraeth Cymru, lle mae 16% o'r incwm rhent net yn cael ei gadw gan y Cyngor a'r gweddill yn cael ei drosglwyddo i Llywodraeth Cymru.

Gwasanaethau Cyfiawnder Ieuencid Gwynedd a Môn	Gary Pritchard
Pwyllgor Cronfa Bensiynau Gwynedd (Cyngor Gwynedd)	Robin Wyn Williams
Cyngor Cyswilt Cymru WLGA	Carwyn Jones, Robin Wyn Williams
Medrwn Môn	Llinos Medi
Bwrdd Aelodau Consortiwm Awdurdodau Lleol Cymru (CLAW)	Dafydd Rhys Thomas
Menter Môn	Llinos Medi
Cyd-Bwyllgor Cefnffyrdd Gogledd a Chanolbarth Cymru	Dafydd Rhys Thomas
Cyngor Iechyd Cymuned Gogledd Cymru (Pwyllgor Lleol Môn)	Trefor Lloyd Hughes MBE, Non Dafydd, Jeff M Evans
Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru	Llinos Medi
Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jeff M Evans, John Ifan Jones, Dylan Rees
Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	Jeff M Evans
Panel Gweithredol Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru	John Ifan Jones, Dylan Rees
Cymdeithas Tai Gogledd Cymru	Gary Pritchard
Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru	Non Dafydd
Bwrdd Arweinyddiaeth Gogledd Cymru (Gofal a Llesiant)	Llinos Medi

**DATGELIAD PARTI CYSYLLTIEDIG – CYNRYCHIOLAETH CYDRANDDEILIAID GYDA SEFYDLIADAU TRYDYDD PARTI**

Grŵp Llywio Adolygiad Cynllun Gwastraff Rhanbarthol Gogledd Cymru	Dafydd Rhys Thomas
Cyd-bwyllgor Trin Gwastraff Gweddilliol Gogledd Cymru	Nicola Roberts, Dafydd Rhys Thomas
Partneriaeth Twristiaeth Gogledd Cymru	Neville Evans
Ymddiriedolaeth Addysgol Owen Lloyd, Penrhoslligwy	Margaret Murley Roberts
Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus (Môn a Gwynedd)	Llinos Medi
Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol (Rhan 9 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant Cymru 2014)	Gary Pritchard, Alun Roberts
Bwrdd Partneriaeth Gogledd Cymru Mwy Diogel	Alun Roberts
Partneriaeth Cronfa Datblygu Cynaliadwy	Llinos Medi
Ymddiriedolaeth yr Harbwr, Caernarfon	Dafydd Rhys Thomas
Pwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol	Jeff M Evans, Gwilym O Jones, Jackie Lewis, Keith Roberts, Arfon Wyn
Cymdeithas Awdurdodau Lleol Cymru	Llinos Medi, Robin Wyn Williams
Grŵp Rhanddeiliad y Safle Wylfa	Aled Morris Jones, Gwilym O Jones, Jackie Lewis, Llinos Medi, Llio Angharad Owen, Derek Owen, Liz Wood

## GEIRFA

### ADDASIAD BLWYDDYN FLAENOROL

Mae Addasiad Blwyddyn Flaenorol yn addasiad perthnasol sy'n ymwneud â'r blynyddoedd blaenorol sy'n deillio o newidiadau mewn polisïau cyfrifo neu gywiriad i gamgymeriadau sylfaenol. Nid yw hyn yn cynnwys cywiriadau cylchol arferol neu addasiadau o amcangyfrifon cyfrifo a wnaed mewn blynyddoedd blaenorol.

### ADNODDAU HYLIFOL

Buddsoddiadau ased cyfredol sy'n rhwydd i'w gwaredu gan y Cyngor heb aflonyddu ar ei fusnes ac sydd naill ai:-

- Yn drosglwyddadwy'n hawdd i symiau hysbys o arian parod ar, neu'n agos at, y swm a gludir; neu
- Yn cael eu masnachu mewn marchnad weithredol.

### AMHARIAD

Lleihad mewn gwerth ased anghyfredol dan ei swm a gludir yn y Fantolen. Fel arfer, mae hyn oherwydd digwyddiad sydd wedi gostwng gwerth ased yn sylweddol, er enghraifft tân neu os mae ased wedi darfod.

### ARIAN A NEILLTUIR (APPROPRIATION)

Y symiau a drosglwyddir rhwng y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a'r cronfeydd refeniw neu gyfalaf wrth gefn.

### ARCHWILIO CYFRIFON

Archwiliad annibynnol o faterion ariannol y Cyngor.

### ARIAN A CHYWERTHOEDD ARIAN

Dyma'r arian mewn llaw, arian a ordynnwyd, arian a ddelir mewn cyfrifon banc a buddsoddiadau tymor byr (e.e. 3 mis) ac y gellir eu trosi'n rhwydd i symiau ariannol sy'n hysbys.

### ASED

Eitem sydd â gwerth i'r Cyngor mewn termau ariannol. Mae asedau'n cael eu categoreiddio fel rhai cyfredol neu rhai nad ydynt yn gyfredol:-

- Bydd ased cyfredol yn cael ei ddefnyddio neu â gwerth isel iawn yn y flwyddyn ariannol nesaf (e.e. arian parod a stoc);
- Mae asedau anghyfredol yn rhoi buddiannau i'r Cyngor ac i'r gwasanaethau mae'n darparu ar eu cyfer am gyfnod o fwy na blwyddyn a gall fod yn ddiriaethol (e.e. canolfan gymuned), neu annirweddol (e.e. trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol).

### ASED WRTH GEFN

Mae ased wrth gefn yn ased posib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor.

### ASEDAU ANNIRIAETHOL

Gellir diffinio eitem anniriaethol (nid un ffisegol) fel ased pan fo'r mynediad at fuddiannau economaidd i'r dyfodol y mae'n ei gynrychioli'n cael ei reoli gan yr endid adrodd. Mae Asedau Anniriaethol y Cyngor hwn yn cynnwys trwyddedau meddalwedd cyfrifiadurol.



### **ASEDAU CYMUNEDOL**

Asedau mae'r Cyngor yn bwriadu eu dal am byth, nad oes iddynt oes ddefnyddiol benodadwy ac a all fod â chyfyngiadau ar eu gwaredu. Enghreifftiau o asedau cymunedol yw parciau ac adeiladau hanesyddol.

### **ASEDAU ISADEILEDD**

Asedau anghyfredol sy'n perthyn i'r Cyngor na ellir eu trosglwyddo na'u gwerthu, y mae gwariant yn adferadwy yn unig drwy ddefnydd parhaus o'r ased a grëwyd. Enghreifftiau yw priffyrdd, llwybrau a phontydd.

### **ASEDAU GWEITHREDOL**

Asedau anghyfredol sy'n cael eu dal a'u meddiannu, defnyddio neu eu treulio gan y Cyngor wrth iddo ddilyn ei strategaeth ac wrth gyflenwi'n uniongyrchol y gwasanaethau hynny y mae ganddo gyfrifoldeb drostynt naill ai'n statudol neu'n ddewisol.

### **ASEDAU NAD YDYNT YN WEITHREDOL**

Asedau anghyfredol a ddelir gan y Cyngor ond nad ydynt yn cael eu meddiannu, defnyddio neu eu treulio'n uniongyrchol wrth gyflenwi gwasanaethau. Enghreifftiau yw eiddo buddsoddiad, asedau yn cael eu hadeiladu neu asedau gwargred i anghenion tra'n disgwyl eu gwerthu neu ailddatblygu.

### **ASEDAU TREFTADAETH**

Ased sydd hefo rhinweddau hanesyddol, artistig, gwyddonol, technolegol, geoffisegol neu amgylcheddol sydd yn cael ei ddal a'i gynnal yn bennaf am ei gyfraniad at wybodaeth a diwylliant.

### **BENTHYCA DI-GEFNOGAETH**

Gall y Cyngor fenthycu arian ychwanegol i'r benthyca â chefnogaeth y Llywodraeth i gyllido ei wariant cyfalaf cyn belled a'i fod yn fforddiadwy a chynaliadwy. Fe lywodraethir y pŵer yma gan Gôd Pwyllog CIPFA, a mae'r Cyngor yn lwyr gydymffurfio â hwn.

### **BENTHYCA DROS DRO**

Arian a fenthycir am gyfnod o lai na blwyddyn.

### **BENTHYCA GYDA CHEFNOGAETH**

Mae'r Cyngor yn benthyca arian i gyllido rhan o'i raglen cyfalaf. Fe adnabyddir y benthycaid gan Lywodraeth Ganolog yn ei glandriad cyllido ar gyfer y Cyngor.

### **BUDD-DALIADAU TAI**

System o gymorth ariannol i unigolion tuag at gostau tai penodol a weinyddir gan awdurdodau, gyda chymhorthdal gan lywodraeth ganolog.

### **BUDDIANNAU Â DISGRESIWN (PENSIYNAU)**

Buddiannau ymddeoliad, nad oes gan y cyflogwr unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol, gytundebol neu adeiladol i'w dyfarnu, ac sy'n cael eu dyfarnu'n ôl pwerau dewisol y Cyngor fel y Rheoliadau Llywodraeth Leol (Taliadau Dewisol) 1996.

### **BUDDIANNAU YMDDEOLIAD**

Bob ffurf o gydnabyddiaeth a roddir gan gyflogwr yn lle gwasanaethau a gyflenwyd gan weithwyr sy'n daladwy ar ôl terfyn y gyflogaeth.

### **BUDDSODDIADAU (CRONFA BENSIWN)**

Bydd buddsoddiadau'r Gronfa Bensiwn yn cael eu cyfrifo yn natganiadau'r gronfa honno. Fodd bynnag, mae'n ofynnol hefyd ar awdurdodau i ddatgelu, fel rhan o ofynion datgelu sy'n ymwneud â buddiannau ymddeoliad, cyfran o asedau'r cynllun pensiwn sy'n gysylltiedig â'u rhwymedigaethau gwaelodol.

## **BUSNES HYFYW**

Y cysyniad fod y Datganiad Cyfrifon yn cael ei baratoi ar y dybiaeth y bydd y Cyngor yn parhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol rhagweladwy.

### **BWRDD BENTHYCIADAU GWEITHIAU CYHOEDDUS (PWLB)**

Asiantaeth Llywodraeth Ganolog sy'n rhoi benthyciadau am flwyddyn a/neu fwy i awdurdodau ar raddfeydd llog sydd ond ychydig yn uwch na'r rheini y gall y llywodraeth fenthycu ei hun.

### **CIPFA**

Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifo. Y prif gorff proffesiynol a rheoleiddiol ar gyfer cyfrifon llywodraeth leol.

### **COLLEDION CREDYD**

Hwn yw'r gwahaniaeth rhwng y symiau arian sy'n ddyledus i'r Awdurdod yn unol â'r contract a'r holl lif arian ddisgwyllir i'r Awdurdod ei dderbyn, wedi ei ddisgowntio ar y raddfa llog effeithiol gwreiddiol.

### **COLLEDION CREDYD DISGWYLIEDIG 12 MIS**

Hwn yw'r cyfran o golledion credyd disgwyliedig oes gyfan sy'n cynrychioli'r colledion credyd disgwyliedig sy'n deillio o ddiffyg offeryn ariannol sy'n bosib o fewn deuddeng mis ar ôl y dyddiad adrodd.

### **CONTRACT TYMOR HIR**

Contract a ffurfir ar gyfer dylunio, cynhyrchu neu adeiladu ased sylweddol unigol neu ddarpariaeth gwasanaeth (neu gyfuniad o asedau neu wasanaethau sydd, gyda'i gilydd, yn ffurfio prosiect unigol), ble bo'r amser a gymerir i gwblhau'n sylweddol y contract o'r fath fel ei fod yn disgyn i mewn i fwy nag un flwyddyn ariannol.

### **COST GWASANAETH CYFREDOL (PENSIYNAU)**

Y cynnydd mewn gwerth cyfredol o rwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y disgwyllir iddo ddeillio o wasanaeth gweithiwr yn y flwyddyn bresennol.

### **COST GWASANAETH YN Y GORFFENNOL (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y cynnydd yng ngwerth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun sy'n gysylltiedig â gwasanaeth gweithiwr mewn blynyddoedd ariannol blaenorol sy'n deillio yn y flwyddyn ariannol bresennol o ganlyniad i gyflwyno neu wella buddiannau ymddeoliad.

### **COSTAU HEB EU DOSBARTHU**

Dyma orbenion nad yw unrhyw ddefnyddiwr yn cael budd ohonynt yn awr ac, fel y cyfryw, nid ydynt yn cael eu dosrannu i wasanaethau.

### **COST LLOG (PENSIYNAU)**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig, y cynnydd disgwyliedig yn ystod y flwyddyn ariannol o werth cyfredol rhwymedigaethau'r Cynllun oherwydd bod y buddiannau yn un flwyddyn ariannol yn agosach at setliad.

### **CORFFORAETHOL A DEMOCRATAIDD CRAIDD**

Mae'r Corfforaethol a Democrataidd Craidd yn cynnwys yr holl weithgareddau penodol y mae awdurdodau lleol yn ymgymryd â nhw oherwydd eu bod yn awdurdodau etholedig, amlbwrpas. Felly, mae cost y gweithgareddau hyn yn uwch na phe byddai cyfres o gyrff annibynnol, un pwrpas, enwebedig yn rheoli'r un gwasanaethau. Felly, nid oes sail resymol dros ddyrannu'r costau hyn i wasanaethau.

### **COSTAU CYLLIDO CYFALAF**

Costau cyllido cyfalaf yw unrhyw gostau ychwanegol sy'n deillio o fenthycu i gyllido prosiectau cyfalaf. Tuedda rhain i fod y llog sy'n daladwy ar fenthyciadau a gymerir a'r gost Darparieth Refeniw Isaf (MRP) a godir ar gyllid prosiectau drwy fenthyciadau. Y MRP yw'r isafswm mae'n rhaid codi i'r cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn daparu ar gyfer ad-dalu benthyciadau a symiau arall fenthycwyd gan y Cyngor.

### **CREDYDWR**

Swm sy'n ddyledus i unigolion neu sefydliadau eraill gan y Cyngor am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol honno.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN**

Croniad gwaged, diffygion a meddiannau dros y blynyddoedd diwethaf. Mae cronfeydd wrth gefn o natur refeniw ar gael a gellir eu gwario neu eu clustnodi ar ddisgresiwn y Cyngor. Ni ellir defnyddio peth cronfeydd wrth gefn cyfalaf, fel y Gronfa Ailbrisió Wrth Gefn, i gwrdd â gwariant cyfredol.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN DEFNYDDIADWY**

Symiau penodol a osodir o'r neilltu ar gyfer pwrpasau polisi'r dyfodol neu ar gyfer digwyddiadau annisgwyl. Gall eu defnyddio i gyllido gwariant neu i leihau trethi.

### **CRONFEYDD WRTH GEFN NA ELLIR EU DEFNYDDIO**

Y cronfeydd wrth gefn a ddefnyddir i amsugno'r gwahaniaeth rhwng y canlyniad o ddefnyddio ymarferion cyfrifo cywir â gofyniad trefniadau statudol ar gyfer cyllido gwariant. Mae cronfeydd wrth gefn o'r fath yn cynnwys enillion a cholledion heb eu gwireddu mewn perthynas ag ail-brisio eiddo, offer a chyfarpar ble mae rhaid gwerthu'r ased cyn i'r gwerth fod ar gael.

### **CRONFEYDD YMDDIRIEDOLAETH**

Cronfeydd a weinyddir gan y Cyngor i bwrpasau fel gwobrwyon, elusennau, prosiectau penodol ac ar ran plant dan oed.

### **CRONIADAU**

Symiau a gynhwysir yn y cyfrifon terfynol i gydnabod nwyddau/gwasanaethau a dderbyniwyd yn y flwyddyn neu incwm a gwariant a enillwyd neu yr aethpwyd iddo yn y flwyddyn ariannol, ond nad oedd taliad gwirioneddol wedi ei dderbyn neu ei wneud ar ei gyfer ar 31 Mawrth.

### **CYDNABYDDIAETH ARIANNOL**

Yr holl symiau a delir i, neu sy'n dderbyniadwy gan, weithiwr a symiau sy'n ddyledus trwy lwfansau treuliau (cyn belled ag y mae'r symiau hynny'n daladwy yn nhreth incwm y DU) a gwerth ariannol unrhyw fuddiannau eraill a dderbyniwyd heblaw mewn arian parod. Mae cyfraniadau pensiwn sy'n daladwy gan y cyflogwr yn cael eu heithrio.

### **CYFNOD CYFRIFO**

Y cyfnod o amser a gynhwysir yn y cyfrifon, fel arfer cyfnod o ddeuddeng mis yn cychwyn ar 1 Ebrill. Diwedd y cyfnod cyfrifo yw dyddiad y Fantolen, fel arfer 31 Mawrth y flwyddyn ddilynol.

### **CYFRIF REFENIW TAI (CRT)**

Cyfrif ar wahân i Gronfa'r Cyngor, sy'n cynnwys yr incwm a gwariant sy'n deillio o'r ddarpariaeth llety tai gan y Cyngor.

### **CYLLIDEB**

Datganiad o faint o gyllid y mae'r Cyngor wedi ei neilltuo i bob gwasanaeth a swyddogaeth i'w wario neu ei godi mewn incwm ar gyfer y flwyddyn ariannol.

### **CYLLIDO CYFALAF**

Cyllid sydd ar gael i dalu am wariant cyfalaf. Mae nifer o ffyrdd o gyllido gwariant cyfalaf yn cynnwys benthyca, prydlesu, cyllido refeniw uniongyrchol, derbyniadau cyfalaf defnyddiadwy, grantiau cyfalaf, cyfraniadau cyfalaf, cronfeydd wrth gefn refeniw a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.

### **CYNLLUN PENSIWN BUDDIANNAU DIFFINIEDIG**

Cynlluniau pensiwn ble bo buddiannau a dderbynnir gan y cyfranogwyr yn annibynnol ar y cyfraniadau a dalwyd, ac nad ydynt yn uniongyrchol gysylltiedig â buddsoddiadau'r cynllun.

### **CYSONDEB**

Y cysyniad fod triniaeth gyfrifo o eitemau tebyg o fewn blwyddyn ariannol ac o un flwyddyn i'r nesaf yr un fath.

### **DADANSODDIAD GWARIANT A CHYLLIDO**

Mae'r datganiad yn anelu i ddangos sut defnyddir gwariant blynyddol a sut y'i gyllidiri o adnoddau. Dangosa'r golofn gynta, y gwariant net a godir i'r Gronfa Gyffredinol a balansau'r CRT, y gwir effaith o'r gost o ddarparu gwasanaethau am y flwyddyn, ac eithrio addasiadau cyfrifo.

## **DATGANIAD O'R SYMUDIAD MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN**

Dangosir y datganiad y symudiad o gychyn y flwyddyn i'w diwedd ar gyfer yr holl gronfeydd wrth gefn ddefnyddiadwy a ddelir gan y Cyngor ac y gellir eu defnyddio i gyllido costau'r Cyngor neu i leihau trethiant lleol, ynghyd â chronfeydd wrth gefn nad oes modd eu defnyddio.

## **DARPARIAETH**

Swm a osodir o'r neilltu yn y cyfrifon ar gyfer rhwymedigaethau neu golledion i'r dyfodol sy'n sicr neu'n debygol iawn, o ddigwydd ond bod y symiau neu'r dyddiadau pryd y byddant yn digwydd yn ansicr.

## **DATGANIAD INCWM A GWARIANT CYNHWYSFAWR**

Un o brif ddatganiadau ariannol y Cyngor sy'n cofnodi'r holl incwm a gwariant ar gyfer y Cyngor wedi ei gategoreiddio'n unol â gofynion safonol CIPFA fel y gellir cymharu awdurdodau.

## **DATGANIAD LLIF ARIAN**

Mae'r datganiad llif arian yn dangos y newidiadau yn yr arian a'r cywerthoedd ariann sydd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol.

## **DERBYNIADAU CYFALAF**

Yr elw o waredu tir neu asedau anghyfredol. Gellir defnyddio cyfrannau o dderbyniadau cyfalaf i gyllido gwariant cyfalaf newydd, o fewn y rheolau a osodir i lawr gan y llywodraeth, ond ni ellir eu defnyddio i gyllido gwariant refeniw.

## **DIBRISIANT**

Mesur o'r gost o wisgo allan, defnyddio neu fel arall leihau oes economaidd ddefnyddiol asedau anghyfredol y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol, p'un a yw hynny o ddefnydd, treuliant amser neu ddarfodiad trwy newidiadau technegol neu rai eraill.

## **DIGWYDDIADAU AR ÔL DYDDIAD Y FANTOLEN**

Digwyddiadau ar ôl dyddiad y Fantolen yw'r digwyddiadau hynny, ffafriol neu anffafriol, sy'n digwydd rhwng dyddiad y Fantolen a'r dyddiad yr awdurdodir cyhoeddi'r Datganiad Cyfrifon Terfynol.

## **DYCHWELIAD DISGWYLIEDIG AR ASEDAU PENSIWN**

Ar gyfer cynllun buddiannau diffiniedig a gyllidir, hwn yw'r raddfa dychweliad ar gyfartaledd, yn cynnwys incwm a newidiadau mewn gwerth teg ond yn net o dreuliau cynllun, a ddisgwylir dros weddill oes y rhwymedigaeth gysylltiedig ar yr asedau gwirioneddol a ddelir gan y cynllun.

## **DYLED NET**

Benthyciadau'r Cyngor llai arian parod ac adnoddau hylifol.

## **DYLEDWR**

Swm sy'n ddyledus i'r Cyngor gan unigolion neu sefydliadau eraill am waith a wnaed, nwyddau a dderbyniwyd neu wasanaethau a gyflenwyd yn ystod y flwyddyn ariannol, ond na thalwyd amdanynt cyn diwedd y flwyddyn ariannol.

## **ENILLION A CHOLLEDION ACTIWARIAID**

I gynllun pensiwn buddiannau diffiniedig, y newidiadau mewn gwarged neu ddiffyg actiwaraidd sy'n codi oherwydd: -

- Nad yw digwyddiadau wedi cyd-fynd â'r tybiaethau actiwarïaid a wnaethpwyd i'r prisiant diwethaf (enillion a cholledion profiad); neu
- Fod y tybiaethau actiwarïaid wedi newid.

## **GRANT CYNNAL REFENIW**

Grant a delir gan Lywodraeth Ganolog i awdurdodau, yn cyfrannu tuag at gost gyffredinol eu gwasanaethau.

## **GRANTIAU LLYWODRAETH**

Grantiau a wneir gan y llywodraeth tuag at naill ai wariant refeniw neu gyfalaf gan ddisgwyl cydymffuriad yn y gorffennol neu i'r dyfodol gyda rhai amodau penodol sy'n ymwneud â gweithgareddau'r Cyngor. Gall y grantiau hyn fod yn benodol i gynllun neilltuol neu gall gefnogi gwariant refeniw'r Cyngor yn gyffredinol.

### **GWAITH YN MYND YN EI FLAEN (WIP)**

Cost gwaith a berfformir ar brosiect heb ei offen ar ddyddiad y Fantolen.

### **GWARIANT CYFALAF**

Gwariant ar brynu ased anghyfredol, a ddefnyddir i ddarparu gwasanaethau tu draw i'r flwyddyn ariannol gyfredol, neu wariant sy'n ychwanegu at, ac nid cynnal yn unig, werth ased presennol anghyfredol. Mae enghreifftiau'n cynnwys : adeiladu ysgol newydd, prynu offer TG, adnewyddu sylweddol cartref gofal.

### **GWARIANT REFENIW**

Treuliau dydd i ddydd o ddarparu gwasanaethau.

### **GWARIANT REFENIW A GYLLIDIR O GYFALAF O DAN STATUD (REFCUS)**

Gwariant y gellir ei ohirio'n gywir (h.y. ei drin fel cyfalaf o ran natur) ond nad yw'n arwain at, neu'n parhau i gyd weddu ag, ased diriaethol. Enghreifftiau o daliadau gohiriedig yw grantiau o natur cyfalaf i sefydliadau gwirfoddol.

### **GWASANAETHAU ASIANTAETH**

Y Gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor i drydydd parti neu ar ran sefydliad arall.

### **GWERTH GWEDDILLIOL**

Gwerth net ased y gellir ei wireddu ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol.

### **GWERTH LLYFR NET**

Y swm y mae asedau anghyfredol yn cael eu cynnwys yn y Fantolen, h.y. eu costau hanesyddol neu werth cyfredol llai'r symiau cronus ar gyfer dibrisiant.

### **GWERTH NET**

Gwerth y Cyngor o gyfanswm asedau llai cyfanswm rhwymedigaethau.

### **GWERTH TEG**

Gwerth teg ased yw'r pris y gellid ei gyfnwid amdano mewn trafodion hyd braich, llai, ble bo'n berthnasol, unrhyw grantiau derbyniadwy tuag at brynu neu ddefnyddio'r ased.

### **GWERTH TRETADWY**

Rhent tybiedig blynyddol hereditament, a ddefnyddir i bwrpasau Trethi Annomestig.

### **ISAFSWM DARPARIAETH REFENIW (MRP)**

Yr isafswm sydd raid ei godi ar y cyfrif refeniw bob blwyddyn er mwyn darparu ar gyfer ad-daliad benthyciadau a symiau eraill a fenthycir gan y Cyngor.

### **LLOG A DDERBYNNIR NEU A DELIR**

Defnyddir y dull gyfradd log sydd mewn grym gweithredol i fesur beth yw gwerth cludadwy ased ariannol neu rywmedigaethau a fesurir yn ôl y gost lai amorteiddio cronedig, ac i ddyrannu incwm neu dreuliau cysylltiedig i'r cyfnod perthnasol. Y gyfradd log sydd mewn grym yw hwnnw sy'n rhoddi disgownt cysáct ar y taliadau arian parod neu'r derbyniadau amcangyfrifedig yn y dyfodol dros oes ddisgwyledig yr offeryn ariannol yn ôl y swm a gafodd ei gydnabod iddo'n y lle cyntaf. Mae'r gyfradd log sydd mewn grym yn cael ei diwygio yn ôl y tâl llog neu'r derbyniadau gwirioneddol trwy'r Datganiad Symudiadau yn y Cronfeydd wrth Gefn i sicrhau mai dim ond llog gwirioneddol a godir yn erbyn y Dreth Gyngor.

Yn achos asedau a rhywymedigaethau ariannol a gludwyd yn ôl y gost gan fod y llog sydd mewn grym yr un faint â'r llog cludo, mae'r gwerth cludo'n cael ei ddiwygio ar gyfer llog cronus.

### **MATEROLDEB**

Y cysyniad y dylai'r Datganiad Cyfrifon gynnwys yr holl symiau y gellid disgwyl iddynt, pe gadewid hwy allan neu eu cam-ddatgan, arwain at lurguniad o'r datganiadau ariannol ac, yn y pen draw, gamarwain defnyddiwr y cyfrifon.

### **OES ECONOMAIDD DDEFNYDDIOL (UEL)**

Y cyfnod dros yr hwn y bydd y Cyngor yn cael buddiannau o ddefnydd ased anghyfredol.

## **PARTIÖN CYSYLLTIEDIG**

Ceir diffiniad manwl o Bartion Cysylltiedig yn SCRh 24. i bwrpasau'r Cyngor, ystyrir fod partiön cysylltiedig yn cynnwys Llywodraeth Ganolog, Awdurdodau Lleol a chyrff arall, sy'n codi un ai praeseptau neu ardollau ar y Cyngor. Gall partiön cysylltiedig hefyd gynnwys is-gwmnïau a chwmnïau cysylltiedig, a cydfenter a phartiön cydfenter ac yn enwedig Aelodau a phrif swyddogion y Cyngor.

Pan yn ystyried pwy sy'n barti cysylltiedig, rhoddir sylw hefyd i drafodion yn gysylltiedig ag aelodau teulu agos neu gartref unrhyw unigolyn a restrir.

## **PRAESEPT**

Yr ardoll a wneir gan awdurdodau praesept ar awdurdodau bilio, sy'n ei gwneud yn ofynnol ar i'r olaf gasglu incwm y Dreth Gyngor ar eu rhan.

## **PRYDLES ARIANNOL**

Prydles sy'n trosglwyddo'n sylweddol risgiau a gwobrwyon perchnogaeth ased anghyfredol i'r prydleswr.

## **PRYDLES WEITHREDOL**

Prydles ble mae'r berchnogaeth o'r ased anghyfredol yn aros gyda'r prydleswr.

## **RHAGLEN GYFALAF**

Y cynlluniau cyfalaf mae'r Cyngor yn bwriadu eu cynnal dros gyfnod penodol o amser.

## **RHESTRAU STOC**

Eitemau o ddeunyddiau crai a deunyddiau mae'r Cyngor wedi eu caffael ac sy'n cael eu dal gan ddisgwyll defnydd i'r dyfodol. Enghreifftiau yw deunyddiau traul, deunyddiau crai a gwaith sy'n mynd yn ei flaen.

## **RHWYMEDIGAETH**

Rhwymedigaeth yw pan fo gan y Cyngor ddyled i'w thalu i unigolyn neu sefydliad arall.

- Mae rhwymedigaeth gyfredol yn swm a fydd yn dod yn daladwy neu y gellid ei galw i mewn yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, e.e. credydwyr neu arian parod wedi'u gordynnu.
- Mae rhwymedigaeth ohiriedig yn swm sydd, drwy drefniant, yn daladwy tu draw i'r flwyddyn nesaf ar ryw bwynt yn y dyfodol neu i'w dalu i fwrdd trwy swm blynyddol dros gyfnod o amser.

## **RHWYMEDIGAETH WRTH GEFN**

Mae rhwymedigaeth wrth gefn naill ai'n:-

- Rhwymedigaeth bosib sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol y bydd eu bodolaeth yn cael ei chadarnhau dim ond trwy ddigwyddiad o un neu fwy o ddigwyddiadau ansicr yn y dyfodol nad ydynt yn llwyr o fewn rheolaeth y Cyngor; neu'n
- Rhwymedigaeth bresennol sy'n deillio o ddigwyddiadau yn y gorffennol ble nad yw'n debygol y bydd angen trosglwyddiad o fuddiannau economaidd, neu na ellir mesur swm y rhwymedigaeth gyda dibynadwyedd digonol.

## **RHWYMEDIGAETHAU'R CYNLLUN PENSIWN**

Rhwymedigaethau cynllun pensiwn buddiannau diffiniedig ar gyfer treuliau sy'n ddyledus ar ôl y dyddiad prisiant. Mae rhwymedigaethau'r cynllun a fesurir yn ystod y dull uned a ragamcendir yn adlewyrchu'r buddiannau mae'r cyflogwr wedi ymrwymo i'w darparu am wasanaeth hyd at y dyddiad prisiant.

## **TRETHI ANNOMESTIG (TA)**

Mae'r Trethi Annomestig yn ardoll ar fusnesau wedi'i seilio ar raddfa genedlaethol yn y bunt a osodir gan y llywodraeth a'i luosi gan werth trethadwy asesedig yr eiddo dan sylw. Caiff ei gasglu gan y Cyngor ar ran llywodraeth ganolog ac yna ei aiddosbarthu'n ôl i gefnogi cost gwasanaethau.

## **TRAFODION PARTIÖN CYSYLLTIEDIG**

Mae'r Datganiad o Ymarfer a Argymhellir yn gwneud datgeliad o unrhyw drafodion perthnasol rhwng y Cyngor a Phartiön Cysylltiedig yn ofynnol er mwyn sicrhau fod cydranddeiliaid yn ymwybodol pryd mae'r trafodion hyn yn digwydd a'r swm a goblygiadau hynny.

## **Y FANTOLEN**

Datganiad o werth cywir a theg o'r asedau, rhwymedigaethau a balansau eraill cofnodedig ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.



# Datganiad Llywodraethu Blynyddol 2023/24

Tudalen 139

**Paratowyd gan:** Gwasanaeth Trawsnewid

**Dyddiad cyhoeddi:** Tachwedd 2024

This document is available in English / Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg

## Cynnwys

Sgôp y Cyfrifoldeb.....	3
Y Fframwaith Llywodraethu .....	3
Adolygu Effeithiolrwydd.....	4
Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor.....	5
Casgliad yr Asesiad .....	5
Datganiadau'r Swyddogion Statudol .....	6
Materion Llywodraethiant a nodwyd.....	8
Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd .....	8
Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2023/24 .....	10
Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol .....	13
Atodiad 1.....	14
Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019).....	14
Materion Llywodraethu Sylweddol.....	15



## Sgôp y Cyfrifoldeb

Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gyfrifol am sicrhau bod ei fusnes yn cael ei weithredu'n unol â'r gyfraith a'r safonau priodol, a bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu a'i gyfrif amdano'n briodol, a sut mae'n cael ei ddefnyddio.

Hefyd mae dyletswydd ar y Cyngor dan y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 i wneud trefniadau i sicrhau bod gwelliant parhaus o ran y modd y mae'n gweithredu ei swyddogaethau, gan ystyried cyfuniad o economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd.

Wrth gyflawni'r cyfrifoldeb cyffredinol hwn, mae'r Cyngor hefyd yn gyfrifol am roi yn eu lle drefniadau priodol ar gyfer llywodraethu ei faterion, gan hwyluso gweithrediad effeithiol ei swyddogaethau, ac mae hynny'n cynnwys trefniadau i reoli risg, a rheolaeth ariannol ddigonol ac effeithiol.

Cymeradwyodd a mabwysiadodd y Cyngor [cod llywodraethu corfforaethol lleol](#) diwygiedig ym mis Mawrth 2022, sy'n gyson ag egwyddorion Fframwaith CIPFA/SOLACE 'Delivering Good Governance in Local Government'.

Mae'r datganiad hwn yn egluro sut mae'r Cyngor wedi cydymffurfio a'r cod ac yn ateb gofynion ymarfer priodol anstatudol sy'n annog cyhoeddi Datganiad Llywodraethu Blynyddol. Hefyd, mae'n diwallu gofynion rheoliad 5 Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014 mewn perthynas â chyhoeddi datganiad ar reolaeth fewnol.

## Y Fframwaith Llywodraethu

Mae'r fframwaith llywodraethu'n cynnwys y systemau a'r prosesau, y diwylliant a'r gwerthoedd, sy'n rhoi cyfeiriad i ac sy'n rheoli'r awdurdod a'i weithgareddau, a thrwy'r rheiny mae'n atebol i'r gymuned, yn ymgysylltu â'r gymuned ac yn ei harwain. Mae'n galluogi'r awdurdod i fonitro pa mor dda y mae'n cyflawni ei amcanion strategol ac ystyried a yw'r amcanion hynny wedi arwain at ddarparu gwasanaethau priodol, cost-effeithiol.

Mae'r system o reolaeth fewnol yn rhan sylweddol o'r fframwaith honno, ac wedi'i llunio i reoli risg hyd at lefel resymol. Does dim modd iddi gael gwared â phob risg o fethu cyflawni polisïau, nodau ac amcanion a dim ond sicrwydd rhesymol, nid sicrwydd llwyr, y gellir ei rhoi o ran effeithiolrwydd. Dilynwch y linc yma am ragor o wybodaeth am y [pwyllgorau](#).

Does dim newidiadau wedi neud i'r [strwythur pwyllgorau](#), y [Tîm Arweinyddiaeth neu'r Tîm Rheoli Corfforaethol](#) yn ystod y flwyddyn diwethaf.

## Adolygu Effeithlonrwydd

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfrifoldeb am gynnal, o leiaf yn flynyddol, adolygiad o effeithlonrwydd ei fframwaith llywodraethu gan gynnwys y drefn rheolaeth fewnol. Mae'r adolygiad o effeithlonrwydd wedi ei siapio gan waith rheolwyr o fewn yr awdurdod sydd â chyfrifoldeb am ddatblygu a chynnal yr amgylchedd llywodraethu, gan adroddiad blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol, a hefyd gan sylwadau a wnaed gan archwilwyr allanol ac asiantaethau arolygu ac archwilio eraill.

Mae effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu wedi ei werthuso trwy gyfuniad o:-

- canlyniadau adolygiadau a monitro cyson yn ystod y flwyddyn gan swyddogion a phwyllgorau;
- adolygiad o ddogfennau perthnasol a baratowyd yn ystod y flwyddyn neu yn ymwneud â'r flwyddyn;
- adolygiad o gynnydd yn erbyn Cynllun y Cyngor;
- adolygu adborth gan Estyn ac AGC a'r panelau sgrwtini cysylltiedig ar y gwaith gwella sy'n gysylltiedig ag Addysg a'r Gwasanaethau Cymdeithasol;
- trafodaeth a derbyn sylwadau gan grwpiau o swyddogion ac aelodau gan gynnwys yr Tîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith.

Yn ogystal, mae adolygiadau a monitro rheolaidd yn cynnwys:-

- gweithgarwch rheoli risg ffurfiol, gan gynnwys ystyriaeth benodol i'r risgiau hynny sy'n gysylltiedig â phrosesau llywodraethu;
- archwilio mewnol, y mae eu gwaith yn cynnwys archwilio'r risgiau uchaf a nodwyd yn y Gofrestr Risg Strategol, gan gynnwys rheoli risg, a hynny'n unol â'r strategaeth archwilio mewnol flynyddol ac yn cynnwys gwaith 'dilyn-i-fyny' i sicrhau fod uwch swyddogion yn gweithredu'r argymhellion sydd wedi eu cytuno;
- gwaith Pwyllgorau Sgrwtini a phwyllgorau eraill y Cyngor gan gynnwys ei bwyllgorau Safonau a Llywodraethu ac Archwilio;
- barn ac argymhellion archwilwyr allanol y Cyngor ynghyd ag asiantaethau adolygu ac arolygwyr eraill;
- monitro cyson gan aelodau ac uwch-reolwyr o welliant a pherfformiad yn erbyn Cynllun y Cyngor a'r cynlluniau a'r strategaethau cefnogol.

## Adolygiad Blynyddol o Effeithiolrwydd Fframwaith Llywodraethu'r Cyngor

### Casgliad yr Asesiad

Mae'r tabl isod yn darparu casgliad yr asesiad ar gyfer 2023/24

Egwyddorion Craidd y Fframwaith	Casgliad yr asesiad
<b>Egwyddor A:</b> Ymddwyn yn ddidwyll, gan ddangos ymrwymiad cryf i werthoedd moesegol a pharchu'r rheol gyfreithiol	Mae gan y Cyngor Sir brosesau gwneud penderfyniadau clir a thryloyw sy'n ymgorffori gwerthoedd moesegol cryf ac sy'n gyfreithlon. Mae'r codau ymddygiad yn nodi'r disgwyliadau ar gyfer ymddwyn yn onest.
<b>Egwyddor B:</b> Sicrhau natur agored ac ymgysylltiad cynhwysfawr â rhanddeiliaid	Mae'r Cyngor yn bodoli i wasanaethu ei drigolion ac mae'n ddibynol ar amrywiaeth eang o randdeiliaid i weithio'n effeithiol mewn partneriaeth. Mae mecanweithiau ymgysylltu ac ymgynghori ar waith.
<b>Egwyddor C:</b> Diffinio canlyniadau yn nhermau manteision economaidd cynaliadwy, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol	Mae'r Cyngor Sir yn gweithio gyda chymunedau i gynllunio canlyniadau. Wrth bennu polisiau a strategaethau, mae'r Cyngor Sir yn edrych ar ganlyniadau yn y tymor hir, gan ystyried manteision economaidd, cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol cynaliadwy.
<b>Egwyddor D:</b> Pennu'r ymyriadau sy'n angenrheidiol i sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau a fwriedir hyd eithaf ein gallu	Mae'r Cyngor Sir yn gwneud penderfyniadau ar ymyriadau yn seiliedig ar ei weledigaeth glir ar gyfer gwasanaethau, gan ymgysylltu â chymunedau, rheoleiddwyr ac arbenigedd ymarferol swyddogion gwasanaeth proffesiynol. Mae'r cyfuniad hwn yn arwain at optimeiddio cyflawniad y deilliannau a fwriedir
<b>Egwyddor E:</b> Datblygu capasiti'r endid, ynghyd â gallu ei arweinyddion a'r unigolion ynddo	Mae'r Cyngor Sir â'r strwythurau a'r arweinyddiaeth briodol yn ei lle a phobl a chanddynt y sgiliau a'r cymwysterau cywir i sicrhau ei fod yn gweithredu'n effeithlon ac yn effeithlon er mwyn cyflawni'r canlyniadau a ddeisyfir. Bod polisiau a strategaethau clir yn eu lle i brofi bod ganddo'r capasiti i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol ohono ynghyd â'r capasiti gweithredol.
<b>Egwyddor F:</b> Rheoli risgiau a pherfformiad drwy reolaeth fewnol gadarn a rheolaeth ariannol gyhoeddus gref	Mae gan y Cyngor system rheoli perfformiad effeithiol sy'n hwyluso cyflawniad effeithiol ac effeithlon ei wasanaethu. Mae rheoli risg a rheolaethau mewnol yn rhannau hanfodol a phwysig o'r system rheoli perfformiad ac maent wedi eu datblygu ymhellach yn ystod y flwyddyn. Maent yn angenrheidiol ar gyfer cyflawni'r canlyniadau sydd yng Nghynllun y Cyngor. Mae'r Cyngor yn cydymffurfio gyda <a href="#">Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA</a> .
<b>Egwyddor G:</b> Gweithredu arferion da o ran tryloywder, adrodd ac archwilio	Mae Aelodau Etholedig y Cyngor a'r Uwch Reolwyr yn atebol am wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau sy'n cael eu cefnogi gan archwiliadau mewnol ac allanol. Mae gweithgareddau'n cael eu hymgyrdd â nhw mewn dulliau tryloyw a chlr y gall cydranddeiliaid eu deall ac ymateb iddynt. Ni nodwyd unrhyw <a href="#">faterion llywodraethiant sylweddol</a> yn ystod y flwyddyn.

## Datganiadau'r Swyddogion Statudol

### Pennaeth y Gwasanaeth Cyflogedig



Dylan Williams  
Prif Weithredwr

"Fel Prif Weithredwr Cyngor Sir Ynys Môn, rydw i'n ymfalchïo yn y ffaith ein bod ni'n sicrhau bod gennym drefniadau llywodraethu effeithiol ar waith er mwyn cynnal tryloywder, atebolrwydd a darparu gwasanaeth cyhoeddus o'r radd flaenaf. Mae fy rôl yn cynnwys darparu arweiniad a chyfarwyddyd strategol i'r sefydliad, gan weithio'n agos â'r aelodau etholedig, swyddogion a phartneriaid.

Rwyf yn fodlon bod gennym drefniadau llywodraethu cadarn a chynhwysfawr, gan eu bod wedi cael eu datblygu a'u mireinio dros gyfnod o amser i gwrdd ag anghenion y sefydliad, y gymuned a'n rhanddeiliaid wrth iddynt esblygu. Trwy ymgysylltu'n rheolaidd â phob math o randdeiliaid mewnol ac allanol, rydym wedi meithrin diwylliant o rannu gwybodaeth, cyfathrebu a chydweithio agored, sy'n cryfhau'n harferion llywodraethu.

Rydym yn mynd ati'n weithgar i fonitro a chymryd camau priodol i ddatrys materion sy'n codi, gan sicrhau bod ein trefniadau llywodraethu'n parhau i fod yn effeithiol ac yn ymateb i unrhyw newidiadau.

Rwyf yn ffyddiog bod ein fframwaith lywodraethu'n hyrwyddo penderfyniadau cadarn, ymddygiad moesegol, a darparu gwasanaethau effeithiol, er mwyn ein galluogi i gyflawni ein cyfrifoldebau i drigolion Ynys Môn."

### Swyddog Adran 151



Marc Jones  
Cyfarwyddwr  
Swyddogaeth  
(Adnoddau)

"Fel Swyddog Adran 151 Cyngor Sir Ynys Môn, mae gennyf gyfrifoldeb hollbwysig dros sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei reoli a'i ddefnyddio'n briodol.

Rydw i'n fodlon bod y trefniadau llywodraethu sydd ar waith yn darparu fframwaith cadarn ar gyfer rheolaeth ac atebolrwydd ariannol. Trwy gynllunio ariannol diwyd, rheolaeth gyllidebol, a rheolaeth risg effeithiol, rydym yn ymdrechu i sicrhau cynaliadwyedd ariannol y cyngor.

Mae ein trefniadau wedi'u tanategu gan bolisïau a gweithdrefnau ariannol a dulliau rheoli mewnol cadarn sy'n cael eu hadolygu a'u diweddarau'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn cyd-fynd ag arferion gorau a gofynion statudol.

Mae adroddiadau a gwaith craffu ariannol gan archwilwyr mewnol ac allanol yn rhoi sicrwydd annibynnol, ac rydym yn mynd i'r afael ag unrhyw feysydd gwella a nodir ar unwaith.

Rwyf yn ffyddiog bod ein trefniadau llywodraethu yn cefnogi dulliau rheoli ariannol darbodus, diogelu adnoddau'r cyngor a'n galluogi i ddarparu gwasanaethau o ansawdd i'r gymuned."

## Swyddog Monitro



Lynn Ball  
Cyfarwyddwr  
Swyddogaeth  
(Busnes y Cyngor)

“Fel Swyddog Monitro, un o fy swyddogaethau allweddol yw gweithio'n agos gydag aelodau a swyddogion i hyrwyddo llywodraethu da a gwneud penderfyniadau da ar draws y Cyngor.

Mae gan y Cyngor fframwaith llywodraethu cadarn ar waith a'n nod yw sicrhau bod ein diwylliant gwaith yn adlewyrchu gofynion y fframwaith hwnnw ac yn hyrwyddo atebolrwydd, tryloywder ac uniondeb ein penderfyniadau.

Mae meithrin a hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad moesegol ymhlith aelodau etholedig a swyddogion yn hanfodol er mwyn i'r Cyngor gyflawni ei gyfrifoldebau llywodraethu da.”

## Materion Llywodraethiant a nodwyd

### Cynnydd mewn perthynas â'r Materion Llywodraethiant a Nodwyd Llynedd

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r materion llywodraethiant a nodwyd llynedd ac yn cynnwys diweddariad ar gynnydd:

Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Diweddariad ar gynnydd
1. Rhaid i'r Cyngor adolygu a diwygio'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn dilyn mabwysiadu Cynllun Newydd y Cyngor ar gyfer 2023-2028	Trawsnewid	Bu adolygiad o ddangosyddion y Cerdyn Sgorio Corfforaethol yn ystod y flwyddyn. Mae cerdyn sgorio newydd, sy'n cysylltu dangosyddion ag chwe amcan strategol y cynllun y cyngor, wedi'i drafftio a'i gytuno gyda'r Pwyllgor Gwaith. Bydd yr adroddiad chwarterol cyntaf yn cael ei drafod gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi 2024.
2. Rhoi materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn briodol	Swyddog Monitro	<p>Mabwysiadwyd y Cynllun Deisebau gan y Cyngor ym mis Medi 2023.</p> <p>Yn ystod 2023, adolygodd y Cyngor y dull hunanasesu a gwnaeth nifer o addasiadau i gryfhau'r broses ymhellach. Diwygiwyd y templed i ganolbwyntio ar saith maes allweddol, yn unol â'r Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.</p> <p>Cytunwyd ar y Strategaeth Gyfranogi a'i mabwysiadu gan y Cyngor ym mis <a href="#">Hydref 2023</a>.</p> <p>Ni chynhaliodd y Cyngor yr hyfforddiant arfaethedig ar y Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol (PCC) gan nad oedd yr hyfforddiant yn cael ei gynnig mwyach gan y CLILC oherwydd bod blaenoriaethau eraill wedi dod i'r amlwg. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau i ymgymryd â'r hyfforddiant hwn. Fodd bynnag, os bydd angen defnyddio'r PCC yn y dyfodol, bydd y Swyddog Monitro a'r Swyddog Adran 151 yn darparu'r cyngor cyfreithiol ac ariannol mewn perthynas â'r PCC i'r Gwasanaethau perthnasol.</p>
3. Diweddarau fframwaith rheoli risg y Cyngor	Adnoddau	Mae'r Cyngor wedi mabwysiadu fframwaith rheoli risg diwygiedig ac wedi diweddarau'r system rheoli risg, 4Risk, i fodloni gofynion y fframwaith.

<b>Camau gweithredu a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau</b>	<b>Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol</b>	<b>Diweddariad ar gynnydd</b>
4. Mae'r Cyngor angen nodi ei wariant cyfalaf yn unol â Chynllun newydd y Cyngor	Adnoddau	Mabwysiadwyd <a href="#">Strategaeth Gyfalaf newydd 2024-2029</a> gan Gyngor Ynys Môn ym mis Mawrth 2024.
5. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd	Trawsnewid / Adnoddau	Mae'r ymarfer mapio sicrwydd ar waith yn dilyn diweddariad i'r system rheoli risg, 4Risk. Mae angen rhagor o waith yn ystod 2024/25 i ymgorffori'r broses.

## Materion Llywodraethiant a Nodwyd yn 2023/24

Ni nodwyd unrhyw faterion llywodraethiant sylweddol ar gyfer y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2024.

Materion llywodraethu wedi'u nodi	Camau a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain?	Erbyn pryd
1. Rhoi materion yn ymwneud â Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ar waith yn briodol	<ul style="list-style-type: none"> <li>Paratoi ar gyfer <a href="#">Aseiad Perfformiad Panel</a> (APP) cyntaf y Cyngor a gynhelir yn ail hanner 2025</li> <li>Gweithio gyda <a href="#">Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru</a> (CLILC) i gwmpasu rôl y APP</li> </ul>	Trawsnewid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Fe all methiant i gydymffurfio olygu craffu pellach gan Lywodraeth Cymru a cholli'n henw da</li> <li>Methu parhau i wella perfformiad y Cyngor</li> <li>Ni fydd modd gweld pa welliannau sydd eu hangen o ran darparu gwasanaeth</li> <li>Fe all arwain at benderfyniadau anwybodus neu fynd tu hwnt i awdurdod cyfreithiol</li> <li>Risgiau cyfreithiol ac i enw da'r cyngor a pheryglu arferion llywodraethu</li> </ul>	Mawrth 2026
2. Nid yw'r Cyngor yn mapio ei ffynonellau sicrwydd ar hyn o bryd	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cwblhau ymarfer mapio sicrwydd ar gyfer y Cyngor</li> </ul>	Trawsnewid / Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Problemau llywodraethu posib heb eu nodi</li> <li>Methu gwella perfformiad y Cyngor yn barhaus</li> <li>Methiant bosib o ran y gwasanaeth</li> <li>Darpariaeth sicrwydd annigonol neu wedi'i ddyblygu</li> </ul>	Mawrth 2025



Materion llywodraethu wedi'u nodi	Camau a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain?	Erbyn pryd
3. Rhaid i'r Cyngor sicrhau ei fod yn bodloni gofynion Deddf Gaffael 2023 newydd.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gweithredu'r camau cytunedig o'r Cynllun Gwella Caffael</li> <li>Cyhoeddi Cynllun Strategol Caffael</li> </ul>	Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gallai methu â chydymffurfio arwain at ddirwyon a chosbau, camau cyfreithiol a chraffu rheoleiddiol</li> <li>Niwed i enw da'r Cyngor</li> <li>Methiant bosib o ran y gwasanaeth</li> </ul>	Mawrth 2026
4. Mae'n rhaid i'r cyngor ymateb i heriau sydd wedi'u hadnabod wrth gynllunio gweithlu, gan gynnwys proffil oed mewn rhai gwasanaethau a phroblemau recriwtio a chadw staff mewn gwasanaethau eraill.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Adolygu a gweithredu ymgyrch recriwtio ar gyfer yr Uned Ddarparu</li> <li>Gweithredu'r strategaeth rheoli risg pobl</li> <li>Moderneiddio'r wefan recriwtio</li> <li>Gwella cyfraddau cadw staff mewn meysydd sy'n gweld trosiant uchel, yn enwedig swyddi sy'n arbenigol ac nad oes modd recriwtio ar eu cyfer yn rhwydd</li> </ul>	Trawsnewid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Methiant bosib o ran y gwasanaeth</li> <li>Potensial am brinder talent, bylchau mewn sgiliau a throsiant staff uchel</li> <li>Cynnydd posibl mewn costau</li> <li>Niwed i enw da'r Cyngor</li> </ul>	Mawrth 2025
5. Mae'n rhaid i'r cyngor reoli a rhesymoli asedau er mwyn sicrhau bod galw amdanynt, eu bod nhw'n addas at eu diben ac os nad ydynt yn cael eu adnabod, rhaid gweithio i wella safonau.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cyhoeddi a gweithredu Cynllun Strategol Rheoli Asedau 2024-2029 newydd</li> <li>Diweddarau a cyhoeddi Cynllun Rheoli Stad man-ddaliadau newydd</li> <li>Rhesymoli asedau'r cyngor</li> <li>Rheoli ac ymateb i RAAC o fewn asedau'r cyngor</li> </ul>	Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynnydd mewn costau cynnal a chadw cysylltiedig</li> <li>Toriadau iechyd a diogelwch difrifol posibl os bydd asedau'n dirywio</li> <li>Methiant bosib o ran y gwasanaeth</li> <li>Colli cyfleoedd i wella gwasanaethau neu gynhyrchu refeniw</li> </ul>	Mawrth 2025

Materion llywodraethu wedi'u nodi	Camau a nodwyd i fynd i'r afael â gwendidau	Swyddog / Gwasanaeth / Bwrdd Arweiniol	Beth fydd yn digwydd os na chyflawnir y rhain?	Erbyn pryd
6. Mae gwydnwch ariannol y cyngor dan straen oherwydd yr argyfwng costau byw a gostyngiad mewn cyllid.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwneud y defnydd gorau o'r grantiau sydd ar gael i'r cyngor</li> <li>Monitro ac adolygu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP)</li> <li>Adnabod arbedion ar gyfer 2025/26 ymlaen</li> <li>Adolygu a symleiddio prosesau er mwyn gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gwasanaethau a lleihau effaith y gostyngiad mewn cyllid</li> </ul>	Adnoddau	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gostyngiad yn y gwasanaethau sydd ar gael i drigolion</li> <li>Risg o faterion ariannol difrifol</li> <li>Effaith negyddol ar yr economi leol a chynnydd yn y boblogaeth fregus</li> <li>Niwed i enw da'r Cyngor</li> <li>Risg o ymyrraeth gan Lywodraeth Cymru</li> </ul>	Mawrth 2025
7. Parhau i foderneiddio ei seilwaith digidol a seilwaith data.	<ul style="list-style-type: none"> <li>Cynllun strategol digidol</li> <li>Cwblhau asesiad aeddfedrwydd data i adolygu ein seilwaith data, sgiliau a chapasiti</li> <li>Gweithredu system teleffoni newydd</li> </ul>	Trawsnewid	<ul style="list-style-type: none"> <li>Gwasanaethau aneffeithiol ac aneffeithlon sy'n defnyddio technoleg sydd wedi dyddio i ddarparu gwasanaethau</li> <li>Risgiau posibl o ran seiberddiogelwch</li> <li>Cynnydd mewn costau i gynnal systemau etifeddol hŷn</li> <li>Niwed i enw da'r Cyngor</li> </ul>	Mawrth 2025

## Ardystio'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol

Rydym wedi ein cyngori ar oblygiadau canlyniad yr adolygiad o effeithlonrwydd y fframwaith llywodraethu gan y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio a bod y trefniadau yn parhau i gael eu hystyried fel rhai sy'n addas i bwrpas yn gyson â'r fframwaith llywodraethu. Mae'r meysydd sydd wedi cael sylw a'r rhai sydd i'w trafod yn benodol trwy weithredu o'r newydd wedi eu hamlinellu yn y ddogfen.

Rydym yn bwriadu cymryd camau priodol i ymdrin â'r gwendidau hyn a'r rhai eraill a nodwyd yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ac i wella ymhellach ein trefniadau llywodraethu a sicrwydd yn y flwyddyn sydd i ddod. Fe fyddwn yn monitro gweithrediad y gwelliannau trwy'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio ac fel rhan o'n hadolygiad blynyddol nesaf.

### Ar ran Cyngor Sir Ynys Môn

**Cyng. Gary Pritchard**  
Arweinydd y Cyngor  
Rhagfyr 2024

**Dylan Williams**  
Prif Weithredwr  
Rhagfyr 2024

## Atodiad 1

### Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA (2019)

Mae Côd Rheolaeth Ariannol CIPFA wedi'i gynllunio i gefnogi arfer da yn y maes rheolaeth ariannol ac i gynorthwyo awdurdodau lleol i ddangos eu cynaliadwyedd ariannol. Nid yw'r Côd yn rhagnodol ac mae'n seiliedig ar chwe egwyddor sydd wedi eu cefnogi gan safonau penodol yr ystyrir eu bod yn angenrheidiol i sicrhau gwytnwch ariannol parhaus Awdurdodau Lleol. Y chwe egwyddor rheolaeth ariannol sy'n sail i'r Côd yw:

- Arweinyddiaeth
- Atebolrwydd
- Tryloywder
- Safonau Proffesiynol
- Sicrwydd
- Cynaliadwyedd

Trosir y chwe egwyddor yn ddwy ar bymtheg o safonau Rheolaeth Ariannol (FM) (a ddynodir o A-Q), wedi'u grwpio'n saith adran. Roedd yn ofynnol i bob awdurdod lleol ddangos cydymffurfiaeth lawn â'r Cod erbyn 31 Mawrth 2022.

Yn dilyn archwiliad mewnol o cydymffurfiaeth y Cyngor gyda'r cod yn Ebrill 2020, cynhaliwyd archwiliad pellach ar Wydnwch Ariannol ym mis Tachwedd 2022 i geisio ateb y cwestiwn a ganlyn: A oes gan y Cyngor drefniadau digonol ar waith i reoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol i sicrhau y gall barhau i gyflawni ei flaenoriaethau a darparu gwasanaethau o ansawdd?

Dywed yr adroddiad:

**“Daeth ein harchwiliad i'r casgliad bod gan y Cyngor fframwaith o fesurau rheoli effeithiol ar gyfer rheoli goblygiadau'r toriadau ariannol gwirioneddol, a hynny o fewn cwrpas ei reolaeth. Er hyn, mae'n amlwg bod y Cyngor yn wynebu penderfyniadau anodd dros y ddwy flynedd nesaf oherwydd yr hinsawdd economaidd heriol ac anrhagweladwy sydd ohoni.**

Codwyd un 'Mater/Risg', a oedd angen sylw rheolwyr er mwyn cryfhau'r trefniadau yn y maes hwn a chytunwyd ar gynllun gweithredu gyda'r rheolwyr.

## Materion Llywodraethu Sylweddol

Daeth ein hadroddiad Archwilio Mewnol ein hunain ar gyfer 2023/24 i'r casgliad canlynol –

***“Am y 12 mis a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, barn y Pennaeth Archwilio a Risg yng Nghyngor Sir Ynys Môn yw bod gan y sefydliad fframwaith digonol ac effeithiol ar gyfer rheoli risg, llywodraethu a rheolaeth fewnol.***

***Er nad ydw i'n ystyried unrhyw feysydd o bryder corfforaethol, mae angen cyflwyno neu wella rheolaethau mewnol mewn rhai meysydd er mwyn sicrhau bod amcanion yn cael eu cyflawni, a'u bod yn cael eu monitro.***

***Nid oes unrhyw amodau ar y farn hon..”***

This page is intentionally left blank

## Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon – Cyngor Sir Ynys Môn

Blwyddyn archwilio: 2023-24

Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2024

Cyfeirnod y ddogfen: 4586A2024



Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o waith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol. Ceir rhagor o wybodaeth yn ein [Datganiad o Gyfrifoldebau](#).

Archwilio Cymru yw'r enw torfol anstatudol ar gyfer Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, sy'n endidau cyfreithiol ar wahân y mae ganddynt ill dau eu swyddogaethau cyfreithiol eu hunain fel a ddisgrifir uchod. Nid yw Archwilio Cymru yn endid cyfreithiol ac nid oes ganddo ef ei hun unrhyw swyddogaethau.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol, staff Swyddfa Archwilio Cymru na, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog neu gyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os ceir cais am wybodaeth y gall y ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000. Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer o ran trin ceisiadau a ddisgwyllir gan awdurdodau cyhoeddus, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd parti'n perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru a, lle y bo'n berthnasol, yr archwilydd a benodwyd yn drydydd parti'n perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu aildefnyddio'r ddogfen hon at [Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru](mailto:swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru).

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.



# Ynglŷn ag Archwilio Cymru

## Ein nodau a'n huchelgeisiau

### Rhoi Sicrwydd



i bobl Cymru bod arian cyhoeddus yn cael ei reoli'n dda

### Egluro



sut mae arian cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio a sut mae'n diwallu anghenion pobl

### Ysbrydoli



a grymuso'r sector cyhoeddus yng Nghymru i wella



Manteisio'n llawn ar ein persbectif, ein harbenigedd a'n dyfnder mewnwelediad unigryw



Cryfhau ein sefyllfa fel llais awdurdodol, dibynadwy ac annibynnol



Cynyddu ein gwelededd, ein dylanwad a'n perthnasedd



Bod yn sefydliad enghreifftiol ar gyfer y sector cyhoeddus yng Nghymru a thu hwnt

# Cynnwys

Cyflwyniad	5
Adroddiad manwl	
Perthnasedd y datganiadau ariannol	6
Cydymffurfio moesegol	7
Barn archwilio arfaethedig	8
Materion a gododd yn ystod yr archwiliad	9
Atodiadau	
Atodiad 1 – Adroddiad archwilio arfaethedig	10
Atodiad 2 – Llythyr sylwadau	15
Atodiad 3 – Crynodeb o gywiriadau a wnaed	18
Ansawdd archwilio	29
Eich cefnogi chi	30

# Cyflwyniad

Rwyf bellach wedi cwblhau fy archwiliad i raddau helaeth yn unol â'm Cynllun Archwilio Manwl 2024 dyddiedig Mehefin 2024.

Mae'r Adroddiad hwn ar yr Archwiliad o'r Cyfrifon yn crynhoi prif ganfyddiadau fy archwiliad o'ch adroddiad blynyddol a chyfrifon 2023-24. Mae fy nhîm eisoes wedi trafod y materion hyn gyda'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) – Swyddog Adran 151 a'i dîm.

Rwy'n ddiolchgar iawn i'ch swyddogion am eu cymorth wrth gynnal yr archwiliad hwn.



**Adrian Crompton**

Archwilydd  
Cyffredinol Cymru

# Perthnasedd y datganiadau ariannol



## Perthnasedd £3.003 miliwn

Fy nod yw adnabod a chywiro camddatganiadau perthnasol, h.y. y rhai a allai achosi fel arall i ddefnyddiwr y cyfrifon gael ei gamarwain.

Cyfrifir perthnasedd gan ddefnyddio:

- gwariant gros yn 2023-24 o £300.3 miliwn a gyfrifir gan ddefnyddio cyfrifon drafft 2023-24.
- Canran perthnasedd o 1%

Rwy'n cymhwyso'r ganran perthnasedd i wariant gros i gyfrifo perthnasedd.

Byddaf yn adrodd wrthy ch ar unrhyw gamddatganiadau uwchlaw £150,000, a gyfrifir fel 5% o berthnasedd (a elwir yn 'lefel ddibwys').



## Meysydd o ddi-ddordeb penodol

Ceir rhai meysydd yn y cyfrifon a all fod o fwy o bwysigrwydd i ddefnyddiwr y cyfrifon. Rydym yn pennu lefelau perthnasedd is ar gyfer y rhain fel a ganlyn:

- E.e. Adroddiad ar gydnabyddiaeth ariannol £1,000
- E.e. Datgeliadau partïon cysylltiedig £10,000

# Cydymffurfio moesegol



## Cydymffurfio â safonau moesegol

Rydym yn credu:

- ein bod wedi cydymffurfio â'r safonau moesegol y mae'n ofynnol i ni eu dilyn wrth wneud ein gwaith;
- ein bod wedi aros yn annibynnol arnoch chi;
- nad yw ein gwrthrychedd wedi cael ei beryglu; ac
- nad oes gennym unrhyw berthnasoedd a allai danseilio ein hannibyniaeth neu ein gwrthrychedd.

# Barn archwilio arfaethedig



## Barn archwilio

Rydym yn bwriadu cyhoeddi barn archwilio ddiamod ar gyfrifon eleni unwaith y byddwch wedi darparu Llythyr Sylwadau ar ein cyfer (gweler isod).

Caiff ein hadroddiad archwilio arfaethedig ei nodi yn **Atodiad 1**



## Llythyr sylwadau

Llythyr ffurfiol yw Llythyr Sylwadau sy'n eich galluogi i gadarnhau wrthym bod yr wybodaeth a ddarparwyd ar ein cyfer yn ystod yr archwiliad yn gywir ac yn gyflawn. Mae peth o'r wybodaeth hon wedi'i nodi'n wybodaeth sy'n angenrheidiol yn ôl safonau archwilio; gall gwybodaeth arall ymwneud yn benodol â'ch archwiliad.

Mae'r llythyr yr ydym yn gofyn i chi ei lofnodi wedi'i gynnwys yn **Atodiad 2**.

# Materion a gododd yn ystod yr archwiliad



## Camddatganiadau

Mae camddatganiad yn digwydd lle nad yw gwybodaeth yn y cyfrifon yn unol â safonau archwilio.

### Camddatganiadau nas cywirwyd

Mae'r rheolwyr wedi cytuno i ddiwygio'r holl gamddatganiadau a nodwyd yn ystod yr archwiliad. Nid oes unrhyw gamddatganiadau heb eu cywiro yn y cyfrifon.

### Camddatganiadau a gywirwyd

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom gamddatganiadau sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw chi yn ein tyb ni.

Caiff y rhain eu nodi yn **Atodiad 3**.



## Materion arwyddocaol eraill

Yn ychwanegol at y camddatganiadau a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad rydym hefyd yn adrodd wrthy ch ar faterion arwyddocaol eraill.

Ni chanfuwyd unrhyw faterion o'r fath yn ystod yr archwiliad.

# Atodiad 1

## Adroddiad archwilio arfaethedig

### Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru i aelodau Cyngor Sir Ynys Môn

#### Barn ar y datganiadau ariannol

Rwyf wedi archwilio datganiadau ariannol:

- Cyngor Sir Ynys Môn

ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Mae datganiadau ariannol Cyngor Sir Ynys Môn yn cynnwys y Dadansoddiad o Wariant a Chyllid, y Datganiad Symudiadau mewn Cronfeydd wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr, y Fantolen, y Datganiad Llifoedd Arian Parod, y Datganiad Symud ar y Cyfrif Refeniw Tai, Datganiad Incwm a Gwariant y Cyfrif Refeniw Tai a'r nodiadau cysylltiedig, gan gynnwys y polisïau cyfrifyddu perthnasedd arwyddocaol.

Y fframwaith adrodd ariannol a gymhwyswyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

Yn fy marn i, ym mhob ffordd berthnasol, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o sefyllfa ariannol Cyngor Sir Ynys 31 Mawrth 2024 ac o'i incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar y dyddiad hwnnw; ac
- wedi'u paratoi'n briodol yn unol â gofynion deddfwriaethol a'r safonau cyfrifyddu rhyngwladol a fabwysiadwyd yn y DU fel y'u dehonglwyd ac y'u haddaswyd gan y Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24.

#### Sail y farn

Cynhaliais fy archwiliad yn unol â'r gyfraith berthnasol a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU (ISAs (Y DU)) a Nodyn Ymarfer 10 'Archwilio Datganiadau Ariannol Endidau'r Sector Cyhoeddus yn y Deyrnas Unedig'. Caiff fy nghyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn yr adran o'm hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol.

Mae fy staff a minnau'n annibynnol ar Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesebol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rwyf wedi cyflawni fy nghyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Credaf fod y dystiolaeth archwilio yr wyf wedi'i chael yn ddigonol ac yn briodol i ddarparu sail i'm barn.



## Casgliadau sy'n ymwneud â busnes gweithredol

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rwyf wedi dod i'r casgliad bod defnyddio'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol i baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i gyflawni, nid wyf wedi adnabod unrhyw ansicrwydd perthnasol mewn perthynas â digwyddiadau neu amodau a all, yn unigol neu ar y cyd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau i fabwysiadu'r sail gyfrifyddu busnes gweithredol am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Caiff fy nghyfrifoldebau i a chyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol mewn perthynas â busnes gweithredol eu disgrifio yn yr adrannau perthnasol o'r adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth yn yr adroddiad blynyddol, heblaw am y datganiadau ariannol a'm hadroddiad i fel archwilydd ar y rhain. Y Swyddog Cyllid Cyfrifol sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall yn yr adroddiad blynyddol. Nid yw fy marn am y datganiadau ariannol yn cwmpasu'r wybodaeth arall a, heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn fy adroddiad, nid wyf yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar yr wybodaeth arall honno.

Fy nghyfrifoldeb i yw darllen yr wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn berthnasol anghyson â'r datganiadau ariannol neu wybodaeth a gafwyd wrth gyflawni'r archwiliad, neu'n ymddangos fel arall fel pe bai wedi cael ei chamddatgan yn berthnasol. Os wyf yn canfod anghysonderau perthnasol o'r fath neu wybodaeth berthnasol o'r fath sy'n ymddangos fel pe bai wedi cael ei chamddatgan, mae'n ofynnol i mi benderfynu a yw hyn yn achosi camddatganiad perthnasol yn y datganiadau ariannol eu hunain. Yn seiliedig ar y gwaith yr wyf wedi'i wneud, os wyf yn dod i'r casgliad bod yr wybodaeth arall hon wedi'i chamddatgan yn berthnasol, mae'n ofynnol i mi nodi'r ffaith honno.

Nid oes unrhyw beth gennyf i'w nodi yn hyn o beth.

## Barn ar faterion eraill

Yn fy marn i, yn seiliedig ar y gwaith a wnaed yn ystod fy archwiliad:

- mae'r wybodaeth a geir yn yr Adroddiad Naratif ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24;
- mae'r wybodaeth a roddir yn y Datganiad Llywodraethu Blynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer yn gyson â'r datganiadau ariannol ac yn unol â'r canllawiau.

## Materion y cyflwynaf adroddiad arnynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth am Cyngor Sir Ynys Môn a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid wyf wedi nodi unrhyw gamddatganiadau perthnasol yn yr Adroddiad Naratif na'r Datganiad Llywodraethu Blynyddol.

Nid oes gennyf unrhyw beth i'w nodi o ran y materion canlynol, y cyflwynaf adroddiad i chi arnynt os bydd yr amgylchiadau canlynol yn berthnasol, yn fy marn i:

- nid wyf wedi cael yr holl wybodaeth ac esboniadau y mae eu hangen arnaf ar gyfer fy archwiliad;
- ni chadwyd cofnodion cyfrifyddu digonol, neu ni chafwyd ffurflenni sy'n ddigonol ar gyfer fy archwiliad o ganghennau nad ymwelodd fy nhîm â hwy; neu
- nid yw'r datganiadau ariannol yn gyson â'r cofnodion a'r ffurflenni cyfrifyddu.

### **Cyfrifoldebau'r swyddog cyllid cyfrifol am y datganiadau ariannol**

Fel a esbonnir yn fanylach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau am y Datganiad Cyfrifon, y swyddog cyllid cyfrifol sy'n gyfrifol am:

- baratoi'r datganiad cyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn sy'n rhoi darlun gwir a theg ac sy'n cydymffurfio ag arferion priodol;
- cadw cofnodion cyfrifyddu priodol;
- pa bynnag reolaethau mewnol sy'n angenrheidiol ym marn y swyddog cyllid cyfrifol i allu paratoi datganiadau cyfrifon heb unrhyw gamddatganiadau perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall;
- asesu gallu Cyngor Sir Ynys Môn i barhau fel busnes gweithredol, gan ddatgelu fel y bo'n gymwys, faterion sy'n ymwneud â'r busnes gweithredol a defnyddio sail gyfrifyddu busnes gweithredol oni bai bod y swyddog cyllid cyfrifol yn rhagweld na fydd y gwasanaethau a ddarperir gan Cyngor Sir Ynys Môn yn parhau i gael eu darparu yn y dyfodol.

### **Cyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol**

Fy nghyfrifoldeb yw archwilio'r datganiadau ariannol yn unol â Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004.

Fy amcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch p'un a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhai heb unrhyw gamddatganiad perthnasol, boed hynny trwy dwyll neu wall, a chyhoeddi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys fy marn. Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio yn y DU wastad yn canfod camddatganiad perthnasol pan fo'n bodoli. Gall camddatganiadau ddeillio o dwyll neu wall ac fe'u hystyrir yn berthnasol os, yn unigol neu gyda'i gilydd, gellid yn rhesymol ddisgwyl iddynt ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, yn golygu achosion o ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau. Rwy'n dylunio gweithdrefnau yn unol â'm cyfrifoldebau, a nodir uchod, i ganfod camddatganiadau perthnasol mewn perthynas ag afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll.

Roedd fy ngweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- Holi'r rheolwyr, pennaeth archwilio mewnol a'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu, gan gynnwys cael ac adolygu dogfennaeth ategol mewn perthynas â pholisïau a gweithdrefnau Cyngor Sir Ynys Môn sy'n ymwneud ag:
  - adnabod, gwerthuso a chydymffurfio â deddfau a rheoliadau a pha un a oeddent yn ymwybodol o unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfio;
  - canfod ac ymateb i'r risgiau o dwyll a pha un a oes ganddynt wybodaeth am unrhyw dwyll gwirioneddol, tybiedig neu honedig; a hefyd
  - y rheolaethau mewnol a sefydlwyd i liniaru risgiau sy'n gysylltiedig â thwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau.
- Ystyried fel tîm archwilio sut a ble allai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Fel rhan o'r drafodaeth hon, canfûm botensial ar gyfer twyll yn y meysydd canlynol: cofnodi dyddlyfrau anarferol;
- Cael dealltwriaeth am y fframwaith awdurdod sydd gan Cyngor Sir Ynys Môn, yn ogystal â fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol eraill y mae Cyngor Sir Ynys Môn yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau hynny a gafodd effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a gafodd effaith sylfaenol ar weithrediadau Cyngor Sir Ynys Môn.
- Cael dealltwriaeth am berthnasoedd partiön cysylltiedig.

Yn ychwanegol at yr uchod, roedd fy ngweithdrefnau i ymateb i risgiau a ganfuwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu'r datgeliadau yn y datganiadau ariannol a phrofi yn erbyn dogfennaeth ategol i asesu cydymffurfiaeth â deddfau a rheoliadau perthnasol a drafodir uchod;
- holi'r rheolwyr ac ymgynghorwyr cyfreithiol ynghylch ymglyfreithiad a hawliadau gwirioneddol a phosibl;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu;
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll trwy wrthwneud rheolaethau gan reolwyr, profi priodoldeb cofnodion dyddlyfr ac addasiadau eraill; asesu a yw'r dyfarniadau a wnaed wrth lunio amcangyfrifon cyfrifyddu'n rhoi arwydd o wyrduedd bosibl; a gwerthuso'r rhesymeg fusnes dros unrhyw drafodion arwyddocaol sy'n anarferol neu y tu allan i gwrs arferol busnes.

Fe wnes i hefyd gyfleu deddfau a rheoliadau dynodedig perthnasol a risgiau posibl o dwyll i holl aelodau'r tîm archwilio ac aros yn effro i unrhyw arwyddion o dwyll neu ddiffyg cydymffurfio â deddfau a rheoliadau trwy gydol yr archwiliad.

Effeithir ar y graddau y mae fy ngweithdrefnau'n gallu canfod afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll, gan yr anhawster cynhenid o ran canfod afreolaidd-dra, effeithiolrwydd rheolaethau Cyngor Sir Ynys Môn, a natur, amseriad a hyd a lled y gweithdrefnau archwilio a gyflawnwyd.

Ceir disgrifiad pellach o gyfrifoldebau'r archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn [www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities](http://www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities). Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'm hadroddiad archwilio.

## Cyfrifoldebau eraill yr archwilydd

Rwy'n cyfathrebu gyda'r rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu ynghylch, ymhlith materion eraill, cwmpas ac amseriad arfaethedig yr archwiliad a chanfyddiadau archwilio arwyddocaol, gan gynnwys unrhyw ddiffygion arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol yr wyf yn eu hadnabod yn ystod fy archwiliad.

## Tystysgrif cwblhau'r archwiliad

Yr wyf yn tystio fy mod wedi cwblhau'r archwiliad o gyfrifon Cyngor Sir Ynys Môn yn unol â gofynion Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 a Chod Ymarfer Archwilio Archwilydd Cyffredinol Cymru.

Adrian Crompton  
Archwilydd Cyffredinol Cymru  
04-12-2024

1 Cwr y Ddinas  
Stryd Tyndall  
Caerdydd, CF10 4BZ

# Atodiad 2

## Llythyr sylwadau

Archwilydd Cyffredinol Cymru  
Swyddfa Archwilio Cymru  
1 Cwr y Ddinas  
Caerdydd  
CF10 4BZ

03 Rhagfyr 2024

## Sylwadau ynghylch datganiadau ariannol 2023-24

Darperir y llythyr hwn mewn cysylltiad â'ch archwiliad o ddatganiadau ariannol (gan gynnwys y rhan o'r Adroddiad ar Gydabyddiaeth Ariannol sy'n cael ei harchwilio) Cyngor Sir Ynys Môn ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024 at ddiben mynegi barn ynglŷn â'u gwirionedd a thegwch a'u paratoi'n briodol.

Yr ydym ni yn cadarnhau hyd eithaf ein gwybodaeth a'n cred ar ôl gwneud yr ymholiadau a oedd yn ddigonol yn ein tyb ni, y gallwn gyflwyno'r sylwadau canlynol i chi.

## Sylwadau'r rheolwyr

### Cyfrifoldebau

Yr ydym ni wedi cyflawni ein cyfrifoldebau am:

- baratoi'r datganiadau ariannol yn unol â gofynion deddfwriaethol a Cod Ymarfer ar gyfer Cadw Cyfrifon Awdurdodau Lleol yn y Deyrnas Unedig 2023-24; yn arbennig mae'r datganiadau ariannol yn rhoi golwg gywir a theg yn unol â hwy;
- dylunio, gweithredu, cynnal ac adolygu rheolaeth fewnol i atal a chanfod twyll a gwallau.

## Gwybodaeth a ddarparwyd

Rydym wedi darparu'r canlynol ar eich cyfer:

- mynediad llawn at:
  - yr holl wybodaeth yr ydym yn ymwybodol ohoni sy'n berthnasol i baratoi'r datganiadau ariannol megis llyfrau cyfrifon a dogfennaeth ategol, cofnodion cyfarfodydd a materion eraill;
  - gwybodaeth ychwanegol yr ydych chi wedi gofyn amdani gennym ni at ddiben yr archwiliad; a

- mynediad digyfngiad at aelodau o staff y penderfynoch chi fod angen cael tystiolaeth archwilio ganddynt;
- canlyniadau ein hasesiad ni o'r risg y gallai'r datganiadau ariannol fod wedi'u camddatgan yn berthnasol o ganlyniad i dwyll;
- ein gwybodaeth ni am dwyll gwirioneddol neu dwyll tybiedig yr ydym ni'n ymwybodol ohono ac sy'n effeithio ar Cyngor Sir Ynys Môn ac sy'n cynnwys:
  - rheolwyr;
  - cyflogeion sydd â rolau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol; neu
  - eraill lle gallai'r twyll gael effaith berthnasol ar y datganiadau ariannol;
- ein gwybodaeth ni am unrhyw honiadau o dwyll gwirioneddol, neu dwyll tybiedig, sy'n effeithio ar y datganiadau ariannol a gyflëwyd gan gyflogeion, cyn-gyflogeion, rheoleiddwyr neu eraill;
- ein gwybodaeth ni am bob achos hysbys o ddiffyg cydymffurfio gwirioneddol neu ddiffyg cydymffurfio tybiedig â deddfau a rheoliadau y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol;
- gwybodaeth am bwy yw'r holl bartïon cysylltiedig a'r holl berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig yr ydym yn ymwybodol ohonynt;

## Sylwadau am y datganiadau ariannol

Mae'r holl drafodion, asedau a rhwymedigaethau wedi cael eu cofnodi yn y cofnodion cyfrifyddu ac fe'u hadlewyrchir yn y datganiadau ariannol.

Mae'r dulliau, y data a'r tybiaethau arwyddocaol a ddefnyddiwyd i lunio amcangyfrifon cyfrifyddu, a'u datgeliadau cysylltiedig, yn briodol i gyflawni cydnabyddiaeth, mesuriad neu ddatgeliad sy'n rhesymol yng nghyd-destun y fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Rhoddwyd cyfrif priodol am berthnasoedd a thrafodion partïon cysylltiedig ac maent wedi cael eu datgelu'n briodol.

Lle cafwyd digwyddiadau ar ôl y dyddiad adrodd yr oedd yn ofynnol gwneud addasiad ar eu cyfer neu eu datgelu, mae'r holl addasiadau a datgeliadau hyn wedi cael eu gwneud.

Mae pob ymgyfreithiad a hawliad gwirioneddol neu bosibl hysbys y dylid ystyried eu heffeithiau wrth baratoi'r datganiadau ariannol wedi cael eu datgelu wrth yr archwilydd a rhoddwyd cyfrif amdanynt ac maent wedi cael eu datgelu yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol.

Nid oes unrhyw gamddatganiadau perthnasol, gan gynnwys hepgoriadau, yn y datganiadau ariannol. Mae effeithiau camddatganiadau nas cywirwyd a ganfuwyd yn ystod yr archwiliad yn amherthnasol, yn unol ac ar y cyd, i'r datganiadau ariannol o'u cymryd yn eu cyfanrwydd.

## Sylwadau gan Cyngor Sir Ynys Môn

Rydym yn cydnabod bod y sylwadau a wnaed gan y rheolwyr, uchod, wedi cael eu trafod gyda ni.

Rydym yn cydnabod ein cyfrifoldeb am baratoi datganiadau ariannol cywir a theg yn unol â'r fframwaith adrodd ariannol perthnasol. Cymeradwywyd y datganiadau ariannol gan Cyngor Sir Ynys Môn ar 3 Rhagfyr 2024.

Yr ydym yn cadarnhau ein bod wedi cymryd pob cam y dylem fod wedi'i gymryd er mwyn ein gwneud ein hunain yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol ac er mwyn cadarnhau ei bod wedi cael ei chyfleu i chi. Rydym yn cadarnhau, hyd y gwyddom, nad oes unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol nad ydych chi'n ymwybodol ohoni.

Llofnodwyd gan:

Llofnodwyd gan:

Marc Jones

Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) –  
Swyddog Adran 151

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2024

Cynghorydd Gary Pritchard

Arweinydd, Cyngor Sir Ynys Môn

Dyddiad: 3 Rhagfyr 2024

# Atodiad 3

## Crynodeb o gywiriadau a wnaed

Yn ystod ein harchwiliad, canfuom y camddatganiadau canlynol sydd wedi cael eu cywiro gan y rheolwyr, ond y dylid eu dwyn i'ch sylw yn ein tyb ni.

Cywiriadau sy'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol		
Gwerth y cywiriad	Meysydd yn y cyfrifon	Esboniad
£142,290,000 (2023-24)	<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (2023-24)</b>  Cafodd yr addasiad pensiwn net o £71,145,000 ei gredydu'n anghywir i'r CIES yn hytrach na'i ddebydu. Effeithiodd y mater hwn hefyd ar yr ased pensiwn net ac mae'r cywiriad fel a ganlyn ar gyfer 2022-23 a 2022-24:  Dileu Ased Pensiwn Net: Cynnydd o £142,290,000  Ail-fesur rhwymedigaeth pensiwn net: Gostyngiad o £143,700,000	Mae'r newid hwn yn sicrhau bod y symudiadau a gyflwynir yn y CIES yn adlewyrchu'r symudiadau yn Nodyn 34 – Cynllun Pensiwn Buddiannau Diffiniedig a Nodyn 9c – Cronfa Bensiwn Wrth Gefn.  Er nad oedd y cyflwyniad cychwynnol o fewn y CIES yn gyson â'r nodiadau, roedd yr effaith net ar y datganiadau ariannol sylfaenol yn gywir.
£39,628,000 (2022-23)  (dosbarthiad o fewn CIES yn unig)	<b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr (2022-23)</b>  Dileu Ased Pensiwn Net: Cynnydd o £39,628,000  Ail-fesur rhwymedigaeth pensiwn net: Gostyngiad o £39,628,000	



£1,406,000

**Nodyn 30 – Incwm Grantiau**

Grantiau Refeniw a gredydwyd i wasanaethau: Gostyngiad o £1,406,000

**Nodyn 25a – Incwm a Gwariant Wedi'i Ddadansoddi yn ôl natur**

Gwariant Gwasanaeth Arall: Gostyngiad o £1,406,000

Incwm o Grant a Chyfraniadau'r Llywodraeth: Gostyngiad o £1,406,000

Sicrhau bod incwm a gwariant ond yn cael ei gydnabod, lle mae'r trafodion yn ymwneud â'r Awdurdod yn unol â Chod Ymarfer CIPFA.

£1,160,000

**Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol – Eiddo, Offer a Chyfarpar**

Eiddo, Offer a Chyfarpar sy'n cael eu hadeiladu – Ychwanegiadau: Gostyngiad o £1,093,000

**Nodyn 25a – Incwm a Gwariant wedi'i Ddadansoddi yn ôl Natur:**

Gwariant Gwasanaethau Eraill: Gostyngiad o £66,000

Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth: Gostyngiad o £1,044,000

**Nodyn 30 – Incwm Grantiau**

Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau: Gostyngiad o £1,044,000

Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw: Cynnydd o £489,000

**Nodyn 20 – Credydwyr**

Symiau taladwy eraill – tymor byr: Gostyngiad o £1,160,000

**Nodyn 18 – Dyledwyr**

Symiau Derbyniadwy Eraill: Gostyngiad o £554,000

Mae'r diwygiadau hyn hefyd yn effeithio ar nodyn 17 Gwariant ac Ariannu Cyfalaf

Cyflawnodd y tîm cyllid waith ychwanegol i roi sicrwydd bod hwn yn ddigwyddiad unigol a oedd yn effeithio ar un prosiect yn unig. Mae ein hadolygiad o'r gwaith ychwanegol yn cadarnhau bod hyn yn wir.

I adlewyrchu'n gywir na throsglwyddwyd perchnogaeth nifer o bympiau gwres i'r Awdurdod tan flwyddyn ariannol 2024-25.

<p>£826,000</p>	<p><b>Nodyn 30 – Incwm Grantiau</b></p> <p>Grantiau Cyfalaf a Chyfraniadau: Cynnydd o £826,000</p> <p><b>Nodyn 18 – Dyledwyr</b></p> <p>Symiau Derbyniadwy Eraill: Cynnydd o £826,000</p>	<p>Sicrhau bod incwm wedi'i gydnabod o fewn y flwyddyn ariannol gywir.</p>
<p>£823,000</p>	<p><b>Nodyn 18 - Dyledwyr</b></p> <p>Symiau Derbyniadwy Eraill: Gostyngiad o £823,000</p> <p><b>Nodyn 20 – Credydwyr</b></p> <p>Symiau Taladwy Eraill: Gostyngiad o £823,000</p>	<p>Cywiro trafodion a gredydwyd fel rhwymedigaeth, yn hytrach na dileu ased cyfartal a gwrthygyferbyniol a gydnabuwyd yn flaenorol, o fewn y fantolen.</p>
<p>£774,000</p>	<p><b>Nodyn 13a – Asedau Anghyfredol – Eiddo, Offer a Chyfarpar</b></p> <p>Tir ac Adeiladau: Ailbriso i'r Gronfa Ailbrisant Wrth Gefn: Cynnydd o £774,000</p> <p><b>Nodyn 9b - Cronfa Ailbriso Wrth Gefn</b></p> <p>Ailbriso asedau a cholledion amhariad nas codir ar y diffyg ar ddarparu gwasanaethau: Cynnydd o £774,000</p>	<p>Sicrhau bod gwerthoedd asedau yn cael eu datgan yn gywir yn seiliedig ar fewnbynau prasio priodol.</p>

<p>£561,000</p>	<p><b>Nodyn 16 – Eiddo Buddsoddi</b></p> <p>Enillion / (Colledion) net o addasiadau gwerth teg: Gostyngiad o £561,000</p> <p><b>Nodyn 25a – Dadansoddiad o Natur Gwariant ac Incwm</b></p> <p>Dibrisiant, amorteiddio, amhariad a symud mewn gwerth y farchnad eiddo buddsoddi: Cynnydd o £561,000</p> <p><b>Nodyn 11 – Incwm a Gwariant Cyllido a Buddsoddi</b></p> <p>Incwm a gwariant mewn perthynas ag eiddo buddsoddi a newidiadau yn eu gwerth teg: Cynnydd o £561,000</p>	<p>Roedd yr Awdurdod wedi ailbriso eiddo buddsoddi penodol ar 100% o'r prisiad, fodd bynnag, dim ond hawl i 16% o werth yr ased sydd gan yr awdurdod. Mae'r diwygiad yn sicrhau mai dim ond cyfran yr Awdurdod sy'n cael ei gynnwys yn y datganiadau ariannol.</p>
<p>Amryw</p>	<p><b>Nodyn 13a - Asedau Anghyfredol – Eiddo, Offer a Chyfarpar</b></p> <p>Mae newidiadau amrywiol wedi'u gwneud mewn perthynas â gwaredu eiddo y Cronfa Refeniw Tai (CRT) gyda gwerth net llyfr (NBV) o £494,000 na chafodd ei nodi wrth ddrafftio'r datganiadau ariannol cychwynnol.</p> <p>Bu nifer o symudiadau yn ymwneud â'r addasiad hwn sy'n effeithio ar Nodyn 13a - Eiddo, Offer a Chyfarpar, Nodyn 9 - Cronfa Ailbriso Wrth Gefn, y Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr a nodiadau ategol perthnasol.</p>	<p>I sicrhau bod asedau a waredwyd yn ystod y flwyddyn yn cael eu dosbarthu a'u dad-gydnabod yn gywir yn y datganiadau ariannol.</p>

<p>£384,000</p>	<p><b>Nodyn 20 – Credydwy</b> Symiau taladwy eraill – tymor byr: Gostyngiad o £384,000</p> <p><b>Nodyn 25a - Gwariant ac Incwm wedi'u Dadansoddi yn ôl natur</b> Gwariant Gwasanaethau Eraill: Gostyngiad o £384,000</p> <p>Incwm Grantiau a Chyfraniadau'r Llywodraeth: Gostyngiad o £384,000</p> <p><b>Nodyn 30 – Incwm Grantiau</b></p> <p>Credyd i wasanaethau – Cronfa Lefelu i Fyny: Gostyngiad o £384,000</p> <p><b>Grantiau a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw</b></p> <p>Cronfa Lefelu i Fyny: Cynnydd o £384,000</p> <p>Mae'r newid hwn hefyd yn effeithio ar nodyn 17 gwariant a chyllido cyfalaf.</p>	<p>Sicrhau bod gwariant sydd wedi'i gydnabod yn berthnasol i'r flwyddyn ariannol gywir.</p>
<p>£367,000</p>	<p><b>Nodyn 13a - Asedau Anghyfredol – Eiddo, Offer a Chyfarpar</b></p> <p>Anheddau'r Cyngor: Cynnydd Ailbrisiu i'r Gronfa Ailbrisiu Wrth Gefn: Gostyngiad o £367,000</p> <p><b>Nodyn 9b – Cronfa Ailbrisiu Wrth Gefn</b></p> <p>Ailbrisiu asedau a cholledion amhariad nas codir ar y diffyg ar ddarparu gwasanaethau: Gostyngiad o £367,000</p>	<p>Adlewyrchu gwerth cywir anheddau'r cyngor yng nghofrestr asedau'r awdurdod.</p>

<p>£261,000</p>	<p><b>Nodyn 7 – Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd</b></p> <p>Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd – Cronfeydd wrth gefn gwasanaethau llai na £500k: Gostyngiad o £261,000</p> <p><b>Nodyn 30 – Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw</b></p> <p>Grantiau Cyfalaf a Dderbyniwyd Ymlaen Llaw: Cynnydd o £261,000</p>	<p>Sicrhau bod yr awdurdod yn cydnabod symiau a dderbyniwyd mewn perthynas ag incwm grant fel rhwymedigaeth, hyd nes y bydd y telerau sy'n gysylltiedig â'r grant wedi'u bodloni.</p>
<p>£245,000</p>	<p><b>Datganiad Incwm a Gwariant Cynhwysfawr</b></p> <p>Gwariant net Addysg, Pobl Ifanc a Sgiliau: Cynnydd o £245,000</p> <p><b>Nodyn 11 – Incwm a Gwariant Ariannu a Buddsoddi</b></p> <p>Llog derbyniadwy ac incwm tebyg: Gostyngiad o £245,000</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar ddsbarthiad o fewn y CIES yn unig.</p>	<p>Sicrhau bod llog derbyniadwy ac incwm tebyg yn cael ei ddatgelu'n gywir.</p>

**Cywiriadau sy'n effeithio ar nodiadau datgelu yn unig**

Gwerth y cywiriad	Meysydd yn y cyfrifon	Esboniad
£19,806,000	<p><b>Cyfrif CRT – Nodyn 3 Gwariant Cyfalaf</b></p> <p>Mae Cod CIPFA yn ei gwneud yn ofynnol i Gyngorau ddatgelu dadansoddiad o wariant cyfalaf HRA, wedi'i rannu rhwng Tai, Tir ac Eiddo Arall. Datgelwyd hyn i ddechrau fel un llinell yn unig yn y cyfrifon drafft.</p> <p>Mae'r gwariant bellach wedi'i ailddosbarthu rhwng Tai, Tir ac Eiddo Arall.</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Mae'r addasiad hwn yn sicrhau bod y nodyn yn datgelu gwariant CRT yn unol â gofynion Cod CIPFA</p>
£11,813,000	<p><b>Nodyn 14 Ymrwymadau Cyfalaf Sylweddol</b></p> <p>Ymrwymiad Gosod Pwmp Gwres: Cynnydd o £11,813,000</p>	<p>Yn dilyn adolygiad o'r mater pwmp gwres a adlewyrchwyd uchod, mae ymrwymiad cyfalaf ar gyfer gweddill gwerth y contract bellach wedi'i ddatgelu i sicrhau tryloywder ymrwymadau cyfalaf yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA.</p>
£10,522,000	<p><b>Nodyn 35b – Rhwymedigaethau Ariannol</b></p> <p>Cyfanswm y Rhwymedigaethau heb eu diffinio fel rhwymedigaethau ariannol: Cynnydd o £10,522,000</p> <p>Cyfanswm yr Ymrwymadau: Cynnydd o £10,522,000</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Cysoni Rhwymedigaethau Ariannol o fewn Nodyn 35a â'r hyn a ddatgelir yn y Fantolen</p>

<p>£623,000</p>	<p><b>Nodyn 6 – Addasiadau rhwng Sail Gyfrifo a Chyllido o dan Reoliadau</b></p> <p>Gwariant refeniw a ariennir o gyfalaf dan statud: Cynnydd o £623,000</p> <p>Gwariant cyfalaf a godwyd yn erbyn balansau Cronfa'r Cyngor a'r CRT: Gostyngiad o £623,000</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Sicrhau bod Nodyn 6 yn cael ei ddatgan yn gywir ac yn gyson â datgeliadau eraill yn y datganiadau ariannol.</p>
<p>£444,000</p>	<p><b>Nodyn 35a – Asedau Ariannol</b></p> <p>Asedau heb eu diffinio fel offerynnau ariannol: Gostyngiad o £444,000</p> <p>Cyfanswm asedau: Gostyngiad o £444,000</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Cysoni Asedau Ariannol o fewn Nodyn 35a â'r hyn a ddatgelir yn y Fantolen</p>
<p>£353,000</p>	<p><b>Nodyn 35c – Incwm, Gwariant, Enillion a Cholledion</b></p> <p>Refeniw llog: Cynnydd o £353,000</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Sicrhau bod y datgeliad yn Nodyn 35c yn gyson â llog derbyniadwy a gydnabyddir yn ystod y flwyddyn.</p>



Amryw	<p><b>Nodyn 27 – Tâl Swyddogion (Tabl 2022-23)</b></p> <p>Diweddarwyd y ffigurau yn nhabl cymharol 2022-23 i adlewyrchu'r cytundeb â Datganiad Cyfrifon Archwiliedig 2022-23.</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Roedd tâl uwch swyddogion 2022-23 yn cynnwys y wybodaeth yn ymwneud â 2021-22, yn hytrach na 2022-23.</p>
Amryw	<p><b>Nodyn 31 – Partïon Cysylltiedig</b></p> <p>Gwnaed amryw o newidiadau i'r nodyn Partïon Cysylltiedig i wella perthnasedd ac eglurder i'r sawl sy'n darllen y cyfrifon.</p> <p>Roedd y newidiadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>- Ychwanegu trafodion coll</li> <li>- Dileu gwybodaeth nad yw'n ofynnol gan God CIPFA</li> <li>- Ailfformatio'r nodyn</li> </ul> <p>Mae'r diwygiadau hyn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Sicrhau bod y datgeliad wedi'i wneud yn unol â Chod Ymarfer CIPFA a gwella perthnasedd ac eglurder i'r sawl sy'n darllen y datganiadau ariannol.</p>
Amryw	<p><b>Nodyn 34 – Cynllun Pensiwn Buddion Diffiniedig Llywodraeth Leol</b></p> <p>Mae nifer o newidiadau cyflwyniadol wedi'u gwneud i'r nodiadau pensiwn i adlewyrchu'n gywir y cysoniad o werth presennol asedau a rhwymedigaethau'r cynllun.</p> <p>Mae'r diwygiadau hyn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid ydynt yn effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Er mwyn sicrhau bod Nodyn 34 yn cael ei ddatgan yn gywir, ei fod yn cytuno ag adroddiad yr actiwari ac yn cael ei gyflwyno yn unol â gofynion Cod Ymarfer CIPFA.</p>

<p>Anrhif</p>	<p><b>Nodyn 41 – Rhwymedigaethau Wrth Gefn</b></p> <p>Ychwanegwyd rhwymedigaeth amodol ychwanegol mewn perthynas â diswyddo unigolyn a oedd yn flaenorol yn gyflogai i'r sefydliad a ragflaenodd yr Awdurdod.</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>I sicrhau, lle mae posibilrwydd o all-lif o adnoddau economaidd yn y dyfodol, bod rhwymedigaeth wrth gefn yn cael ei chydabod yn y datganiadau ariannol.</p>
<p>Amryw</p>	<p><b>Datganiadau CRT – Nodyn 7 – Costau Pensiwn</b></p> <p>Ailstrwythurwyd y nodyn datgelu hwn i roi darlun mwy priodol i ddefnyddiwr y cyfrifon o gost gwasanaeth gyfredol y CRT.</p> <p>Mae'r diwygiad hwn yn effeithio ar y nodyn datgelu yn unig ac nid yw'n effeithio ar y datganiadau sylfaenol.</p>	<p>Rhoi adlewyrchiad mwy cywir o weithrediadau'r awdurdod i ddefnyddiwr y cyfrifon.</p>
<p>Amryw</p>	<p><b>Amryw</b></p> <p>Gwnaethpwyd nifer o fân newidiadau i'r datganiadau ariannol yn ymwneud â diwygiadau i ddatgeliadau gwybodaeth, newidiadau naratif, gwallau castio neu gwallau teipio.</p>	<p>Sicrhau cywirdeb y datganiadau ariannol a chydymffurfio â Chod CIPFA.</p>

# Ansawdd archwilio

Mae ein hymrwymiad i ansawdd archwilio yn Archwilio Cymru'n un llwyr. Rydym ni'n credu bod a wnelo ansawdd archwilio â gwneud pethau'n iawn y tro cyntaf.

Rydym yn defnyddio model tair llinell sicrwydd i ddangos sut yr ydym yn cyflawni hyn. Rydym wedi sefydlu Pwyllgor Ansawdd Archwilio i gydlynu a goruchwyllo'r trefniadau hynny. Creffir yn annibynnol ar ein gwaith gan QAD\*, ac mae ein Cadeirydd yn gweithredu fel dolen gyswllt i'n Bwrdd ar ansawdd archwilio. I gael rhagor o wybodaeth gweler ein [Hadroddiad Ansawdd Archwilio 2023](#).

## Ein Pobl



Ffurir y llinell sicrwydd gyntaf gan ein staff a'n rheolwyr sy'n gyfrifol yn unigol ac ar y cyd am gyflawni'r safonau o ansawdd archwilio yr ydym yn dyheu amdanynt.

- Dewis y tîm cywir
- Defnyddio arbenigwyr
- Goruchwyllo ac adolygu

## Trefniadau ar gyfer sicrhau ansawdd archwilio



Ffurir yr ail linell sicrwydd gan y polisiau, yr offer, y ddysg a'r datblygiad, y canllawiau, a'r arweinyddiaeth a ddarparwn i'n staff i'w cefnogi i gyrraedd y safonau ansawdd archwilio hynny.

- Rhaglen archwilio
- Moeseg
- Canllawiau
- Diwylliant
- Dysgu a datblygu
- Arweinyddiaeth
- Cymorth technegol

## Sicrwydd annibynnol



Ffurir y drydedd linell sicrwydd gan y gweithgareddau hynny sy'n rhoi sicrwydd annibynnol dros effeithiolrwydd y ddwy linell sicrwydd gyntaf.

- Adolygiadau Rheoli Ansawdd Ymgysylltu
- Adolygiadau â thema
- Adolygiadau oer
- Dadansoddi'r achos sylfaenol
- Adolygiad gan gymheiriaid
- Y Pwyllgor Ansawdd Archwilio
- Monitro allanol

\*Cangen monitro ansawdd Sefydliad Cyfrifwyr Siartredig Cymru a Lloegr yw'r Adran Sicrhau Ansawdd.

# Eich cefnogi chi

Mae Archwilio Cymru wedi datblygu ystod o adnoddau i roi cymorth i graffu ar gyrrff cyhoeddus Cymru ac i gynorthwyo'r cyrff hynny i barhau i wella'r gwasanaethau y maent yn eu darparu ar gyfer pobl Cymru.

## Ewch at ein gwefan i ganfod:

	ein gwaith <a href="#">Arfer Da</a> lle'r ydym yn rhannu arfer a mewnwelediadau sy'n dod i'r amlwg o'n gwaith archwilio i ategu ein hamcanion i roi sicrwydd, egluro ac ysbrydoli.
	ein <a href="#">cylchlythyr</a> sy'n darparu diweddariadau rheolaidd ar eich cyfer am ein gwaith archwilio gwasanaethau cyhoeddus, arfer da, a digwyddiadau.
	ein <a href="#">cyhoeddiadau</a> sy'n cwmpasu ein gwaith archwilio a gwblhawyd mewn cyrff cyhoeddus.
	gwybodaeth am ein <a href="#">blaenraglen waith ar gyfer archwilio perfformiad 2023-2026</a> a gaiff ei llywio gan weithgarwch ymgysylltu â rhanddeiliaid a'n dadansoddiad sy'n rhoi darlun o wasanaethau cyhoeddus.
	amryw <a href="#">offer data</a> a ffeithluniau i'ch helpu i gael dealltwriaeth well am dueddiadau gwariant cyhoeddus gan gynnwys ystod o fewnwelediadau eraill i graffu ar ddarparu gwasanaethau cyhoeddus.

Gallwch gael rhagor o wybodaeth am Archwilio Cymru yn ein [Cynllun Blynyddol 2024-25](#) a hefyd [Ein Strategaeth 2022-27](#).





Audit Wales

1 Cwr y Ddinas

Stryd Tyndall

Caerdydd CF10 4BZ

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: [post@archwilio.cymru](mailto:post@archwilio.cymru)

Gwefan: [www.archwilio.cymru](http://www.archwilio.cymru)

We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.

<b>CYNGOR SIR YNYS MÔN</b>	
<b>Cyfarfod:</b>	Cyngor Sir
<b>Dyddiad:</b>	3 Rhagfyr 2024
<b>Teitl yr adroddiad:</b>	Cydbwysedd Gwleidyddol Pwyllgorau
<b>Adroddiad gan:</b>	Pennaeth Democratiaeth
<b>Pwrpas yr Adroddiad:</b>	Adolygu Cydbwysedd Gwleidyddol ar Bwyllgorau yn dilyn is-etholiad Cyngor Sir ym mis Hydref.

### Cefndir

- Mae angen i'r Cyngor adolygu trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar ei bwyllgorau bob blwyddyn. Digwyddodd hynny ym mis Mai eleni, ond yn dilyn canlyniad is-etholiad ward Talybolion ym mis Hydref, mae newid yng nghydbwysedd gwleidyddol y Cyngor sy'n effeithio dyraniad seddi ar rhai pwyllgorau.
- Mae Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 yn nodi'r prif egwyddorion mewn perthynas â chydbwysedd gwleidyddol, sef:
  - “a) that not all the seats on the body are allocated to the same political group;*
  - b) that the majority of the seats on the body is allocated to a particular political group if the number of persons belonging to that group is a majority of the Authority's membership;*
  - c) subject to (a) and (b) above, the number of seats on the ordinary committees of a relevant Authority which are allocated to each political group bears the same proportion to the total of all the seats on the ordinary committees of that Authority as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority; and*
  - d) subject to paragraphs (a) to (c) above, that the number of the seats on the body which are allocated to each political group bears the same proportion to the number of all the seats on that body as is borne by the number of members of that group to the membership of the Authority.”<sup>1</sup>*

<sup>1</sup> Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 Adran 15 (5) (a) – (d)

3. Dyma'r sefyllfa o ran aelodaeth grwpiau gwleidyddol ar y Cyngor yn dilyn yr isetholiad ar 24 Hydref:

Plaid Cymru -	20
Annibynwyr Môn -	8
Y Grŵp Annibynnol -	4
Llafur Cymru -	3
<b>Cyfanswm -</b>	<b>35</b>

### **Dyraniad Seddi Pwyllgor**

4. Oni bai fod y cyfrifo yn rhoi rhif cyfan o ran nifer cyffredinol y seddau neu nifer y seddau ar bob pwyllgor, yna mae'n rhaid sicrhau'r cydymffurfiaeth gorau posib yn unol â'r egwyddorion a nodir ym mharagraff 2 uchod.
5. Mae'r newid yn y balans gwleidyddol ar y Cyngor Sir yn cael effaith ar aelodaeth tri pwyllgor, sef y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, y Pwyllgor Polisi Cynllunio a'r Cyngor Ymgynghorol Sefydlog (CYS). Mae hefyd angen cysoni aelodaeth dau bwyllgor arall nad ydynt yn cyfarfod yn rheolaidd, sef y Pwyllgor Penodiadau a'r Is-bwyllgor indemniadau. Mae'r manylion yn Atodiad A.
6. Rhaid i unrhyw grwp gwleidyddol ar y Cyngor ddyrannu'r seddau y mae'n eu derbyn o dan y trefniadau cydbwysedd gwleidyddol i'w aelodau ei hun yn unig. Ni all ddyrannu sedd i aelod etholedig nad yw'n aelod o'r un grŵp gwleidyddol.
7. Yn unol â'r protocol rheolaeth gwleidyddol, ymgynghorwyd ag Arweinyddion y Grwpiau ynglŷn â newid i ddyraniad seddi fel yr amlinellir yn yr adroddiad hwn.
8. Argymhellion
- Bod y Cyngor yn ystyried **Atodiad A** ac yn cadarnhau'r trefniadau cydbwysedd gwleidyddol ar gyfer dyrannu seddi pwyllgor.
  - Bod Arweinyddion y Grwpiau yn hysbysu'r Pennaeth Democratiaeth cyn gynted ag y bo modd ynglŷn ag unrhyw newid o ran aelodaeth grwpiau ar Bwyllgorau.



Rhagfyr / December 24

Balans ar y Cyngor Sir Balance on County Council	
Plaid Cymru Party of Wales	20
Liafur Cymru Welsh Labour	3
Y Grwp Annibynnol	4
Annibynwyr Mon Anglesey Independents	8
	35

PWYLLGORAU CRAFFU A THROSOLWG SCRUTINY AND OVERVIEW COMMITTEES			
Pwyllgorau Committees	Partneriaeth	Corfforaethol	Cyfanswm Craffu Total Scrutiny
	Partnership	Corporate	
Aelodaeth Membership	12	12	24
	7	7	14
	1	1	2
	1	1	2
	3	3	6
	12	12	24

ALLWEDD	KEY
<i>Chwith uchaf, italic = hawl ffracysynol damcaniaethol</i>	
<i>Top left, italic, theoretical fractional entitlement</i>	
	Dde isaf, arferol = awgrym rhif llawn
	Bottom right, normal = whole number suggestion

Pwyllgorau Committees	LLED-FARNWROL QUASI-JUDICIAL								PWYLLGORAU ERAILL Y CYNGOR OTHER COMMITTEES OF THE COUNCIL					Cyfanswm Eraill Total Others
	Cynllunio a Gorchymnion Planning and Orders	Llywodraethu ac Archwilio Governance & Audit	Gwasanaethau Democratiaidd Democratic Services	Penodiadau Appointments	Ymchwilio Investigation	Disgyblu Disciplinary	Apeliadau Appeals	Trwyddedu Licensing	CYS SAC	Pwyllgor Polisi Cynllunio Planning Policy Committee	Penodi Safonau Standards Appointing	Is-Bwyllgor Indemniadau sub-Committee		
Aelodaeth Membership	13	8	9	12	3	3	12	13	6	11	3	5	98	
Plaid Cymru Party of Wales	8	4	5	7	2	2	7	8	3	6	2	3	57	
Liafur Labour	1	1	1	1	0	0	1	1	1	1	0	0	8	
Grwp Annibynnol Independent Group	1	1	1	1	0	0	1	1	1	1	0	1	9	
Annibynwyr Mon Anglesey Independents	3	2	2	3	1	1	3	3	1	3	1	1	24	
Cyfanswm	13	8	9	12	3	3	12	13	6	11	3	5	98	

CYFANSWM LLAWN	Newid / change
GRAND TOTAL	
	122
	71
	-3
	10
	0
	11
	0
	30
	3
	122

This page is intentionally left blank

Cyngor Sir Ynys Môn	
Adroddiad i:	Cyngor Llawn
Dyddiad:	3/12/24
Pwnc / Testun:	<b>Datganiad Polisi Gamblo 2025-2028</b>
Deilydd(ion) Portffolio:	Y Cyngorydd Nicola Roberts Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd ac Newid Hinsawdd
Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr:	Christian Branch Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd
Awdur yr Adroddiad: Tel: E-bost:	Sion Hughes 01248 752843 slhpp@ynysmon.llyw.cymru
Aelodau Lleol:	<b>Perthnasol i holl aelodau</b>

#### A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Argymhellir:

Gofynnir i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo ar gyfer 2025-2028.

Crynodeb Gweithredol:

Yn unol â Deddf Gamblo 2005, mae'n rhaid i'r Cyngor fabwysiadu Datganiad o Bolisi Gamblo bob tair blynedd. Mae'r Polisi hwn yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo.

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am roi trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

1. Neuaddau bingo;
2. Safleoedd betio (gan gynnwys traciau);
3. Canolfannau hapchwarae i oedolion; a
4. Chanolfannau adloniant teuluol;

Am roi hawlenni ar gyfer:

1. Canolfannau adloniant teuluol didrwydded;
2. Clybiau;
3. Safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol; a
4. Hapchwarae am wobrau;
- 5.

Ac am weinyddu lleoli Peiriannau Hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol (lle nad yw'r peiriannau hynny yn rhan o'r drefn ar gyfer rhoi trwyddedau neu hawlenni).

Mae'r rhestr uchod yn nodi rhai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf.

Mae'r Ddeddf yn sefydlu tri phrif amcan o ran trwyddedu: (yr "**Amcanion Trwyddedu**):

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Bydd y polisi'n hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu hyn ac yn anelu i reoleiddio gamblo er budd y cyhoedd.

Mae'r polisi drafft wedi cael ei gynhyrchu'n unol â chanllawiau'r Comisiwn Gamblo ar ffurf a chynnwys y Polisi. Oherwydd adolygiad o'r Ddeddf Gamblo 2005, cyngor cyfredol y Comisiwn Gamblo yw mabwysiadu y polisi blaenorol i'r cyfnod 2025 - 2028. O ganlyniad fydd y Cyngor yn cyfarfod y cyfrifoldeb statudol. Yna gellir asesu y polisi o ganlyniad i unrhyw newidiadau yn deillio o'r adolygiad.

O ganlyniad, mae'r polisi yn aros yr un fath hefo data cyfrifiad diwygiedig yn y cyflwyniad.

**B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?**

Mae'n ofyniad cyfreithiol i'r Cyngor fabwysiadu'r Datganiad o Bolisi Gamblo. Nid oes unrhyw opsiwn arall ar gael.

**C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae'r polisi'n rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor, fel a nodir yn y Cyfansoddiad 3.2.2.1.

**Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi. Mae'n ffurfio rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor.

**D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi.

--

Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol):		
1	Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys?	Dim yn berthnasol
2	A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut?	Dim yn berthnasol
3	A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhwch wybod gyda phwy.	Ymgynghoriad gyda: Heddlu Gogledd Cymru Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn Betting and Gaming Council
4	A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut.	Ymgynghoriad gyda'r cyrff a rhestrir uchod
5	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010.	Dim wedi rhagweld
6	Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantaes economaidd-gymdeithasol.	Dim yn berthnasol
7	Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.	Dim wedi rhagweld

E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?		
1	Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol)	Dim sylwadau
2	Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol)	Dim sylwadau
3	Swyddog Cyfreithiol / Monitro	Dim sylwadau

**E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau?**

	(gorfodol)	
4	Adnoddau Dynol (AD)	
5	Eiddo	
6	Technoleg Gwybodaeth (TG)	
7	Caffael	
8	Sgriwtini	
9	Aelodau Lleol	

**F - Atodiadau:**

Polisi Gamblo – Datganiad o Bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2005, 2025-2028



Cym Polisi Gamblo  
2025 2024 v1.0.docx

**Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):**

--



This page is intentionally left blank





CYNGOR SIR  
YNYS MÔN  
ISLE OF ANGLESEY  
COUNTY COUNCIL

## Cyngor Sir Ynys Môn

# Polisi Gamblo

Datganiad o bolisi Trwyddedu, Deddf Gamblo 2025

**2025 - 2028**

### Am y polisi hwn

Mae'r Polisi hwn yn nodi'r modd y bydd y Cyngor yn cyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â rheoleiddio sefydliadau gamblo.

Cefnogir y Polisi gydag adnoddau ar wefan y Cyngor.

## Hanes Adolygu

Fersiwn	Dyddiad	Crynodeb o'r newidiadau
5.0	2025 - 2028	Map newydd

Dyddiad yr adolygiad nesaf	
Adolygir y polisi ar:	2028
Cynhelir yr adolygiad gan:	Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol

### Manylion cyswllt:

Rheolwr Trwyddedu a Diogelwch Corfforaethol

E-bost: [LICENSING@ynysmon.llyw.cymru](mailto:LICENSING@ynysmon.llyw.cymru)

Ffôn: 01248 752840

Rydym yn hapus i ddarparu'r wybodaeth hon mewn fformatau eraill ar gais – defnyddiwch y manylion cyswllt uchod os gwelwch yn dda.

Mae'r ddogfen yma ar gael yn y Saesneg.

This document is available in English.

## Cynnwys

1. Cyflwyniad.....	4
2. Egwyddorion Sylfaenol.....	5
3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu .....	6
4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant .....	6
5. Pennu Buddgyfranogwyr .....	7
6. Cyfnewid Gwybodaeth .....	8
7. Archwilio ac Achosion Troseddol.....	8
8. Ffactorau perthnasol wrth ystyried ceisiadau ac adolygiadau .....	9
9. Gwneud Penderfyniadau .....	14
10. Datganiad ynghylch penderfyniadau am gasinos .....	17
11. Cyfundrefnau rheoliadol eraill .....	17
12. Y galw am safleoedd hapchwarae .....	18
13. Gwybodaeth Ychwanegol .....	18
14. Asesiadau Risg Lleol.....	18
15. Declarasiwn .....	20
<b>Atodiadau</b> .....	<b>21</b>
Atodiad 1 Map o Ardal Cyngor Sir Ynys Môn .....	21
Atodiad 2 - Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy .....	22
Atodiad 3 - Cynllun dirprwyo.....	23

## 1. Cyflwyniad

Mae Ynys Môn yng Ngogledd-orllewin Cymru. Tir isel yw'r rhan fwyaf o'r ynys ac mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol ar yr arfordir. Mae llawer o ymwelwyr yn cael eu denu i'r ynys, gan wneud cyfraniad pwysig i'r economi lleol. Mae amaethyddiaeth yn parhau i fod yn bwysig yma ac mae'n rhan hanfodol o hunaniaeth a diwylliant yr ynys. Dengys Cyfrifiad 2021 boblogaeth o 68,900 gyda 30,800 o aelwydydd. Y dref fwyaf yw Caergybi ac mae mwyafrif yr aneddiadau mwyaf sylweddol ar yr arfordir. Yr anheddiad mwyaf nad yw ar yr arfordir yw Llangefni, sef y dref sirol. Mae gan Ynys Môn gysylltiadau trafndiaeth rhyngwladol cryf ag Iwerddon drwy Borthladd Caergybi. Mae'r A55, sydd yn rhan o'r Rhwydwaith Ffyrdd Traws-Ewropeaidd, a rheilffordd arfordir Gogledd Cymru, yn cysylltu'r ardal â gweddill y Gogledd a'r Deyrnas Gyfunol. Darperir map o'r Sir yn Atodiad 1.

Deddf Gamblo 2005 (y "**Ddeddf**") sy'n rheoli pob darpariaeth ar gyfer gamblo yng ngwledydd Prydain, ac eithrio'r Loteri Genedlaethol a betio lled. Cafodd y Cydsyniad Brenhinol ar 7 Ebrill 2005.

Fe sefydlodd y Ddeddf y Comisiwn Gamblo (y "**Comisiwn**") sydd â chylch gwaith cenedlaethol, yn ogystal â nifer o rheoleiddwyr lleol sef yr Awdurdodau Trwyddedu. Y Comisiwn sydd yn rheoleiddio gamblo masnachol yng ngwledydd Prydain mewn partneriaeth â'r Awdurdodau Trwyddedu. Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn (y "**Cyngor**") gyfrifoldebau fel Awdurdod Trwyddedu ac felly mae arno amryw o rwymedigaethau o dan y Ddeddf.

Mae'r Comisiwn yn canolbwyntio'n bennaf ar weithredwyr a materion sydd o bwys yn genedlaethol neu'n rhanbarthol. Yr Awdurdodau Trwyddedu fydd fel rheol yn arwain o ran rheoleiddio gamblo yn lleol. Gall y Comisiwn a'r Awdurdodau Trwyddedu hefyd gydweithio'n uniongyrchol ar rai materion penodol.

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer tri chategori o drwydded:

- (i) Trwyddedau gweithredu
- (ii) Trwyddedau personol
- (iii) Trwyddedau eiddo

Mae'r Ddeddf hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer rhoi hawlenni i rai sefydliadau nad oes arnynt angen trwydded eiddo, ynghyd â nifer o ddarpariaethau penodol eraill gan gynnwys rhoi hawlen i safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol, i osod niferoedd cyfyngedig o fathau penodol o beiriannau hapchwarae ar y safle.

Y Comisiwn sydd yn gyfrifol am roi Trwyddedau Gweithredu a Thrwyddedau Personol.

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am roi trwyddedau eiddo yn Ynys Môn ar gyfer:

- Neuaddau bingo;
- Safleoedd betio (gan gynnwys traciau);
- Canolfannau hapchwarae i oedolion; a
- Chanolfannau adloniant teuluol;

am roi hawlenni ar gyfer:

- Canolfannau adloniant teuluol didrwydded;
- Clybiau;
- Safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol; a
- Hapchwarae am wobrau;

ac am

- weinyddu gosod Peiriannau Hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd i werthu alcohol (lle nad yw'r peiriannau hynny yn rhan o'r drefn ar gyfer rhoi trwyddedau neu hawlenni).

Mae'r rhestr uchod yn nodi rhai o brif gyfrifoldebau'r Cyngor o dan y Ddeddf ond nid yw'n rhestr orfodol.

Datganiad o Egwyddorion

Mae'r Ddeddf yn mynnu bod y Cyngor yn paratoi datganiad o'r egwyddorion y bwriada'r Cyngor eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf. Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Gamblo (y "**Polisi Gamblo**") yn unol â'r gofyniad hwnnw.

Paratowyd y Polisi Gamblo gan ystyried darpariaethau'r Ddeddf, is-reoliadau, canllawiau a roddwyd i awdurdodau trwyddedu gan y Comisiwn, a'r ymatebion a dderbyniwyd yn ystod y broses ymgynghori. Darperir rhestr lawn yn Atodiad 2 o'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy wrth baratoi'r Polisi Gamblo.

Daw'r Polisi Gamblo i rym ar y dyddiad y'i mabwysiedir gan y Cyngor ac fe'i hadolygir yn ôl yr angen ond o leiaf bob tair blynedd o ddyddiad ei fabwysiadu ymlaen.

Mae'r Polisi Gamblo yn amodol ar newidiadau i'r statud. Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Polisi Gamblo hwn a deddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth neu ganllawiau statudol perthnasol, bydd y ddeddfwriaeth neu'r canllawiau hynny yn drech na'r Polisi.

## 2. Egwyddorion Sylfaenol

Mae'r Ddeddf yn sefydlu tri phrif amcan o ran trwyddedu: (yr "**Amcanion Trwyddedu**"):

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Bydd y polisi'n hyrwyddo'r tri amcan trwyddedu hyn ac yn anelu i reoleiddio gamblo er budd y cyhoedd.

Wrth weithredu ei swyddogaethau o dan y Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor anelu i ganiatáu i safleoedd gael eu defnyddio ar gyfer gamblo ar yr amod bod y Cyngor o'r farn bod hynny:

- yn unol ag unrhyw god ymarfer perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn unol ag unrhyw ganllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo;
- yn dangos cysondeb rhesymol â'r Amcanion Trwyddedu; ac
- yn unol â'r Polisi Gamblo hwn.

### **3. Swyddogaethau'r Awdurdod Trwyddedu**

Mae'r Cyngor fel Awdurdod trwyddedu yn gyfrifol am nifer o swyddogaethau sydd yn ofynnol o dan y Ddeddf:

- Trwyddedu safleoedd lle mae gweithgareddau gamblo'n cael eu cynnal drwy roi trwyddedau safle
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae mewn clybiau a pheiriannau mewn clybiau
- Derbyn hysbysiadau ar gyfer hyd at ddau beiriant hapchwarae mewn safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol
- Rhoi hawlenni peiriant hapchwarae mewn safle trwyddedig lle bo safleoedd a drwyddedwyd ar gyfer alcohol yn gofyn am fwy na dau beiriant
- Caniatáu peiriannau hapchwarae lle caiff symiau bach eu mentro, mewn canolfannau adloniant teuluol didrwydded
- Rhoi Hysbysiadau Dros Dro
- Cofrestru Loteriau Cymdeithasau Bychain
- Rhoi hawlenni ar gyfer hapchwarae am wobrau
- Derbyn rhybuddion Defnydd Dros Dro
- Derbyn rhybuddion Defnydd Achlysurol

### **4. Awdurdod Cymwys ar gyfer Amddiffyn Plant**

O dan Reoliadau (Datganiad Polisi Awdurdod Trwyddedu) (Cymru a Lloegr) 2006 Deddf Gamblo 2005 (y "**Rheoliadau Polisi**") mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 157(h) y Ddeddf i ddynodi, yn ysgrifenedig, gorff sydd yn gymwys i gynghori'r awdurdod ynghylch amddiffyn plant rhag niwed. Yr egwyddorion yw:

- Yr angen i'r corff fod yn gyfrifol am ardal sydd yn cynnwys y cyfan o ardal yr Awdurdod Trwyddedu; a

- Yr angen i'r corff fod yn atebol i unigolion a etholwyd yn ddemocrataidd yn hytrach nag unrhyw grwpiau a fyddai'n cael budd eu hunain.

Gan hynny, mae'r Cyngor yn dynodi Gwasanaethau Plant a Theuluoedd Ynys Môn i'r diben hwn.

Mae'r Cyngor yn cydnabod y bydd efallai yn ddoeth i sefydliadau eraill gyflawni'r swyddogaeth hon os bydd y Cyngor yn credu mai dyna sydd yn iawn er mwyn atal niwed corfforol, moesol neu seicolegol i blant.

## 5. Pennu Buddgyfranogwyr

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei bwerau o dan Adran 158 y Ddeddf i benderfynu a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo, neu mewn perthynas â chais ar gyfer neu mewn perthynas â thrwydded eiddo.

Mae'r Ddeddf yn diffinio unigolyn fel buddgyfranogwr mewn perthynas â thrwydded eiddo os yw, ym marn yr Awdurdod Trwyddedu sy'n rhoi'r drwydded neu y gwneir y cais iddo:

- yn byw yn ddigon agos i'r safle i fod yn debygol o gael ei effeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig;
- yn meddu ar fuddiannau busnes a allai gael eu heffeithio gan y gweithgareddau awdurdodedig; gallai hyn gynnwys hefyd, er enghraifft, gymdeithasau masnach, elusennau, grwpiau ffydd a phractisau meddygol; neu
- yn cynrychioli unigolion sy'n bodloni un o'r diffiniadau uchod (er enghraifft Cymdeithasau Preswylwyr a Thenantiaid).

Lle bo unigolyn, ni waeth a yw'n cael ei effeithio'n uniongyrchol gan gais am Drwydded Eiddo neu a yw'n byw yn agos at yr eiddo lle gwnaed cais o'r fath neu beidio, yn cynnig ei hun i gynrychioli buddiannau rhai sy'n byw yn y cyffiniau, fe all yr Awdurdod Trwyddedu ofyn i'r unigolyn hwnnw ddarparu tystiolaeth briodol ei fod yn gweithredu fel cynrychiolydd i rywrai eraill.

Pan ystyrir a yw unigolyn yn fuddgyfranogwr ai peidio, bydd pob achos yn cael ei farnu yn ôl ei deilyngdod, gan ystyried yr amgylchiadau perthnasol gan gynnwys y rhai a gynhwysir yng Nghanllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Ni fydd y Cyngor yn ceisio pennu rheol sefydlog o ran pwy sy'n gymwys o dan yr amodau uchod ond mae o'r farn y bydd yn rhaid ystyried pob achos yn unol â'r ffeithiau penodol a barnu pob achos yn ôl ei deilyngdod.

Pan gyfeirir yn y Polisi Gamblo hwn at "**Fuddgyfranogwr**" cyfeirio a wneir at yr unigolion hynny yr ystyrir eu bod yn fuddgyfranogwyr mewn perthynas â'r amgylchiadau perthnasol yn unol â'r polisi uchod.

## 6. Cyfnewid Gwybodaeth

Mae'r Rheoliadau Polisi yn mynnu bod y Cyngor yn nodi pa egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adrannau 29 a 30 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor a'r Comisiwn, a'r swyddogaethau o dan adran 350 y Ddeddf mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth rhwng y Cyngor ac unigolion eraill a restrir yn Atodlen 6 i'r Ddeddf.

Bydd y Cyngor yn gweithredu'n unol â darpariaethau'r Ddeddf pan gyfnewidir unrhyw wybodaeth, ac mae'n cydnabod nad oes dim yn y Ddeddf i awdurdodi datgeliad sydd yn mynd yn groes i Ddeddf Diogelu Data 2018 na'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data, 2018. Bydd y Cyngor hefyd yn gweithredu'n unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddwyd gan y Comisiwn, yn ogystal â rheoliadau perthnasol a wnaed o dan y Ddeddf. Bydd yn mabwysiadu egwyddorion gwell rheoleiddio sef y dylid cynnal gweithgareddau rheoleiddiol mewn modd tryloyw, atebol, cymesur a chyson ac y dylid targedu'r gweithgareddau at yr achosion hynny yn unig lle mae angen gweithredu. Y nod yw hyrwyddo ffyrdd effeithlon ac effeithiol o archwilio a gorfodi at ddibenion rheoleiddiol, sydd yn gwella'r canlyniadau rheoleiddiol heb fod yn fwrn ar fusnesau yn ddianghenraid.

Mae'r Cyngor yn bwriadu i'w brosesau ar gyfer gwneud penderfyniadau fod yn dryloyw. I'r diben hwnnw, fe rennir yr holl sylwadau a wneir i'r Cyngor tra bo cais yn cael ei wneud ar gyfer Trwydded Eiddo â phawb sydd a wnelo â'r cais hwnnw (sef yr ymgeisydd, yr Awdurdodau Cyfrifol ac unrhyw Fuddgyfranogwyr).

Bydd y Cyngor yn cydymffurfio â deddfwriaeth rhyddid gwybodaeth (gan gynnwys Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 heb gyfyngiad) i'r graddau y mae deddfwriaeth o'r fath yn berthnasol i'r Cyngor ac i'r wybodaeth dan sylw.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd yn bwriadu sefydlu protocolau ychwanegol mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth ond fe barheir i adolygu hyn. Os sefydlir unrhyw brotocolau o'r fath gyda chyrrff eraill mewn perthynas â chyfnewid gwybodaeth yna fe sicrheir bod y polisïau hynny ar gael i'r cyhoedd.

Gall y Cyngor o bryd i'w gilydd weithredu ei bwerau o dan adran 115 Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 er mwyn cyfnewid data a gwybodaeth â'r heddlu a phartïon eraill (er enghraifft swyddog gorfodi, awdurdod trwyddedu, CThEM, y Tribiwnlys Haen Gyntaf a/neu yr Ysgrifennydd Gwladol) er mwyn cyflawni ei amcan statudol i leihau trosedd yn yr ardal.

## 7. Archwilio ac Achosion Troseddol

O dan y Rheoliadau Polisi mae'n ofynnol i'r Cyngor nodi'r egwyddorion y bydd yn eu cymhwyso wrth weithredu ei swyddogaethau o dan adran 15 y Ddeddf o ran archwilio safleoedd; a'r pwerau o dan adran 346 y Ddeddf i gychwyn achos troseddol mewn perthynas â'r troseddau a nodwyd yn yr adran honno.

Bydd y Cyngor yn dilyn arweiniad Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu, Cod y Rheoleiddwyr a Pholisi Gorfodi'r Cyngor a bydd yn ystyried canllawiau'r Comisiwn ar bryniannau prawf pan ystyrir gwneud pryniannau prawf mewn safleoedd gamblo. Bydd y Cyngor hefyd yn dilyn ei bolisïau a'i weithdrefnau ei hun o ran defnyddio prawf-brynwyr sydd dan oed.



Bydd y Cyngor yn monitro ac yn ystyried gwaith y Weithrediaeth Gwell Rheoleiddio wrth i'r Weithrediaeth ystyried swyddogaethau rheoleiddiol awdurdodau lleol.

Wrth gyflawni ei swyddogaethau a'i bwerau o dan y Ddeddf mewn perthynas â gorfodi, bydd y Cyngor yn ceisio:

- **Gweithredu mewn modd cymesur:** dylai rheoleiddwyr ymyrryd pan fydd angen yn unig; dylai'r dulliau datrys fod yn briodol i'r risg sy'n bodoli a dylid darganfod beth yw'r costau a'u cadw mor isel ag y bo'r modd.
- **Bod yn atebol:** bydd rheoleiddwyr yn gallu cyfiawnhau penderfyniadau a byddant yn cael eu harchwilio gan y cyhoedd.
- **Bod yn gyson:** bydd y rheolau a'r safonau yn gyd gysylltiedig ac yn cael eu rhoi ar waith mewn modd teg.
- **Bod yn dryloyw:** bydd rheoleiddwyr yn agored ac yn ceisio cadw rheoliadau yn syml a hawdd eu deall.
- **Targedu gwaith gorfodi:** bydd y rheoleiddio'n canolbwyntio ar y broblem gan achosi cyn lleied o faich dianghenraid ag y bo modd i fusnesau.

Bydd safleoedd yn cael eu harchwiliadau rheolaidd yn unol â chynllun. Bydd amllder yr archwiliadau yn cael ei bennu yn unol â'r risg sy'n perthyn i'r safle h.y. bydd y safleoedd yr ystyrir eu bod yn peri risg mwy yn cael eu harchwilio'n amlach na'r rhai sy'n peri risg is.

Wrth bennu'r risg, fe ystyrir:

- natur y gweithgareddau gamblo sy'n cael eu cynnal yn y safle;
- lleoliad y safle mewn perthynas ag ysgolion ac ati; a'r
- y trefniadau a wnaed gan y rheolwyr er mwyn cyflawni'r amcanion trwyddedu.

Efallai y cynhelir ymweliadau monitro ychwanegol, yn ôl doethineb tîm trwyddedu'r Cyngor, os ystyrir bod hyn yn angenrheidiol er mwyn bodloni gofynion yr amcan trwyddedu neu os derbynir cwyn. Bydd yr Ardal yn cael ei monitro i sicrhau nad oes unrhyw safleoedd didrwydded.

Bydd y Cyngor yn ymdrechu i gydweithio â'r heddlu er mwyn gorfodi'r ddeddfwriaeth drwyddedu. Mae'r ddeddfwriaeth yn annog yr heddlu i rannu gwybodaeth am drwyddedigion a safleoedd trwyddedig o dan Ddeddf Trosedd ac Anhrefn 1998. Mae gan y Cyngor bolisi gorfodi cyffredinol sydd yn unol â'r codau ymarfer a ddatblygwyd gan Wasanaeth Erlyn y Goron ac a fydd yn gymwys lle bo hynny'n briodol mewn perthynas â rheoli achosion troseddol.

Y Comisiwn yw'r corff gorfodi ar gyfer trwyddedau Gweithredu a Phersonol. Ni fydd pryderon ynghylch gwneuthuriad peiriannau hapchwarae, nac ynghylch eu cyflenwi na'u trwsio yn cael sylw gan y Cyngor ond fe ddylid hysbysu'r Comisiwn amdanynt.

## 8. Ffactorau perthnasol wrth ystyried ceisiadau ac adolygiadau

### 8.1 Ceisiadau

I wneud cais am Drwydded Safle, rhaid i unigolyn naill ai:

- ddal Trwydded Weithredu i'w awdurdodi i gynnal y gweithgaredd y ceisir Trwydded Safle ar ei gyfer; neu
- fod wedi gwneud cais am Drwydded Weithredu nad yw wedi cael ei benderfynu.

Gyda cheisiadau ar gyfer rhoi, trosglwyddo neu amrywio Trwydded Safle, mae'n rhaid cyflwyno asesiad sy'n dangos sut y bydd yr ymgeisydd yn hyrwyddo'r Amcanion Trwyddedu, ar ffurf Cofrestr Weithredu ysgrifenedig. Gall yr Ymgeisydd ofyn i'r Cyngor ei gynghori ynghylch pa fath o wybodaeth sydd i'w darparu.

Pan wneir cais am Drwydded Safle newydd (neu amrywiad ar Drwydded Safle sy'n bodoli eisoes) mae'n rhaid i'r ymgeisydd hefyd gynnal Asesiad Risg Lleol.

Bydd lefel y manylion sydd i'w darparu yn gymesur â graddfa a natur y cais a wneir.

Ystyrir pob cais yn unigol yn ôl ei deilyngdod ac yn unol â'r Ddeddf, y canllawiau perthnasol a'r Polisi Gamblo hwn.

## 8.2 Gwrthwynebu a Gwneud Sylwadau ac Adolygu Cais

Mae gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol hawl i wneud sylwadau perthnasol yn ysgrifenedig ynglŷn â chais neu i ofyn i drwydded gael ei hadolygu.

Yr unig sylwadau sydd yn debygol o fod yn berthnasol yw rhai sy'n ymwneud â'r Amcanion Trwyddedu neu sy'n codi materion o dan y Polisi Gamblo hwn.

Rhoddir ystyriaeth briodol i bob sylw perthnasol oni bai ei fod yn ddisylwedd neu'n flinderus. Ar sail y ffeithiau y penderfynir a yw sylw'n ddisylwedd neu'n flinderus ac fe benderfynir ar bob achos yn unigol.

Pan benderfynir ar gais i roi Trwydded Safle neu i adolygu trwydded safle, fe ystyrir pa mor agos yw'r safle at ysgolion, canolfannau ar gyfer oedolion agored i niwed, neu ardaloedd preswyl lle mae llawer o deuluoedd sydd â phlant.

Bydd y penderfyniad, a yw safle o'r fath yn agos iawn at y safle gamblo arfaethedig ai peidio, yn amrywio yn unol â maint a natur y safle gamblo dan sylw.

Mae Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a'r Amodau a'r Codau Ymarfer ar gyfer Trwyddedau yn nodi materion ychwanegol y mae'n rhaid i'r Cyngor eu hystyried wrth edrych ar geisiadau am Drwyddedau Safle.

Lle darperir cyfleusterau gamblo mewn safle fel gweithgaredd ychwanegol i brif ddiben y safle (e.e. manau gwasanaeth gerllaw ffyrdd a chanolfannau siopa), bydd y Cyngor yn disgwyl i'r ardal gamblo gael ei diffinio'n glir a chael ei goruchwyllo'n ddigonol bob amser.

Bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau hyn a ffactorau perthnasol eraill wrth wneud ei benderfyniad, yn unol â holl amgylchiadau'r achos.

Penderfynir pob achos yn ôl ei deilyngdod a bydd yn dibynnu i raddau helaeth ar y math o gamblo y cynigir ei gynnal yn y safle. Felly, os gall ymgeisydd brofi'n effeithiol sut y gellid datrys pryderon ynghylch yr Amcanion Trwyddedu, fe gaiff hynny ei ystyried.

## 8.3 Ystyriaethau Amherthnasol

Nid yw gwrthwynebiad moesol i gamblo yn rheswm dilys dros wrthod ceisiadau am Drwyddedau Safle. Dylid nodi hefyd nad yw atal niwsans cyhoeddus ac ymddygiad gwrthgymdeithasol yn amcanion trwyddedu penodol (yn wahanol i'r sefyllfa o dan Ddeddf Trwyddedu 2003).

Yn unol â'r Ddeddf, pan benderfynir a ddylid rhoi Trwydded Safle ai peidio, ni fydd y Cyngor yn rhoi sylw i'r galw disgwylidig am y safle gamblo sydd yn destun y cais.

#### 8.4 Amodau

Cymhwysir rhai amodau i Drwyddedau Safle yn rhinwedd y Ddeddf (a rheoliadau a wneir dan y Ddeddf). At hynny, mae gan y Cyngor bŵer dan y Ddeddf i osod amodau pan fydd yn rhoi Trwydded Safle.

Wrth weithredu'r pŵer hwn, rhaid i'r Cyngor roi sylw i'w gyfrifoldebau dan y Ddeddf ac i'r polisi a nodir yn y paragraff hwn. Wrth ystyried gosod amodau, bydd y Cyngor yn gwneud defnydd o'r cyngor a'r canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn a bydd raid iddo ystyried amgylchiadau pob achos unigol yn ôl ei deilyngdod.

Ni fydd y Cyngor yn gosod amodau ar Drwydded Safle oni bai fod y Cyngor yn ystyried bod amodau o'r fath yn angenrheidiol, rhesymol a chymesur i'r defnydd o'r safle ar gyfer gamblo yn unol â'r Amcanion Trwyddedu, y canllawiau a roddwyd gan y Comisiwn, codau ymarfer y Comisiwn a'r Polisi Gamblo hwn.

Wrth ystyried unrhyw gais, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu gwaith cyfundrefnau rheoleiddio eraill hyd y bo modd ac fel rheol fe ystyrir nad oes angen amodau os yw'r Cyngor o'r farn bod y materion y bwriedir i'r amodau roi sylw iddynt eisoes yn cael eu trin yn ddigonol gan ddeddfwriaeth arall.

Ni roddir amodau heblaw er mwyn bodloni gofynion yr Amodau Trwyddedu. Bydd amodau yn rhai cymesur a byddant yn briodol ar gyfer:

- y busnes, y sefydliad neu'r unigolyn dan sylw;
- graddfa'r gweithgaredd gamblo a nodir yn y cais; a'r
- risgiau a wêl y Cyngor.

Hyd y bo modd, bydd amodau a roddir ar Drwyddedau Safle yn adlewyrchu strategaethau atal trosedd yn lleol. Er enghraifft, efallai y bydd yn briodol gosod camerâu cylch cyfyng mewn rhai safleoedd.

Pan ystyrir pa amodau sydd i'w rhoi ar drwyddedau, bydd y Cyngor yn canolbwyntio'n bennaf ar effaith uniongyrchol y gweithgareddau sy'n digwydd mewn safle trwyddedig ar aelodau'r cyhoedd sy'n byw, yn gweithio neu yn gwneud pethau arferol yn yr ardal dan sylw.

Yn hyn o beth, mae'r Cyngor yn cydnabod, ar wahân i'r swyddogaeth drwyddedu, bod nifer o fecanweithiau eraill ar gael i fynd i'r afael ag ymddygiad afreolus a all ddigwydd y tu allan i safleoedd trwyddedig, gan gynnwys:

- rheolaeth gynllunio;
- mesurau parhaus i greu amgylchedd diogel a glân mewn partneriaeth â busnesau lleol, gweithredwyr cludiant ac adrannau eraill y Cyngor;
- cydgysylltu'n rheolaidd â'r heddlu ar faterion yn ymwneud â gorfodi'r gyfraith o ran anhrefn ac ymddygiad gwrth-gymdeithasol;
- pŵer yr heddlu, Awdurdodau Cyfrifol eraill neu Fuddgyfranogwr i wneud cais

am gael adolygu'r Drwydded Safle.

## 8.5 Mynediad

Mae'r rheoliadau a wnaed o dan y Ddeddf yn nodi'r darpariaethau mynediad ar gyfer pob math o safle yng Nghymru a Lloegr.

Wrth adolygu cais, bydd y Cyngor yn rhoi ystyriaeth arbennig i unrhyw faterion sy'n ymwneud ag israniadau o fewn adeilad neu blot unigol a bydd yn sicrhau y cedwir at yr amodau gorfodol mewn perthynas â mynediad.

Yn y cyd-destun hwn, bydd y Cyngor yn ystyried y ffactorau a ganlyn mewn perthynas â safle sy'n destun cais am Drwydded Safle:

- a yw'r safle wedi cofrestru ar wahân ar gyfer trethi busnes;
- perchnogaeth safleoedd cyfagos;
- a oes modd cael mynediad i safleoedd cyfagos o'r stryd neu dramwyfa gyhoeddus; ac
- ai dim ond o safle gamblo trwyddedig arall y gellir cael mynediad i'r safle.

Nodir isod ddarpariaethau perthnasol y Comisiwn Gamblo ar gyfer pob math o safle:

### Casinos:

Mae'n rhaid i'r brif fynedfa i'r safle fod o stryd. Yn y cyd-destun hwn mae "stryd" yn cynnwys unrhyw bont, ffordd, lôn, troedffordd, tanlwybr, sgwâr, cwrt, ale neu dramwy (gan gynnwys tramwy trwy safle caeedig fel rhodfa siopa), boed yn ffordd drwodd neu beidio.

Ni chaiff unrhyw fynediad i gasino fod o safle a ddefnyddir yn unig neu yn bennaf gan blant a/neu bobl ifanc.

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy'n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

### Canolfan Hapchwarae i Oedolion:

Ni chaniateir i unrhyw gwsmer allu mynd i mewn i gasino yn uniongyrchol o safle arall sy'n desun Trwydded Safle ar gyfer gamblo.

### Siopau Betio:

Mae'n rhaid i'r mynediad fod o stryd (gweler y diffiniad uchod) neu o set o safleoedd eraill sy'n destun Trwydded Safle ar gyfer betio.

Ni chaniateir mynediad uniongyrchol i siop fetio o safle arall a ddefnyddir ar gyfer manwerthu nwyddau neu wasanaethau.

### Traciau:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino; neu
- ganolfan hapchwarae i oedolion.

### Safle Bingo:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Canolfan Adloniant Teuluol:

Ni ddylai unrhyw gwsmer allu cael mynediad i'r safle yn uniongyrchol o:

- gasino;
- canolfan hapchwarae i oedolion; neu
- safle betio, ac eithrio trac.

Ceir canllawiau pellach ar y mater hwn yn Rhan 7, Canllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu a bydd yr awdurdod hwn yn ystyried y rheini hefyd wrth wneud penderfyniadau.

## 8.6 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Lle bo unigolyn yn bwriadu gweithredu sefydliad yn llwyr neu yn bennaf er mwyn cynnig peiriannau hapchwarae, ac nad oes gan y sefydliad Drwydded Safle berthnasol, gall yr unigolyn hwnnw wneud cais i'r Cyngor am hawlen i weithredu Canolfan Adloniant Teuluol ddirwydded (ar yr amod y cydymffurfir â'r darpariaethau perthnasol a nodir yn y Ddeddf a'r rheoliadau a'r canllawiau perthynol i'r Ddeddf).

Ni ellir caniatáu cais am hawlen o'r fath oni bai fod y Cyngor yn fodlon y bydd y safle'n cael ei ddefnyddio fel Canolfan Adloniant Teuluol ddirwydded a rhaid i ymgynghoriad fod wedi ei gynnal ynghylch y cais â phrif swyddog yr heddlu.

Bydd yr ystyriaethau perthnasol ar gyfer y Cyngor pan ystyria a ddylid rhoi hawlen o'r fath yn cynnwys (yn ddigyfngiad) addasrwydd yr ymgeisydd, gan gynnwys unrhyw euogfarn a all olygu bod yr ymgeisydd yn anaddas i weithredu canolfan adloniant teuluol, ac addasrwydd y safle o ran lleoliad ac o ran materion yn ymwneud ag anhrefn.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i unrhyw ymgeisydd am hawlen o'r fath fod wedi sefydlu polisiau a gweithdrefnau i amddiffyn plant rhag niwed. Yn y cyd-destun hwn ni fydd niwed yn gyfyngedig i niwed oherwydd gamblo ond mae'n cynnwys ystyriaethau ehangach mewn perthynas ag amddiffyn plant megis hyfforddi staff ar gyfer adegau pan amheuir triwantiaeth, a sut i drin plant nad oes neb yn eu gorchwyllo, plant ifanc iawn, neu blant sy'n achosi anhrefn yn y safle ac o'i amgylch.

Dylai darpar ymgeiswyr roi sylw i'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf, y rheoliadau perthnasol a'r canllawiau perthnasol o ran pa gategoriâu o beiriant hapchwarae y caniateir eu defnyddio mewn Canolfan Adloniant Teuluol Ddirwydded (neu unrhyw sefydliad arall a drwyddedir neu a ganiateir mewn modd arall gan y Cyngor).

## 8.7 Loteriau Cymdeithasau Bychain

Y Cyngor sydd yn gyfrifol am gofrestru cymdeithasau i redeg Loteriau Cymdeithasau Bychain. Dylai ymgeiswyr a gweithredwyr roi sylw i'r darpariaethau perthnasol yn y Ddeddf ac i'r rhannau perthnasol o Ganllawiau'r Comisiwn ar gyfer Awdurdodau Trwyddedu.

Bydd yr Awdurdod yn dilyn trefn seiliedig ar risg wrth gyflawni ei gyfrifoldebau gorfodi ar gyfer loteriau cymdeithasau bychain. Mae'r awdurdod hwn o'r farn y gallai'r rhestr isod, er nad yw'n rhestr orfodol, effeithio ar statws risg y gweithredwr:

- cyflwyno ffurflenni'n hwyr (rhaid cyflwyno ffurflenni cyn pen tri mis wedi'r dyddiad pan dynnwyd y loteri);
- cyflwyno ffurflenni anghyflawn neu anghywir; a
- mynd dros yr uchafsymiau ar gyfer loteriau cymdeithasau bychain.

## **9. Gwneud Penderfyniadau**

### **9.1 Dirprwyo Swyddogaethau**

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y gall y Pwyllgor Trwyddedu, Is-bwyllgor, neu un neu ragor o swyddogion y dirprwyir awdurdod iddynt, gyflawni rhai o bwerau a dyletswyddau'r Awdurdod Trwyddedu.

Ystyrir mai gweinyddol i raddau helaeth fydd llawer o'r swyddogaethau ac ni chredir y bydd dim cynhennus yn eu cylch. Er budd effeithlonrwydd a chost-effeithiolrwydd, cyflawnir y rhan fwyaf o'r rhain gan swyddogion.

Mae rhestr o'r swyddogaethau trwyddedu a sut y caniateir eu dirprwyo o dan y Ddeddf i'w gweld yn Atodiad 3.

### **9.2 Y Drefn Apelio**

Mae'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth fel y bydd gan ymgeiswyr, trwyddedeion a'r rhai sy'n gwneud sylwadau perthnasol mewn perthynas â cheisiadau i'r Awdurdod Trwyddedu hawl mewn rhai achosion i apelio yn erbyn penderfyniadau a wneir gan y Cyngor: nodir hyn yn llawnach yn adran 206 y Ddeddf.

Er mwyn gwneud apêl, dylai'r apelydd roi rhybudd i Lys Ynadon Caernarfon, o fewn 21 diwrnod, gan ddechrau ar y diwrnod pan hysbyswyd yr apelydd gan y Cyngor am y penderfyniad yr apelir yn ei erbyn.

Wrth benderfynu'r apêl, gall y Llys:

- wrthod yr apêl;
- roi yn lle'r penderfyniad yr apeliwyd yn ei erbyn, unrhyw benderfyniad arall y gallasai'r Cyngor ei wneud;
- cyfeirio'r achos i'r Cyngor, i ddelio â'r apêl yn unol â chyfarwyddyd y Llys.
- gwneud gorchymyn ynglŷn â chostau.

### **9.3 Cwynion yn erbyn Safleoedd Trwyddedig a Chyfarfodydd Cymrodeddu**

Bydd y Cyngor yn ymchwilio i gwynion yn erbyn safleoedd trwyddedig, mewn perthynas â materion sydd a wnelo â'r Amcanion Trwyddedu. I ddechrau, anogir achwynyddion i grybwyll y gŵyn yn uniongyrchol wrth y trwyddedai neu'r busnes dan sylw er mwyn ceisio datrys y mater yn lleol.

Lle bo Buddgyfranogwr wedi gwneud sylwadau dilys ynghylch safle trwyddedig neu gais dilys yn gofyn i Drwydded Safle gael ei hadolygu, gall y Cyngor argymhell yn gyntaf fod cyfarfod cymrodeddu yn cael ei gynnal er mwyn rhoi sylw i'r materion sy'n peri pryder a chael goleuni arnynt.

Nid yw argymhelliad o'r fath yn rhwymo unrhyw barti ac ni fydd yn rhagfarnu hawl unrhyw Fuddgyfranogwr i fynnu bod y Cyngor yn ystyried ei sylwadau neu ei gais dilys na hawl unrhyw ddeilydd trwydded i wrthod cymryd rhan mewn cyfarfod cymrodeddu.

#### 9.4 Adolygu Trwyddedau

Bydd y Cyngor yn adolygu Trwydded Safle os bydd yn derbyn cais ffurfiol i gynnal adolygiad o'r fath gan Fuddgyfranogwr neu Awdurdod Cyfrifol yn unol â'r Ddeddf.

Gall cais o'r fath (ond nid oes raid iddo) gynnwys sylwadau i'r perwyl bod un neu ragor o'r gweithgareddau a ganlyn wedi cael eu cynnal yn y safle neu yn cael eu cynnal yno:

- defnyddio safle trwyddedig er mwyn gwerthu a dosbarthu cyffuriau Dosbarth A a gwyngalchu elw troseddau yn ymwneud â chyffuriau;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu a dosbarthu arfau tanio anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig ar gyfer puteindra neu werthu pornograffi anghyfreithlon;
- defnyddio safle trwyddedig fel canolfan ar gyfer gweithgaredd troseddol a drefnir;
- defnyddio safle trwyddedig i drefnu camdriniaeth neu ymosodiadau hiliol, homoffobig neu rywiol;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu tybaco neu nwyddau sydd wedi eu smyglo;
- defnyddio safle trwyddedig i werthu nwyddau sydd wedi eu dwyn a/neu
- weithgareddau a all beri risg i blant a/neu unigolion agored i niwed.

Gall y Cyngor (ond nid oes raid iddo) wrthod cais am adolygiad os yw o'r farn bod un neu ragor o'r isod yn berthnasol:

- bod y sail yn ddisylwedd;
- bod y sail yn flinderus;
- bod y sail yn amherthnasol;
- ei bod yn sicr na fyddai'r sail yn peri i'r Cyngor ddiddymu neu atal trwydded na gosod na thynnu amodau oddi ar y Drwydded Safle;
- bod y sail fwy na heb yr un fath â'r sail a enwyd mewn cais blaenorol mewn perthynas â'r un safle; neu
- bod y sail fwy na heb yr un fath â sylwadau a wnaed pan ystyriwyd y cais am Drwydded Safle.

Gall y Cyngor hefyd ddewis adolygu Trwydded Safle yn ôl ei ddoethineb ei hun.

Unwaith y bydd adolygiad wedi ei gwblhau, mae'n rhaid i'r Cyngor, cyn gynted ag y bo modd, roi gwybod am ei benderfyniad i:

- ddeilydd y drwydded;

- y sawl a wnaeth gais am adolygiad (os yn berthnasol);
- y Comisiwn
- unrhyw unigolyn a wnaeth sylwadau;
- Prif Swyddog yr Heddlu; a
- Chyllid a Thollau Ei Mawrhydi

## 9.5 Adnewyddu

Atgoffeir y rhai sy'n dal hawlenni 10 mlynedd ar gyfer hapchwarae mewn clybiau, peiriannau mewn clybiau a chanolfannau adloniant teuluol didrwydded, mai cyfrifoldeb deiliaid yr hawlenni yw sicrhau y gwneir cais mewn da bryd.

## 9.6 Hawlenni hapchwarae mewn clybiau a hawlenni peiriannau mewn clybiau

Ni chaiff yr awdurdod wrthod cais heblaw am un neu ragor o'r rhesymau a ganlyn:

- (a) (i) ar gyfer **hawlen hapchwarae mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau nac yn sefydliad lles glowyr
- (ii) ar gyfer **hawlen peiriannau mewn clybiau**: nad yw'r ymgeisydd yn glwb aelodau, sefydliad lles glowyr na chlwb masnachol
- (b) bod y safle'n cael ei ddefnyddio'n bennaf gan blant neu bobl ifanc
- (c) bod ymgeisydd wedi cyflawni trosedd neu wedi torri un o amodau'r hawlen
- (ch) bod hawlen y bu ymgeisydd yn ei dal wedi cael ei chanslo yn ystod y deng mlynedd diwethaf
- (d) bod y Comisiwn neu brif swyddog yr heddlu yn lleol wedi mynegi gwrthwynebiad.

Ni chaiff yr awdurdod ganslo hawlen heblaw am un o'r rhesymau a ganlyn:

- (a) bod y safle'n cael ei ddefnyddio yn llwyr neu yn bennaf gan blant neu bobl ifanc
- (b) bod trosedd wedi ei chyflawni neu y torrwyd un o amodau'r hawlen yn ystod gweithgareddau hapchwarae.

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau dri mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen chwe wythnos cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Gall hawlenni a roddwyd fynd yn ddi-rym mewn rhai amgylchiadau a gallant gael eu canslo a'u hamrywio.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

Os bydd gan yr ymgeisydd dystysgrif safle clwb ar yr adeg pan adnewyddir hawlen, fe ddilynir y drefn llwybr carlam, fel sy'n digwydd pan ymgeisir am yr hawlen i ddechrau.

## 9.7 Canolfannau Adloniant Teuluol Didrwydded

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn



ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais. Ni chaiff yr awdurdod wrthod adnewyddu hawlen heblaw ar y sail:

- y gwrthodwyd mynediad i un o swyddogion awdurdodedig yr awdurdod lleol i'r safle heb esgus rhesymol
- na fyddai adnewyddu'r hawlen yn rhesymol gyson â'r amcanion trwyddedu. Yn hyn o beth, bydd y Cyngor wedi manteisio ar ymgynghori â phrif swyddog yr heddlu a bydd yn ymwybodol o unrhyw bryderon sydd wedi codi ynghylch y defnydd o'r safle yn ystod cyfnod yr hawlen.

Ni chwtogir hyd yr hawlen tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

#### 9.8 Hawlenni hapchwarae am wobrau

Mae'n rhaid gwneud cais am adnewyddu hawlen yn ystod y cyfnod sy'n dechrau chwe mis cyn i'r drwydded ddod i ben ac sy'n gorffen dau fis cyn iddi ddod i ben. Mae'r drefn ar gyfer adnewyddu yr un fath ag ar gyfer gwneud cais.

Ni fydd hawlen yn peidio â bod yn ddilys tra bydd cais am ei hadnewyddu, gan gynnwys apêl yn erbyn penderfyniad i beidio â'i hadnewyddu, yn cael ei ystyried.

### **10. Datganiad ynghylch penderfyniadau am gasinos**

Nid oes ar hyn o bryd unrhyw gasino'n gweithredu o fewn y Sir.

Mae trwyddedu casinos newydd yn cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a'r rheoliadau perthnasol iddi. Nid yw'r Cyngor yn un o'r Awdurdodau Trwyddedu sydd â phwerau i roi Trwyddedau Safle ar gyfer casinos.

Yn ogystal, mae'r Ddeddf yn rhoi disgrisiwn i bob Awdurdod Trwyddedu gyhoeddi penderfyniad i beidio â rhoi trwyddedau safle ar gyfer casinos.

Nid yw'r Cyngor ar hyn o bryd wedi gwneud penderfyniad o'r fath i wahardd casinos.

Bydd y Cyngor yn parhau i adolygu mater Trwyddedau Safle ar gyfer casinos ac fe all newid ei bolisi mewn perthynas â hyn fel y gwêl yn dda. Os digwydd hynny, bydd y Cyngor yn ufuddhau i'r gyfraith berthnasol ac yn rhoi sylw i ganllawiau swyddogol perthnasol.

### **11. Cyfundrefnau rheoliadol eraill**

Wrth ystyried materion mewn perthynas â'r polisi hwn, bydd yr Awdurdod Trwyddedu yn ceisio osgoi dyblygu â chyfundrefnau rheoliadol eraill hyd y bo modd. Lle bo cyfundrefnau rheoliadol eraill yn bodoli, ni fydd y polisi hwn yn ceisio gosod unrhyw amod a fyddai'n dyblygu gofynion deddfwriaethol eraill. Yn yr un modd, pan

benderfynir ar geisiadau neu apeliadau, fe roddir ystyriaeth i'r Ddeddf a ffactorau perthnasol y manylir arnynt yn y polisi hwn.

## **12. Y galw am safleoedd hapchwarae**

Bydd pob cais am drwydded safle hapchwarae yn cael ei ystyried yn ôl ei deilyngdod. Ni fydd ystyried y galw disgwylidig am safleoedd hapchwarae yn ffactor berthnasol wrth benderfynu ar y cais, yn unol ag adran 153 y Ddeddf.

## **13. Gwybodaeth Ychwanegol**

Mewn perthynas ag unrhyw wrthwynebiad i roi trwydded safle newydd, neu geisiadau am adolygu trwydded sy'n bodoli eisoes, dylai unrhyw wrthwynebiad fod yn seiliedig ar y tri amcan trwyddedu allweddol yn y Ddeddf:

- rhwystro gamblo rhag bod yn ffynhonnell trosedd ac anhrefn, rhag bod yn gysylltiedig â throsedd ac anhrefn, a rhag cael ei ddefnyddio i gefnogi trosedd;
- sicrhau bod gamblo'n cael ei gynnal yn deg ac yn agored; ac
- amddiffyn plant ac unigolion eraill sy'n agored i niwed rhag cael eu niweidio neu eu hecsbloetio oherwydd gamblo.

Ni fydd unrhyw wrthwynebiad nad yw'n ymwneud â'r amcanion uchod yn cael ei ystyried yn wrthwynebiad perthnasol.

## **14. Aseidiadau Risg Lleol**

Mae'r Amodau Trwyddedu a Chodau Ymarfer yn mynnu bod gweithredwyr gamblo (h.y. gweithredwyr canolfannau hapchwarae i oedolion, safleoedd bingo, canolfannau adloniant teuluol, siopau betio a chyfryngwyr betio o bell) yn asesu'r risgiau lleol i'r Amcanion Trwyddedu, sy'n cael eu peri drwy ddarparu cyfleusterau gamblo ym mhob safle o'u heiddo, ac yn sicrhau bod ganddynt bolisïau, gweithdrefnau a mesurau rheoli yn eu lle i liniaru'r risgiau hynny.

Dylid adolygu a diweddarau'r aseidiadau risg hyn:

- er mwyn rhoi ystyriaeth i newidiadau sylweddol yn yr amgylchiadau yn lleol, gan gynnwys yr amgylchiadau hynny a nodir yn natganiad polisi trwyddedu yr awdurdod;
- pan fydd newidiadau sylweddol yn safle trwyddedai, a all effeithio ar yr hyn a wnânt i liniaru risgiau lleol; a
- phan wneir cais am amrywio trwydded safle.

Mae'n rhaid i weithredwr gynnal asesiad risg lleol pan fydd yn gwneud cais am drwydded safle newydd.

Mae'n ofynnol i weithredwyr sicrhau bod yr asesiad risg ar gael i awdurdodau trwyddedu pan gyflwynir cais ar gyfer Trwydded Safle newydd neu ar gyfer amrywio Trwydded Safle, neu ar unrhyw adeg pan ofynnir amdano. Bydd yr asesiad risg yn rhan o drefn archwilio'r Cyngor ac efallai y gofynnir amdano pan fydd swyddogion yn edrych i mewn i gwynion. Bydd angen cadw copi o'r asesiad risg lleol ar y safle.

Mae'r Cyngor yn disgwyl i weithredwyr ystyried y materion isod wrth baratoi eu hasesiad risg.

- gwybodaeth a gadwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio ac achosion o gamblo o dan oed;
- tueddiadau hapchwarae a allai olygu bod budd-daliadau'n cael eu gwario;
- trefnu i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau hapchwarae;
- lleoliad trefol, megis agosrwydd i ysgolion, yr amgylchedd masnachol, ffactorau arbennig sy'n effeithio ar nifer y bobl sy'n mynd heibio;
- yr amrywiaeth o gyfleusterau sydd yn ymyl y safle trwyddedig, megis safleoedd hapchwarae eraill, banciau, swyddfeydd post, a chyfleusterau lluniaeth ac adloniant;
- Problemau hysbys yn yr ardal, megis problemau sy'n deillio o bobl yn yfed ar y stryd, ieuencid, pobl yn ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gweithgareddau delio mewn cyffuriau ac ati;

materion cysylltiedig â phlant a phobl ifanc, gan gynnwys:

- unrhyw sefydliadau, manau neu ardaloedd lle dylid disgwyl i blant a phobl ifanc fod yn bresennol, megis ysgolion, clybiau ieuencid, parciau, manau chwarae a lleoliadau adloniant megis aleau bowlio, sinemâu ac ati;
- unrhyw safleoedd lle mae plant yn ymgynnull, gan gynnwys arosfannau bws, caffis, siopau, ac unrhyw le arall y denir plant iddo;
- unrhyw fannau lle mae tuedd i bobl ifanc ymddwyn yn wrth-gymdeithasol, gan gynnwys gweithgareddau fel graffiti, yfed o dan oed, ac ati; ac
- achosion a gofnodwyd o bobl o dan oed yn ceisio gamblo dan oed, neu wybodaeth sydd gan y trwyddedai ynglŷn â hynny;

materion cysylltiedig ag oedolion agored i niwed, gan gynnwys:

- gwybodaeth a gedwir gan y trwyddedai ynghylch hunan-eithrio
- tueddiadau gamblo a allai fynd law yn llaw â dyddiadau taliadau ariannol, fel diwrnodau talu neu daliadau budd-dal
- unrhyw drefniant i gyfnewid gwybodaeth yn lleol ynghylch hunan-eithrio a thueddiadau gamblo; ac

- agosrwydd safleoedd a allai gael eu mynychu gan bobl agored i niwed e.e. ysbytai, cartrefi gofal preswyl, cyfleusterau meddygol, meddygfeydd, swyddfeydd tai cyngor, clinigau cyflyrau caeth neu ganolfannau cymorth, mannau lle gallai pobl sy'n ddibynnol ar alcohol neu gyffuriau ymgynnull, ac ati;

a

- ffactorau eraill a all fod yn berthnasol gan gynnwys (ond heb fod yn gyfyngedig i) faterion ffydd perthynol i unrhyw grefydd neu ffydd, gan gynnwys agosrwydd at eglwysi, mosgiau, temlau neu unrhyw fan addoli arall.

Nid yw'r rhestr hon yn holl gynhwysfawr a dylid ystyried hefyd ffactorau perthnasol eraill nad ydynt i'w gweld yn y rhestr hon.

#### 14.1 Asesiadau Risg – Mesurau Rheoli

Gall mesurau rheoli i liniaru risg tybiedig olygu cyfuniad o systemau, dyluniad a mesurau corfforol. Bydd mesurau rheoli priodol yn cael eu hasesu fesul achos yn ôl teilyngdod arbennig y mesurau bwriedig yng nghyd-destun yr amgylchiadau dan sylw.

Er enghraifft, er mwyn rhoi sylw i'r ffactorau risg o ran plant yn cael mynediad i safle gamblo sydd wedi'i gyfyngu i bobl dros 18 oed, efallai y byddai'r gweithredwr yn nodi'r mesurau a ganlyn:


- **Systemau:** polisiâu ar gyfer cardiau PASS neu drefn gwirio oed, cynllun herio 25, a hyfforddi staff
- **Dyluniad:** Dyluniad allanol na fydd yn denu plant i'r safle, cynllun y fynedfa yn galluogi staff i fonitro pwy sy'n dod i mewn i'r safle a'u herio ynghylch eu hoed pan fo'n briodol.
- **Corfforol:** teledu cylch cyfyng a synwryddion electronig

### 15. Declarasiwn

Darparwyd y Datganiad hwn o Bolisi Trwyddedu (Polisi Gamblo) gan roi sylw dyledus i'r amcanion trwyddedu yn y Ddeddf, y canllawiau a gyhoeddwyd gan y Comisiwn Gamblo a'r ymatebion a dderbyniwyd gan y rhai yr ymgynghorwyd â hwy ynghylch y polisi.

# Atodiadau

## Atodiad 1 Map o Ardal Cyngor Sir Ynys Môn



## Atodiad 2 - Y rhai yr ymgynghorwyd â hwy

- Betting and Gaming Council
- Heddlu Gogledd Cymru
- Partneriaeth Diogelwch Cymunedol Gwynedd ac Ynys Môn

Atodiad 3 - Cynllun dirprwyo

<b>MATER I'W DRAFOD</b>	<b>CYNGOR LLAWN</b>	<b>IS-BWYLLGOR NEU BANEL</b>	<b>SWYDDOGION</b>
Polisi trwyddedu tair blynedd	X		
Polisi i beidio â chaniatáu casinos	X		
Gosod ffioedd – pan yn addas		X Os dirprwyd gan y Cyngor llawn	
Cais am drwydded eiddo		X Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl	X Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl
Cais am amrywio trwydded		X Pan dderbynnir sylwadau sydd heb eu tynnu'n ôl	X Pan na dderbynnir sylwadau neu eu bod wedi'u tynnu'n ôl
Cais am drosglwyddo trwydded		X Pan dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn neu Awdurdodau Cyfrifol	X Pan na dderbynnir sylwadau gan y Comisiwn neu Awdurdodau Cyfrifol
Cais am drwydded dros dro		X	X
Adolygu trwydded eiddo		X	
Cais am hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae		X Pan dderbynnir gwrthwynebiadau sydd heb eu tynnu'n ôl	X Pan na dderbynnir gwrthwynebiadau/ sylwadau wedi'u tynnu'n ôl
Diddymu hawlenni peiriannau/clybiau hapchwarae		X	
Ceisiadau am hawlenni eraill			X
Diddymu hawlenni peiriant hapchwarae eiddo trwyddedig			X
Ystyried hysbysiadau defnydd dros dro			X

Penderfynu rhoi gwrth-hysbysiad i hysbysiad defnydd dros dro		X	
--	--	---	--

**Mae X yn dynodi'r lefel isaf y gellir dirprwyo penderfyniadau iddynt**